1872

Prifysgol Aberystwyth

# Adolygiad Gwella Ansawdd

Ebrill 2022

# Dadansoddiad Hunanwerthuso
# yn cynnwys
# Adroddiadau Technegol a Newid

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 5

Gwybodaeth gyd-destunol am Brifysgol Aberystwyth, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad ........ 7

Poblogaeth a chyfansoddiad myfyrwyr ........ 11

Dysgu Gydol Oes ........ 12

Canolfan Saesneg Rhyngwladol ........ 12

Myfyrwyr Israddedig ........ 12

Myfyrwyr Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs ........ 13

Myfyrwyr Gradd Ymchwil ........ 13

Darpariaeth Gydweithredol ........ 14

Fframwaith rheoli academaidd ........ 14

Crynodeb o gamau dilynol y darparwr ar ôl yr adolygiad blaenorol ........ 26

Cyfansoddiad, tueddiadau allweddol a newidiadau a ragwelir o ran poblogaeth myfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth am gadw, dilyniant a chanlyniadau. ........ 27

Sylwebaeth ar sut mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ........ 30

Sylwebaeth ar y paratoadau ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys sut gweithiodd y darparwr a'r myfyrwyr mewn partneriaeth wrth baratoi at yr adolygiad ........ 32

Safonau academaidd a phrosesau ansawdd ........ 33

Dull o ddefnyddio data i lywio penderfyniadau a gwerthuso. ........ 35

Monitro Canlyniadau/ Cyfraddau Cadw myfyrwyr a data dilyniant ........ 37

Asesu ceisiadau a throsi ........ 38

Amrywiaeth ........ 38

Profiad Myfyrwyr ........ 39

Argaeledd a dosbarthiad data ........ 39

Data Uwchraddedig ........ 40

Effeithiolrwydd trefniadau sicrhau safonau academaidd. ........ 41

Darpariaeth Gydweithredol ........ 48

Gweithio mewn Partneriaeth ..... 48
Strwythur ..... 49
Strategaeth ..... 51
Adolygu ac Adrodd ..... 52
Proses ..... 54
Terfynu partneriaethau ..... 56
Mesurau dros dro o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig Covid19 ..... 58
Enghreifftiau o ddarpariaeth gydweithredol ..... 59
Coleg Cambria – Cytundeb Rhyddfraint (FdA a BA Addysg) ..... 59
Coleg Gwent – Cytundeb Rhyddfraint (FDSc and top-up BSc Ceffylau) ..... 59
Menter a Busnes – Cytundeb Dilysu (Tystysgrif Uwchraddedig Arweinyddiaeth Newid) ..... 59
Coleg Milfeddygol Brenhinol - Gradd (Israddedig) ar y cyd (BVSc Gwyddor Filfeddygol) ..... 60
Hohai – Cydweddu/ Darpariaeth Addysgu ar y Cyd (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear heb ddyfarniad) ..... 60
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - MA Cyfieithu (MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd) ..... 61
MA Addysg (Cymru) ..... 61
American University - Gradd Ddeuol (Uwchraddedig a Ddysgir) (MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol) ..... 61
Brickfields Asia College - Cytundeb Rhyddfraint (Busnes / Y Gyfraith) ..... 61
Prifysgol Huanghuai – Cydweddu/ Darpariaeth Addysg ar y Cyd (Celf/Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu) ..... 63
Darpariaeth Ddoethurol Gydweithredol ..... 63
Newidiadau ers 2016 ..... 65
Campws Cangen Mauritius ..... 65
Trin Marciau Cyfnewid a Marciau Eraill gan Ddarparwyr Eraill ..... 65
Dileu Rheoliadau 'Llechen Lân' ..... 66
Newidiadau i Ddyfarniad y Radd Gyffredin ..... 67
Newidiadau i Reoliadau a Chonfensiynau Arholiadau Graddau Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs ..... 68

Rhaglenni Newydd 69
Doethuriaethau Proffesiynol 70
BSc Nyrsio Oedolion a BSc Nyrsio Iechyd Meddwl 71
BVSc Gwyddor Milfeddygaeth 72
MA Addysg (Cymru) 72
MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch 72
Ymateb i Bandemig Covid 72
Defnyddio Pwyntiau Cyfeirio Allanol 80
Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) 80
Cod Ansawdd y Deyrnas Unedig 81
Derbyn a Denu Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad 82
Ehangu Cyfranogiad 87
Pryderon, Cwynion ac Apeliadau 88
Cynllunio a Datblygu Cyrsiau 91
Dysgu ac Addysgu 97
Graddau Ymchwil 100
Asesu 103
Dysgu Seiliedig ar Waith 106
Casgliad 107
Geirfa 112

## Cyflwyniad

1. Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes maith o ymgysylltiad â'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd a'r egwyddorion sicrwydd ansawdd a gymeradwyir drwy'r sector AU. Cynhaliwyd adolygiadau sefydliadol gan ddefnyddio gwahanol ddulliau yn 1998, 2006, 2012 and 2016. Yn ogystal, fel rhan o'r broses o reoli datgymalu Prifysgol Ffederal Cymru, y dyfarnwyd ei graddau gan Aberystwyth, gwnaethom gais llwyddiannus am bwerau dyfarnu graddau trwy gwrs a graddau ymchwil yn 2005-06, cyn dechrau dyfarnu ein graddau ein hunain. Ym mhob un o'r adolygiadau hyn, ar wahân i bryder am reoli darpariaeth gydweithredol yn 2012, sydd yn rhan fechan o'n darpariaeth erioed, rydym wedi dangos ein bod yn gosod safonau priodol ar gyfer ein dyfarniadau ac yn rheoli ansawdd ein darpariaeth academaidd yn unol â disgwyliadau'r sector AU.

2. Rydym yn dal yn hyderus yn 2022, er gwaethaf y newidiadau a'r heriau mewnol ac allanol, yn enwedig pandemig parhaus Covid, fod ein strwythurau rheoli ansawdd a'n safonau yn parhau i sicrhau bod safonau graddau Aberystwyth a'n prosesau sicrwydd ansawdd a chyfoethogi dysgu ac addysgu yn effeithiol, ac yn cwrdd â disgwyliadau'r sector a'n myfyrwyr. Yn fwy na hynny, rydym yn gweithio'n agos gyda'n myfyrwyr i wella a datblygu ein darpariaeth yn barhaus, gan ymateb i adborth myfyrwyr, newidiadau technolegol a mentrau llywodraethol. Mae'r clod mawr[1] a gafodd y Brifysgol yn y blynyddoedd diwethaf yn tystio i gydymdrech staff a myfyrwyr i roi'r profiad gorau posib i fyfyrwyr.

3. Mae'r cyfnod ers yr adolygiad diwethaf yn 2016 wedi bod yn un hynod o heriol. Yn benodol, gwelwyd ailstrwythuro academaidd ar raddfa fawr hyd at flwyddyn academaidd 2018-19 yn sgil yr angen i arbed arian yn sylweddol er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Brifysgol drwy'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Yna, o 2019-20 ymlaen, rydym wedi gorfod ymateb yn ddi-oed i bandemig Covid, gan newid arferion addysgu ac asesu oedd wedi hen ennill eu plwyf, yn ogystal â rheoliadau a chonfensiynau, ac ymdopi ag ansicrwydd parhaus sy'n wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn y sector o'r blaen. Mae'r pandemig wedi rhoi straen mawr ar y staff, y myfyrwyr a'r systemau. Mae wedi bod yn flinderus. Rydym yn falch, nid yn unig o'n gallu i gynnal safonau ac ansawdd, ond o'n gallu i barhau i ddarparu'r profiad gorau posib i fyfyrwyr yn y fath amgylchiadau anodd[2]. Er i ni orfod troi ein sylw i ymateb i'r pandemig ac oddi wrth

---

[1] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/awards-and-accolades/latest/

[2] https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2021/07/title-243214-cy.html

weithgareddau eraill i ryw raddau, rydym hefyd wedi parhau i symud ymlaen gyda mentrau, cyfleoedd dysgu a gwelliannau newydd.

4. Mae pandemig Covid yn parhau ac mae wedi effeithio ar yr adolygiad hwn, mewn amrywiol ffyrdd. Cytunwyd ar ffocws gostyngedig, a'r ffocws hwnnw ar sicrwydd yn hytrach na gwella, mewn methodoleg adolygu y bwriadwyd iddi roi pwyslais ar weithgarwch gwella ac osgoi ailbrofi sicrwydd. Felly, mae llawer o ddatblygiadau cyffrous y tu allan i gwmpas yr ymarfer. Mae cyfyngiadau'n parhau i fod yn weithredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, sy'n effeithio ar gyflwyniad yr addysgu a'r asesu. Mae staff yn parhau i weithio gartref pan fo hynny'n bosib. Edrychwn ymlaen at ddychwelyd i 'normalrwydd' - yn enwedig at gael staff a myfyrwyr gyda'i gilydd ar y campws a rhyngweithio heb gyfyngiad – ond derbynnir hefyd fod y pandemig wedi cyflymu rhai newidiadau, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio technoleg ym mhob maes o'n gweithrediadau, ac wedi ein hysgogi i feddwl a oes manteision i rai o'r ffyrdd newydd o weithio, dysgu ac addysgu dros y dulliau mwy sefydledig mewn gwirionedd.

5. Wrth i ni fwrw ymlaen â chynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf, rydym yn llwyr gydnabod bod angen parhau i wella'r ddarpariaeth ac ymateb i amgylchiadau newydd. Credwn ein bod mewn sefyllfa dda i wneud hynny'n fewnol, ar ôl cwblhau a sefydlu ein strwythur academaidd newydd a diogelu sefyllfa ariannol y Brifysgol. Mae'r bartneriaeth gref rydym yn ei mwynhau gyda'r myfyrwyr yn caniatáu cydweithio gwirioneddol. Rydym hefyd yn werthfawrogol iawn o'n hymgysylltiad a'n perthynas â QAA ac mae'r adolygiad hwn yn rhan o'r ymgysylltiad hwnnw. Rydym yn rhan weithredol o Rwydwaith Ansawdd Cymru ac rydym yn defnyddio adnoddau QAA i arwain ein harferion, megis y rhai a ddatblygwyd yn ystod y pandemig. Ond rydym hefyd yn meincnodi ein harferion yn erbyn y Cod Ansawdd, y Fframwaith Cymwysterau, Datganiadau Meincnodi a dogfennau allweddol eraill. Ym mis Ionawr 2022, penodwyd tri aelod o'n staff academaidd gan QAA i wasanaethu ar baneli sy'n adolygu Datganiadau Meincnodau Pwnc Saesneg, Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Seicoleg[3]. Rydym yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio hwn fel proses ddwyffordd sy'n golygu bod arbenigedd ein staff yn cyfrannu at ddatblygu canllawiau'r sector, a bod y staff hynny'n dod â gwell dealltwriaeth o arferion mewn meysydd eraill yn ôl i Brifysgol Aberystwyth.

6. Hyderwn y bydd y tîm adolygu'n gweld Prifysgol sydd o ddifrif ynghylch sicrwydd ansawdd a gwella, sy'n ymrwymo i gynnydd ac sy'n cwrdd â disgwyliadau ein cyfoedion ym maes AU.

---

[3] https://www.qaa.ac.uk/quality-code/subject-benchmark-statements/sbs-reviews-2022

Yn ein hunanarfarniad, rydym yn ceisio cydnabod meysydd lle mae angen gwelliant, ond amlygu hefyd feysydd y gobeithiwn y bydd y tîm yn cytuno eu bod yn feysydd cryfder. Edrychwn ymlaen at gwrdd â'r tîm.

## Gwybodaeth gyd-destunol am Brifysgol Aberystwyth, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

7. Yn 2022, bydd yn 150 mlynedd ers sefydlu Prifysgol Aberystwyth, y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru. Derbyniwyd y myfyrwyr cyntaf ym 1872 ar ôl blynyddoedd lawer o ymdrech i sicrhau cyllid trwy gefnogaeth breifat a chyhoeddus i sicrhau bod addysg lefel prifysgol ar gael yng Nghymru, i fyfyrwyr o bob cefndir. Bryd hynny, roedd addysgu yn digwydd yn adeilad yr Hen Goleg ar lan y môr.

8. Adroddir hanes y brifysgol ar ein gwefan: https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/history/. Mae'n hanes am dwf ac am osod cynseiliau, gyda sefydliad adrannau academaidd newydd, yn aml y cyntaf o'u bath yng Nghymru, derbyn y merched cyntaf yn fyfyrwyr a swyddi uwch i ysgolheigion benywaidd, datblygiad addysg Cyfrwng Cymraeg a datblygiad Campws Penglais, sydd bellach yn brif gampws.

9. Daeth Aberystwyth yn un o aelodau sefydlol Prifysgol Cymru (PC) ym 1893, gan ddyfarnu graddau Cymru ond yn gyfrifol am ei staff a'i gweithgarwch addysgu ei hun. O ganol y 1990au, cafodd swyddogaethau Cofrestrfa PC yng Nghaerdydd eu datganoli, a daeth Aberystwyth yn fwyfwy hunanlywodraethol. Yn dilyn Adolygiad Sefydliadol QAA yn 2005-06, a gyfunwyd â cheisiadau am bwerau dyfarnu graddau trwy gwrs ac ymchwil, sicrhaodd Aberystwyth ei phwerau dyfarnu graddau ei hun ac yna teitl Prifysgol yn 2007. Cam olaf y daith i annibyniaeth lawn oedd y penderfyniad i ddyfarnu Graddau Aberystwyth: mae pob myfyriwr ers mis Medi 2009 wedi'i dderbyn i gymwysterau PA ac mae pob myfyriwr sy'n graddio bellach yn derbyn dyfarniadau PA.

10. Heddiw, mae PA yn Brifysgol ganolig ei maint, eang ei sail, sy'n weithgar ym maes ymchwil, sy'n cynnig ystod o bynciau galwedigaethol ac academaidd ar draws y gwyddorau ffisegol a naturiol, y gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau a'r celfyddydau creadigol. Mae'r dyfarniadau'n cynnwys graddau Sylfaen, graddau Baglor a Meistr Integredig, a dyfarniadau a graddau uwchraddedig trwy gwrs ac ymchwil. Mae pynciau ac adrannau unigol yn cynnig elfennau unigryw, ond arweinir yr addysg fel arfer gan ymchwil. Mae rhai o'n nodweddion neilltuol yn cynnwys y canlynol:

- Mae’r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn mwynhau profiad llawn amser i ffwrdd o’u cartref, gyda theimlad o berthyn i gymuned glos, lle mae’r myfyrwyr a’r staff yn gweithio ac yn byw ochr yn ochr â’i gilydd a phobl leol gan ryngweithio’n gyson. Mae’r lleoliad arfordirol godidog yn cynnig ei fanteision ei hun

- Mae clybiau myfyrwyr, cymdeithasau a chwaraeon yn cyfrannu at brofiad sy’n un cyfoethog i fyfyrwyr. Mae Canolfan Gelfyddydau ragorol ar y campws, sy’n denu sêr rhyngwladol, ac yn dod â’r gymuned leol a rhanbarthol i gampws y Brifysgol yn aml.

- Mae partneriaethau rhyngwladol yn cyfrannu at y llif cyson o fyfyrwyr rhyngwladol sy’n ymuno â’r gymysgedd o fyfyrwyr o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

- Addysgu a arweinir gan ymchwil ac a lywir gan ymchwil, sy'n annog meddwl annibynnol - mae'r rhan fwyaf o raglenni israddedig yn cynnwys gofynion ymchwil/gweithio'n annibynnol sylweddol yn eu blynyddoedd olaf.

- Mynediad i chwe miliwn o gyfrolau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar yr un campws, ynghyd â chasgliadau eraill o ffilmiau, fideos, mapiau, archifau a llawer o adnoddau eraill.

- Ymrwymiad arbennig i'r Gymraeg[4]. Mae gan y Brifysgol amgylchedd, gwefan a dogfennaeth ddwyieithog, a gwneir defnydd helaeth o gyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn y prif bwyllgorau. Mae oddeutu 775 o’n myfyrwyr llawn amser presennol yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn monitro sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ein staff yn erbyn targedau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; cyhoeddir y manylion yn Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg[5].

- Mae gennym draddodiad hir fel un o brif ddarparwyr Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg ac rydym yn darparu cyrsiau israddedig ac uwchraddedig trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn ystod o bynciau. Mae gan y Brifysgol Gangen o’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol[6], ac mae wedi derbyn grantiau gan y Coleg i ariannu darlithyddiaethau, ysgoloriaethau israddedig ac uwchraddedig, prosiectau a modiwlau. Ym mis Medi 2020, ail-

[4] https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/learning-teaching/

[5] 001 Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg 2020 21

[6] https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/learning-teaching/national-developments/

agorwyd ein neuadd breswyl Gymraeg enwog, Pantycelyn[7], ar ôl gwaith moderneiddio

gwerth £16.5m [8], gyda llety ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr, yn gartref modern a chyfoes i gymuned myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol. Yn ogystal â buddsoddiad y Brifysgol ei hun, derbyniodd y prosiect £5m gan raglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru. Mae PA hefyd yn un o'r darparwyr cyrsiau Cymraeg rhanbarthol sy'n gweithredu dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

- Sefydlwyd darpariaeth Dysgu o Bell arloesol dros 30 mlynedd yn ôl yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth ac mae bellach ar gael mewn sawl adran arall. Mae hyn yn cyfrannu at broffil rhyngwladol PA ac mae'n un o'r ffyrdd rydym wedi galluogi myfyrwyr anhraddodiadol a myfyrwyr aeddfed i elwa ar addysg prifysgol.

- Defnydd cynnar, a datblygiad parhaus dysgu a gyfoethogir gan dechnoleg. Yn dilyn prosiect GWELLA CCAUC a gynhaliwyd rhwng 2008-11, rydym wedi parhau i ddatblygu'r amgylchedd dysgu digidol, ac wedi cymryd rhan yn ddiweddar yn yr adolygiad o ddysgu digidol a arweiniwyd gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ran Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru y mae QAA yn bartner ynddo (roedd hyn yn rhan o brosiect cydweithredol Cronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch CCAUC sy'n ceisio cynnal a gwella dysgu digidol ledled Cymru)[9].

- Lleoliad gwreiddiol y Brifysgol oedd ar lan y môr yn yr Hen Goleg, ond bellach mae'r addysgu'n digwydd yn bennaf ar gampws Penglais. Nid oes adrannau academaidd yn yr Hen Goleg bellach, ac mae'r adeilad yn cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd yn ganolfan greadigol a diwylliannol[10].

- Defnyddir adeiladau eraill yn nhref Aberystwyth ar gyfer addysgu hefyd, yn fwyaf nodedig Adeilad Edward Davies sy'n gartref i'r Ysgol Gelf. Mae canolfan ymchwil fawr yng Ngogerddan, rhan o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Yno hefyd erbyn hyn mae Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, sy'n darparu cyfleusterau ac

[7] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/accommodation/accommodation-options/pantycelyn/#overview
[8] https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2020/09/title-235284-cy.html

[9] https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-o-ddysgu-digidol-cymru

[10] https://www.aber.ac.uk/cy/oldcollege/future-plans/

arbenigedd o'r radd flaenaf yn y biowyddorau[11].

11. Ers ein hadolygiad diwethaf, mae Prifysgol Aberystwyth wedi gweithio'n galed, a chyda llwyddiant mawr, i ddychwelyd i'w safleoedd uchel blaenorol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac i wella ei safleoedd yn y tablau cynghrair hefyd. Gwelwyd gostyngiad yn sgoriau'r categori boddhad cyffredinol, o 92 i 83 rhwng 2011 a 2015, ond yn Arolwg 2021, cadarnhawyd mai Aberystwyth oedd y brifysgol orau yng Nghymru am y 6ed flwyddyn yn olynol, gan berfformio wyth pwynt canran yn well na chyfartaledd sector y Deyrnas Unedig o ran boddhad cyffredinol myfyrwyr. Daeth Undeb Myfyrwyr Aberystwyth ar y brig yng Nghymru am foddhad myfyrwyr hefyd yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021. Mae'r sgorau hyn yn dystiolaeth o ymdrech ar y cyd gan UM a'r Brifysgol i gydweithio i wella'r amgylchedd dysgu ac addysgu[12].

12. Yn 2018, dyfarnwyd gwobr Aur i Brifysgol Aberystwyth yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr (FfRhA)[13]. Dywedodd Panel y FfRhA fod myfyrwyr o bob cefndir yn llwyddo i gael 'canlyniadau rhagorol yn gyson' a chyfeiriodd at 'ymagwedd strategol ac arloesol Aberystwyth i sicrhau bod dysgu yn tanio dychymyg a diddordeb y myfyrwyr'. Nodwyd bod boddhad myfyrwyr ag asesiad ac adborth, a chyfraddau cadw a dilyniant i gyflogaeth sgiliau uchel ac astudiaethau pellach, oll yn uwch na'r meincnod. Nododd y Panel hefyd dystiolaeth o:

- gynllunio cyrsiau ac arferion asesu sy'n rhoi cyfle i ymestyn myfyriwr i lefelau rhagorol, i gyflawni eu potensial llawn, ac yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr
- ymagwedd strategol ac arloesol i sicrhau bod y dysgu yn tanio dychymyg a diddordeb y myfyrwyr
- ymrwymiad helaeth, sydd wedi'i hen sefydlu, i ddatblygu a gwobrwyo addysgu rhagorol
- buddsoddiad sylweddol mewn e-ddysgu i hyrwyddo cyfleoedd rhagorol i ddysgu
- ymrwymiad eang i ymgorffori cyflogadwyedd yn y cwricwlwm a'r cyd-gwricwlwm

[11] https://aberinnovation.com/cy/

[12] https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2021/07/title-243214-cy.html

[13] https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2018/06/title-213752-cy.html

- ymagwedd gynhwysfawr ac integredig at addysgu yn y Gymraeg.

13. Adlewyrchir y llwyddiannau hyn, yn eu tro, yn y cynnydd mawr yn y safleoedd tablau cynghrair. Cododd PA bedwar safle i safle 38 yn *The Times/Sunday Times Good University Guide* 2021, gan adlewyrchu cryfderau'r brifysgol o ran rhagoriaeth addysgu a boddhad myfyrwyr. Roedd PA yn y 10 uchaf ar gyfer boddlonrwydd myfyrwyr yn gyffredinol, fel y bu am y chwe blynedd diwethaf. Mae cyflawniadau nodedig eraill yn y canllaw hwnnw yn cynnwys:

    - Prifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Addysgu 2018 a 2019, y brifysgol gyntaf i dderbyn y wobr ddwy flynedd yn olynol.
    - Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2020.

    Yn olaf, daeth PA yn ail yn gyffredinol allan o 131 darparwr addysg uwch gan fyfyrwyr fel rhan o adolygiad annibynnol WhatUni 2020, gan ennill gwobr Aur yn y categori Rhyngwladol yn ogystal ag Aur am y drydedd flwyddyn yn olynol yn y categori uwchraddedig[14].

14. O ran asesu ein hymchwil, rydym yn aros, gyda'r sector, am ganlyniadau asesiad diweddaraf Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2021. Yn FfRhY 2014, barnwyd bod 95% o ymchwil y Brifysgol o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch. Mae hyn yn hanfodol i'r addysgu a arweinir gan ymchwil ac i'r arolygaeth y gallwn ei darparu i fyfyrwyr graddau ymchwil.

## Poblogaeth a chyfansoddiad myfyrwyr

15. Cyrhaeddodd niferoedd myfyrwyr uchafbwynt yn 2011-12 gyda'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr israddedig. Yn y flwyddyn honno, roedd gennym ychydig o dan 9000 o fyfyrwyr llawn amser (gan gynnwys tua 8000 o israddedigion), ein niferoedd uchaf erioed. Mae derbyniadau'r blynyddoedd dilynol wedi bod yn is ac, ar adeg ein hadolygiad diwethaf yn 2016, roedd tua 6500 o fyfyrwyr israddedig llawn amser wedi'u cofrestru; tua 250 o fyfyrwyr uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs a TAR llawn amser, a 265 o fyfyrwyr uwchraddedig llawn amser. Roedd 495 o'r myfyrwyr hyn yn rhai rhyngwladol, wedi'u denu'n bennaf trwy bartneriaethau hirsefydlog. Roedd tua 2200 o fyfyrwyr rhan-amser hefyd (gan gynnwys tua 1400 o fyfyrwyr Dysgu Gydol Oes a 630 o fyfyrwyr Dysgu o Bell).

16. Ym mis Medi 2021, mae poblogaeth y myfyrwyr yn cynnwys:

[14] https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2018/06/title-213752-cy.html

## Dysgu Gydol Oes

- Ar hyn o bryd, mae 640 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyfer y tymor cyntaf. Mae cofrestriadau newydd yn digwydd bob tymor. Roedd tua 1000 dros y flwyddyn llynedd; bydd mwy yn cofrestru ar gyfer y ddau dymor nesaf. Gall myfyrwyr ddewis modiwlau unigol neu anelu at Dystysgrif AU israddedig, neu mewn un achos, Diploma AU israddedig.

## Canolfan Saesneg Rhyngwladol

- Mae'r Ganolfan Saesneg Rhyngwladol yn cynnig Tystysgrif Sylfaen Ryngwladol i baratoi ar gyfer astudiaethau israddedig, a chyrsiau cyn-Feistr ar gyfer myfyrwyr Busnes hefyd, y ddau lwybr yn cynnig sgiliau iaith a sgiliau academaidd sy'n gysylltiedig â phynciau penodol. Cynigir cyrsiau iaith cyn-sesiynol gan y ganolfan hefyd. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi dechrau cyrsiau gradd, mae modiwlau sgiliau academaidd, seminarau astudio effeithiol ar ddechrau sesiwn, ysgrifennu academaidd a chyrsiau sgiliau gwybodaeth ac ymgynghoriadau unigol ar sgiliau ysgrifennu ac iaith. Mae'r rhain yn gweithredu ar bob lefel, o gymwysterau israddedig hyd at ymchwil uwchraddedig.[15]

## Myfyrwyr Israddedig

- Mae tua 45 o fyfyrwyr israddedig Dysgu o Bell mewn Astudiaethau Gwybodaeth ac 17 o fyfyrwyr israddedig rhan-amser ar y campws sydd yn ailadrodd blynyddoedd astudio gan amlaf.

- Fodd bynnag, mae bron pob myfyriwr sy'n astudio ar raddau israddedig yn astudio'n llawn amser yn Aberystwyth. Mae tua 5,300 o fyfyrwyr israddedig llawn amser wedi'u cofrestru ar hyn o bryd.

- Mae'r rhain yn cynnwys ychydig llai na 1,800 o fyfyrwyr newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2021, naill ai ar lefel 3 neu lefel 4; tua 170 yn dalwyr ffioedd rhyngwladol. Mae tua 210 yn dechrau Blwyddyn Sylfaen llawer o gyrsiau gradd. Mae hwn wedi bod yn faes lle mae ehangu a phwyslais sylweddol wedi bod ers yr adolygiad diwethaf.

- Tua 120 o fyfyrwyr newydd sy'n dechrau ar lefel 5 neu 6. Mae'r rhain yn fyfyrwyr rhyngwladol ar gytundebau trosglwyddo yn bennaf, er bod rhai yn drosglwyddiadau unigol. Mae 73 yn dechrau blwyddyn olaf graddau Baglor, yn y Gyfraith neu Fusnes.

[15] https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/

- Mae 93 o fyfyrwyr ar flynyddoedd rhyng-gwrs neu flynyddoedd dramor ar hyn o bryd, ac yn gweithio neu'n astudio fel blwyddyn astudio ychwanegol o fewn eu cynlluniau gradd; mae 43 dramor ar flynyddoedd rhyng-gwrs cynlluniau iaith.

- Mae ychydig llai na 1,400 o fyfyrwyr ar flwyddyn olaf eu gradd ac mae 47 ohonynt ar raddau Meistr Integredig.

## Myfyrwyr Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs

- Mae tua 650 o fyfyrwyr Dysgu o Bell yn astudio modiwlau lefel M ar raglenni Meistr, o gynlluniau hirsefydlog mewn Astudiaethau Gwybodaeth i raglenni a gyflwynwyd yn fwy diweddar yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig a'r cwrs Cynhyrchu Cyfryngau Uwch. Cyrhaeddodd yr olaf y rhestr fer ar gyfer Menter Cyfnewid/Trosglwyddo Gwybodaeth y Flwyddyn yng ngwobrau 'THE Awards' 2021. Rhedir y cwrs gan yr Adrannau Cyfrifiadureg ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

- Mae darpariaeth ran-amser lefel M yn cynnwys ein cyrsiau TUAAU ac AUMA, sy'n datblygu sgiliau addysgu staff a myfyrwyr uwchraddedig ac sydd ag achrediad AAU (ychydig dros 50 o ymgeiswyr) a thua 90 o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Meistr yn rhan-amser. Mae'r grŵp olaf yn ymdrin ag ystod o wahanol gynlluniau ac yn cynnwys cwrs newydd pwysig ar gyfer mis Medi 2021, yr MA Addysg (Cymru)[16], sef datblygiad Cymru gyfan, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhoi cyfle i weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru wella eu gwybodaeth a'u harferion proffesiynol.

- Mae darpariaeth uwchraddedig llawn amser yn cynnwys y TAR, gyda 75 o fyfyrwyr yn dechrau ar y cwrs yn 2021, ac ychydig dros 300 o fyfyrwyr ar raddau Meistr a ddysgir trwy gwrs (gan gynnwys graddau MRes gydag elfen brosiect fwy). Mae mwy na 100 o'r myfyrwyr Meistr yn fyfyrwyr rhyngwladol.

## Myfyrwyr Gradd Ymchwil

- Mae tua 250 o fyfyrwyr llawn amser wedi'u cofrestru ar gyfer graddau ymchwil, gan gynnwys doethuriaethau proffesiynol a graddau MPhil a PhD. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr DProf yn fyfyrwyr rhyngwladol, yn ogystal â 66 o'r myfyrwyr uwchraddedig eraill. Mae 73 o

[16] https://www.aber.ac.uk/cy/education/study-with-us/postgraduate/education-wales/

fyfyrwyr yn astudio'n rhan-amser ar gyfer dyfarniadau Ymchwil Uwchraddedig. Yn ogystal, mae tua 235 o fyfyrwyr ymchwil yn ysgrifennu, yn aros am arholiad neu'n gwneud newidiadau ôl-arholiadau i'w traethodau ymchwil. Rydym yn cymryd rhan mewn sawl partneriaeth neu ganolfan hyfforddiant doethurol, ac yn rhai o'r rhain, mae gan fyfyrwyr arolygwyr gyda dau o'r partneriaid, ond maent wedi'u lleoli, ac wedi'u cofrestru ar gyfer y radd, mewn un brifysgol yn unig. Mae gwybodaeth am ein canolfannau UKRI yn:

https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/fees/postgrad/uk-eu/research/research/

Yn gyffredinol, ychydig llai na 6,000 o fyfyrwyr gradd llawn amser sydd yma ar ein campws. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau eu cyrsiau ym mis Medi bob blwyddyn, ond bydd myfyrwyr Busnes sy'n astudio graddau Meistr yn cael eu derbyn ym mis Ionawr, a gall myfyrwyr ymchwil uwchraddedig gychwyn ar ddechrau semester dau neu ar adegau eraill, gyda chaniatâd. Daw 1,700 o'n myfyrwyr llawn amser o Gymru, ychydig dros 3,000 o weddill y Deyrnas Unedig, gyda 450 o'r Undeb Ewropeaidd, a 630 o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

### Darpariaeth Gydweithredol

- Mae 26 o fyfyrwyr wedi cofrestru eleni ar y radd Baglor Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc), a gynigir gan PA a'r Coleg Milfeddygol Brenhinol. Dyma'r myfyrwyr cyntaf ar y rhaglen newydd hon.

- Mae 40 o fyfyrwyr yn dal wedi'u cofrestru yn Brickfields ar ein graddau BSc Rhyddfraint yn y Gyfraith a Busnes; disgwylir i bob un ond un gwblhau yn ystod 2021-22, ond caiff un myfyriwr rhan-amser ac unrhyw un sydd ag arholiadau i'w hail-sefyll barhau i'r flwyddyn academaidd ganlynol.

- Mae 20 o fyfyrwyr yng Ngholeg Gwent yn dilyn graddau FDSc a BSc; Mae 76 ar wahanol gampysau Coleg Cambria ar gymwysterau BA, FDA, PCE a PRGCE.

- Mae 20 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ar gyfer y Dystysgrif Uwchraddedig mewn Arweinyddiaeth Newid, a ddilyswyd ar ran Menter a Busnes, gydag 20 o fyfyrwyr ychwanegol wedi'u lleoli yn y Coleg Amaethyddiaeth, Bwyd a Menter Wledig (CAFRE) ym Melffast yn dilyn un o'r modiwlau a ddilyswyd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

## Fframwaith rheoli academaidd

17. Y Cyngor yw corf llywodraethu goruchaf y brifysgol, ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad

strategol y Brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol, gweinyddol a materion eraill y Brifysgol. Ceir manylion aelodaeth a chofnodion yn:

https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/council/.

Ceir siart sefydliadol llawn gyda phwyllgorau Cyngor a Senedd yn:

https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/governance/documents/welshdocuments/2022-02-01---siart-strwythur.pdf

18. Bob mis Rhagfyr, mae'r Cyngor yn derbyn y Datganiad Sicrhau Ansawdd blynyddol[17] [18] [19] [20] [21] sy'n adrodd ar ddatblygiadau sicrhau ansawdd a gwella dros y 12 mis blaenorol. Ei fwriad yw darparu tystiolaeth i alluogi'r Cyngor i sicrhau ei hun bod y Brifysgol wedi bodloni, ac yn parhau i fodloni, ei rhwymedigaethau mewn perthynas â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â sicrhau ansawdd, fel y nodir yn Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC. Mae'r datganiad yn grynodeb manwl o weithgareddau arferol a materion allweddol a gododd yn ystod y flwyddyn, gyda lefel y pryder ynghylch pob un wedi'i nodi drwy sgôr Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth[22] [23] [24]. Mae'r adroddiadau hyn wedi'u sefydlu fel elfennau allweddol o'n hadfyfyrio a'n hadroddiadau ar sicrhau ansawdd. Disgwyliwn y bydd y tîm adolygu'n defnyddio'r datganiadau fel ffynonellau tystiolaeth allweddol.

19. Yr Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure, yw prif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol sy'n gyfrifol am berfformiad cyffredinol y Brifysgol, a hi yw Cadeirydd y Senedd. Yr Is-Ganghellor sy'n cadeirio Grŵp Gweithredol y Brifysgol, sef uwch dîm rheoli'r Brifysgol, ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Brifysgol.

20. Y Senedd yw 'awdurdod academaidd y Brifysgol a bydd yn gyfrifol i'r Cyngor am swyddogaethau

---

[17] 002 2020-2021 Datganiad Sicrwydd Ansawdd i 'r Cyngor – gydag Atodiadau-Tach21

[18] 003 2019-2020 Datganiad Sicrwydd Ansawdd i 'r Cyngor – gydag Atodiadau -Tach20

[19] 004 2018-2019 Datganiad Sicrwydd Ansawdd i 'r Cyngor – gydag Atodiadau-Tach19

[20] 005 2017-2018 Datganiad Sicrwydd Ansawdd i 'r Cyngor – gydag Atodiadau -Tach18

[21] 006 2016-2017 Datganiad Sicrwydd Ansawdd i 'r Cyngor – gydag Atodiadau -Tach17

[22] 007 2020-2021 Adroddiad Blynyddol – Gweithgareddau Partneriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth

[23] 008 2019-2020 Adroddiad Blynyddol – Gweithgareddau Partneriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth

[24] 009 2018-2019 Adroddiad Blynyddol – Gweithgareddau Partneriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth

academaidd y Brifysgol mewn addysgu ac ymchwil ac am reoleiddio buddiannau academaidd y myfyrwyr’. Disgrifir ei gyfansoddiad, ei bwerau a'i swyddogaethau yn yr Ordinhadau. Mae aelodaeth gyfredol a chofnodion diweddar ar gael yn:

https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/senate/

21. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr, fel sy'n arferol ar bwyllgorau'r Brifysgol. Y Senedd sy’n gyfrifol am arolygiaeth gyffredinol Cod Ansawdd diwygiedig y Deyrnas Unedig.

22. Ers yr adolygiad diwethaf, mae strwythur rheolaeth academaidd y Brifysgol wedi cael ei ailstrwythuro drwy’r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, a gymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol ym mis Ebrill 2017 ac a luniwyd i sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Erbyn gwanwyn 2020 roeddem yn gallu cau’r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn ffurfiol, ar ôl cyflawni’r sefyllfa weithredu sylfaenol arfaethedig ar gyfer 2018-19.

23. Arweiniodd yr ailstrwythuro hwn at newidiadau i'r Grŵp Gweithredol[25]. Bellach mae pum Dirprwy Is-Ganghellor, sy’n aelodau allweddol o’r Grŵp, ac sy’n adrodd i’r Is-Ganghellor ar eu meysydd cyfrifoldeb penodol fel a ganlyn:

- Yr Athro Tim Woods – Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr
- Yr Athro Colin McInnes – Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi
- Yr Athro Anwen Jones - Dirprwy Is-Ganghellor (DIG) Cyfadran y Celfyddydau a’r Gwyddorau Cymdeithasol a chyda chyfrifoldeb lefel weithredol am ddatblygu darpariaeth academaidd ac ymchwil cyfrwng Cymraeg a maes rhyw agenda Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Prifysgol Aberystwyth.
- Yr Athro Neil Glasser – DIG Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd a chyda chyfrifoldeb lefel weithredol dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynaliadwyedd
- Yr Athro Qiang Shen - DIG Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol
- Aelodau eraill y Grŵp Gweithredol yw:
- Mr Stephen Forster – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Dr Rhodri Llwyd Morgan – Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol

[25] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/executive-group/

24. Mae staff eraill, gan gynnwys Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Gweithredol. Yn lle ein chwe Sefydliad blaenorol, mae gennym bellach dair Cyfadran, gyda strwythur trefniadol a rheoli cyffredin. DIG y Gyfadran sy'n gyfrifol am eu gweithrediadau. Mae’r cyfadrannau'n hwyluso trefniadaeth gwaith academaidd y Brifysgol. Cefnogir DIG y Gyfadran gan Reolwr Cyfadran a Chofrestrydd Cyfadran a chan Bwyllgor Gweithredol y Gyfadran sy'n cynghori'r Is-Ganghellor ac mae hefyd yn cynnwys penaethiaid yr adrannau/ysgolion cyfansoddol, tri Deon Cyswllt, un ar gyfer Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr; un ar gyfer Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi; ac un ar gyfer Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg. Mae Rheolwr y Gyfadran yn adrodd yn uniongyrchol i Ddirprwy Is-ganghellor y Gyfadran ac nid yw'n rhan o'r Gofrestrfa Academaidd, tra bod Cofrestrydd y Gyfadran yn adrodd i'r Cofrestrydd Academaidd. Mae'r ddau yn mynychu Pwyllgor Gwaith y Gyfadran. Mae gan bob Cyfadran Bwyllgor Materion Academaidd sy'n gyfrifol am ddarpariaeth academaidd yr adran honno.

25. Y Cyfadrannau a’u hadrannau academaidd cyfansoddol yw:

- Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol, sy’n cynnwys:

  i. Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
  ii. Adran Hanes a Hanes Cymru
  iii. Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
  iv. Adran y Gyfraith a Throseddeg
  v. Adran Ieithoedd Modern
  vi. Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
  vii. Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd
  viii. Ysgol Gelf
  ix. Ysgol Addysg

- Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol, yn cynnwys:

  x. Adran Cyfrifiadureg
  xi. Adran Astudiaethau Gwybodaeth

xii. Adran Mathemateg

xiii. Adran Ffiseg

xiv. Ysgol Fusnes Aberystwyth


- Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd

xv. Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

xvi. Adran Seicoleg

xvii. Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (sy'n ymgorffori'r Ysgol Filfeddygaeth a'r Ganolfan Addysg Gofal Iechyd)

26. Y Senedd[26] sy'n goruchwylio strwythur pwyllgorau[27] sy'n cynrychioli rhaniad llafur yn ymwneud â thasgau sicrwydd a gwella:




Arferai Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol fod yn bwyllgor o'r Bwrdd Academaidd ond erbyn hyn mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd fel bod y maes hwn dan adain y Senedd yn fwy uniongyrchol. Mae'n goruchwylio'r adran ar Bartneriaethau yng Nghod Ansawdd QAA. Mae adran y Cod Ansawdd ar Dderbyn, Denu Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad yn cael ei goruchwylio gan y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr sydd hefyd yn bwyllgor o'r Senedd. Mae cylch

[26] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/senate/

[27] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/sub-committees/

gorchwyl ac aelodaeth lawn y pwyllgorau hyn ar gael yn ein pecyn gwybodaeth blaenorol (tystiolaeth 500).

27. Mae'r Bwrdd Academaidd, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Dysgu ac Addysgu a hefyd yn adrodd i'r Senedd, yn gyfrifol am y rhan fwyaf o adrannau Cod Ansawdd y QAA ac eithrio'r rhai y mae'r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr a Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol yn gyfrifol amdanynt. Mae'n monitro ac yn gwerthuso safonau academaidd ac ansawdd rhaglenni, gan gynnwys asesu ac adolygu mewnol ac allanol. Mae'r Bwrdd, a'i is-bwyllgorau, yn cynnwys staff allweddol o'r Cyfadrannau yn ogystal â chynrychiolwyr myfyrwyr a staff yn y Gofrestrfa Academaidd ac adrannau gwasanaethau proffesiynol eraill. Yr is-bwyllgorau yw:

- Tri Phwyllgor Materion Academaidd Cyfadran
- Pwyllgor Datblygiad Academaidd
- Pwyllgor Profiad Myfyrwyr
- Pwyllgor Graddau Ymchwil
- Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg
- Pwyllgor Cynllunio Portffolio

28. Mae'r Bwrdd Academaidd yn ymdrin â'r adrannau canlynol o'r Cod Ansawdd:

- Asesu
- Pryderon, Cwynion ac Apeliadau
- Cynllunio a Datblygu Cyrsiau
- Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr
- Arbenigedd Allanol
- Dysgu ac Addysgu
- Monitro a Gwerthuso
- Graddau Ymchwil
- Ymgysylltiad Myfyrwyr

- Dysgu Seiliedig ar Waith (ar y cyd â Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol, a hefyd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr)

Mae hyn yn golygu, ymhlith materion eraill a nodir yn y cylch gorchwyl:

- goruchwylio cynllun, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni
- adolygiadau allanol, dilysu ac achredu
- datblygu a gweithredu'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu
- asesu ac arholi gan gynnwys arholi allanol
- adolygiad o apeliadau, cwynion ac ymddygiad academaidd annerbyniol
- datblygiad academaidd a chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweithgarwch sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

29. Mae gan y Cyfadrannau, ac yn arbennig Pwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau, rôl ganolog yn ein systemau sicrhau ansawdd a gwella. Mae'r PMACau yn cynnwys DIG y Gyfadran, y tri Deon Cyswllt, Penaethiaid Adrannau a dau Gynrychiolydd Myfyrwyr Cyfadran. Mae Cofrestrydd y Gyfadran a Rheolwr y Gyfadran yn mynychu, ynghyd ag aelod o staff o Dîm Sicrwydd a Chyfoethogi'r Gofrestrfa Academaidd a chynrychiolydd o'r Gyfadran Gwasanaethau Gwybodaeth.

30. Mae’r swyddogaethau Sicrwydd Ansawdd a Gwella Ansawdd allweddol y mae’r PMACau yn gyfrifol amdanynt, yn cynnwys craffu ar adroddiadau arholwyr allanol a materion sy’n codi ohonynt, Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs a chynlluniau gweithredu’r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Ar ran y Bwrdd Academaidd, mae PMACau yn cymeradwyo modiwlau newydd a modiwlau wedi'u hailstrwythuro, gohirio a dileu modiwlau, a newidiadau i fodiwlau presennol. Maent yn ganolog i ddatblygiad cynlluniau astudio newydd ac ailstrwythuro'r rhai presennol. Ymhlith y materion eraill y manylir arnynt yn y cylch gorchwyl, maent yn gofalu am weithrediad y Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn y Gyfadran, profiad a chymorth myfyrwyr, gan gynnwys yr Holiadur Gwerthuso Modiwlau (HGM) a phrosesau adborth eraill, ac ymgysylltiad a chynrychiolaeth myfyrwyr. Hwy fydd yn ystyried materion ansawdd a safonau sy'n codi o adroddiadau Cyfarfodydd Adrannol yn ogystal ag unrhyw rai a godir gan fyfyrwyr.

31. Mae'r Pwyllgor Datblygiad Academaidd, a gadeirir gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth, yn ganolbwynt i lawer o weithgareddau gwella. Mae’r aelodau’n cynnwys Deoniaid Cyswllt y Gyfadran ar gyfer Dysgu ac Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr a’r Ddarpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg, y Rheolwr a staff eraill o’r Uned Datblygiad Dysgu ac Addysgu, staff Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd a chynrychiolaeth myfyrwyr. Mae staff y Gofrestrfa Academaidd (Tîm Sicrwydd a Gwella) hefyd yn mynychu. Mae'r Pwyllgor yn cynghori’r Bwrdd Academaidd ar welliant, ac yn benodol mae'n goruchwylio effeithiolrwydd prosesau adborth myfyrwyr gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a HGM; datblygu ac adolygu dysgu a gyfoethogir gan dechnoleg; adnoddau dysgu Gwasanaethau Gwybodaeth, gan gynnwys e-ddysgu; Mesurau Dadansoddi Dysgu a Chynnydd Dysgu.

32. Mae'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr yn cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd ac mae'n cynghori'r Bwrdd Academaidd ar faterion sy'n ymwneud â chymorth, cynrychiolaeth a chyflogadwyedd. Mae’r aelodau’n cynnwys Deoniaid Cyswllt y Gyfadran ar gyfer Dysgu ac Addysgu a’r Ddarpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg, y Rheolwr a staff eraill o’r Uned Datblygiad Dysgu ac Addysgu, Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd a staff Gwasanaethau Gwybodaeth a chynrychiolaeth myfyrwyr. Mae staff y Gofrestrfa Academaidd (Tîm Sicrwydd a Chyfoethogi) hefyd yn mynychu. Mae'n ystyried materion datblygiad strategol mewn perthynas â chymorth, cyflogadwyedd a chadw myfyrwyr; arfer gorau yn yr agweddau cymorth a lles o brofiad y myfyriwr; newidiadau i'r Strategaeth Cyflogadwyedd; gwella cymorth a lles gan gynnwys monitro cysylltiadau effeithiol rhwng y darparwyr cynradd, uwchradd ac allanol a defnyddwyr gwasanaethau sy'n delio â myfyrwyr; monitro perfformiad a chyflawniadau myfyrwyr ag anghenion cymorth cydnabyddedig gan gyfeirio at y sector cyfan; yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn erbyn blaenoriaethau sefydliadol; materion yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr gan gynnwys Addasrwydd i Astudio, Tiwtora Personol, Cyflogadwyedd; y Cwricwlwm Cynhwysol; Ymarfer Academaidd a datblygu sgiliau astudio; Cynrychiolaeth Myfyrwyr gan gynnwys gweithrediad Pwyllgor Cyswllt Staff a Myfyrwyr, ac etholiadau cynrychiolwyr.

33. Cyflwynwyd y Pwyllgor Cynllunio Portffolio ar ddechrau sesiwn 2020-21 i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu, monitro ac adolygu portffolio cynlluniau a ddysgir trwy gwrs y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes ac ymchwil i’r farchnad mewn perthynas â chynigion i gyflwyno cynlluniau newydd, a chynnal dadansoddiadau busnes dros atal a dileu cynlluniau gan gynnwys cytuno ar drefniadau gorffen dysgu priodol ar gyfer myfyrwyr presennol sydd ar y cynlluniau hynny. Caiff ei gadeirio gan y Dirprwy Is-ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad

Myfyrwyr, ac mae'n cynnwys y Pennaeth Cynllunio, Dirprwy Is-gangellorion y Gyfadran, y Cyfarwyddwr Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, y Cofrestrydd Academaidd, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid, Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac un cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr.

34. Mae'r Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Is-ganghellor y Gyfadran (Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol) ac mae'r aelodaeth yn cynnwys y tri Deon Cyswllt ar gyfer Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg, staff Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cynrychiolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, a chynrychiolwyr myfyrwyr gan gynnwys cadeirydd UMCA, Undeb Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg Aberystwyth. Mae Pwyllgor Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn fforwm eang ei sylfaen a chynhwysol sy'n dod ag ystod o leisiau staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid ynghyd i drafod a mynegi syniadau a materion yn ymwneud â'r Gymraeg ar bob lefel o fewn y Brifysgol yng nghyd-destun ehangach cylch gorchwyl cenedlaethol y Coleg.

35. Cadeirir y Pwyllgor Graddau Ymchwil gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion ac mae'n cynnwys tri Deon Cyswllt y Gyfadran ar gyfer Ymchwil, un enwebai arall fesul Cyfadran, un o'r Deoniaid Cyswllt ar gyfer Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg, dau gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, a chynrychiolwyr o'r Gofrestrfa Academaidd. Mae'n gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â Graddau Ymchwil ac astudiaethau Ymchwil uwchraddedig, ac am sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni disgwyliadau Cod Ansawdd y DU. Mae'n goruchwylio rheoliadau ymchwil uwchraddedig, datblygiad a gweithrediad polisi'r Brifysgol ar ymchwil uwchraddedig a'r Strategaeth uwchraddedig, monitro cyfraddau cyflwyno a data ynghylch cyfraddau cyflwyno, cwblhau a thynnu'n ôl ar gyfer graddau ymchwil. Mae hefyd yn goruchwylio prosesau arholi ymchwil uwchraddedig a materion ysgoloriaethau ymchwil.

36. Mae Ysgol y Graddedigion[28] hefyd yn gweithredu o fewn y Gofrestrfa Academaidd. Mae Pennaeth Ysgol y Graddedigion (PYG) yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ymchwil a datblygu ymchwilwyr, yn ogystal â goruchwylio astudiaethau uwchraddedig ar draws y Brifysgol. Mae gan PYG rôl gydgysylltu yn natblygiad polisi ar faterion uwchraddedig, darparu cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr uwchraddedig, ac ar gyfer monitro denu myfyrwyr a chynnydd academaidd myfyrwyr uwchraddedig. Mae'r PYG hefyd yn gyfrifol am hyfforddi arolygwyr ymchwil newydd

[28] https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/

ac mae'n cymeradwyo enwebiadau ar gyfer Arholwyr Allanol graddau ymchwil.

37. Ochr yn ochr â'r cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol hyn, mae'r Deoniaid Cyswllt Dysgu ac Addysgu (DCDA) o bob Cyfadran yn cyfarfod yn rheolaidd â staff y Gofrestrfa Academaidd, cynrychiolwyr myfyrwyr a staff gwasanaethau proffesiynol eraill i ledaenu gwybodaeth a rhannu arferion yn ogystal â datblygu polisi. Cyflwynir nodiadau cyfarfodydd DCDA fel mater o drefn i'r Bwrdd Academaidd er gwybodaeth[29] [30]. Yn yr un modd, mae'r Deoniaid Cyswllt Dysgu ac Addysgu ac Ymchwil yn cyfarfod yn rheolaidd â staff y Gofrestrfa Academaidd, cynrychiolwyr myfyrwyr a staff gwasanaethau proffesiynol eraill i drafod materion sy'n ymwneud â myfyrwyr uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs ac ymchwil fel y Grŵp Llywio uwchraddedig. Bydd y grŵp yn codi materion yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd neu'r Pwyllgor Graddau Ymchwil fel y bo'n briodol[31] [32].

38. Mae'r Adran Gynllunio[33] yn ymdrin â Chynllunio, Adrodd a Dadansoddi Data, a phrosiectau Strategol. Mae'n cefnogi datblygiad a gweithrediad gweithgareddau cynllunio a strategaeth, gan gynnwys y Cynllun Ffioedd a Mynediad[34] [35] a Chynllun Strategol y Brifysgol[36], a fframwaith Rheoli Risg cyffredin y Brifysgol[37] [38] [39]. Mae'r adran yn darparu data trwy system dangosfwrdd 'PowerBI' i lywio gweithgaredd y Brifysgol gan gynnwys gosod DPA a thargedau'r dyfodol, ac mae'n arolygu'r gofynion adrodd ar ddata. Mae hefyd yn rheoli prosiectau fel yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a datblygiadau newydd gan gynnwys Nyrsio a thwf y blynyddoedd

[29] 010 Bwrdd Academaidd – Cyfarfod y Deoniaid Cyswllt -14-07-21

[30] 011 Ac Bwrdd Academaidd – Cyfarfod y Deoniaid Cyswllt -18-10-21

[31] 012 Grŵp Llywio Uwchraddedig -27-05-21

[32] 013 Grŵp Llywio Uwchraddedig -08-11-21

[33] https://www.aber.ac.uk/cy/pag/

[34] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/student-fees/

[35] https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/theuniversity/studentfeeplan/2022-2023-plan-for-Web.pdf

[36] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/strategic-plan/

[37] https://www.aber.ac.uk/cy/pag/risk-management/

[38] https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/planningoffice/riskmanagement/Risk-Management-Policy-Procedures-updated-post-ARAC.docx

[39] https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/planningoffice/riskmanagement/Risk-Matrix-2020.docx

astudio Sylfaen.

39. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn adran allweddol arall yng nghyd-destun gwelliant a phrofiad myfyrwyr. Ceir gwybodaeth am ei weithgareddau yn: https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau Hygyrchedd[40] i gefnogi myfyrwyr ag anableddau, cyflyrau iechyd corfforol/meddwl hirsefydlog neu wahaniaeth dysgu penodol, darparu cymorth a chyngor ariannol[41], cymorth lles[42], cyngor fisa[43], ac Arweinwyr Cyfoed Adrannol a Mentora 'Ffordd Hyn'[44], yn ogystal â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd[45].

40. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth, y gyfarwyddiaeth gyfrifol, yn goruchwylio darpariaeth y Gwasanaethau Llyfrgell ar gyfer ymchwil ac addysgu, Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth at ddibenion Academaidd, gan gynnwys y rheini a ddarperir mewn mannau addysgu y gellir eu harchebu'n ganolog a Systemau Gwybodaeth Reoli[46]. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau amserlennu a'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu. Mae'r uned yn cynllunio ac yn cyflwyno llawer o ddatblygiad addysgol a phroffesiynol staff y Brifysgol[47], gan gynnwys modiwlau'r Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU)[48] ac Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA)[49]. Mae'n hyrwyddo dysgu ac addysgu a gyfoethogir gan dechnoleg trwy gefnogi ystod o offer e-ddysgu gan gynnwys Blackboard, Turnitin a Panopto. Ceir gwybodaeth yn: https://www.aber.ac.uk/cy/lteu/welcome/

41. Mae gan yr adran Marchnata a Denu Myfyrwyr Byd-eang[50], a gafodd ei hailstrwythuro'n

---

[40] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/accessibility/

[41] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/advice-info-money/

[42] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/wellbeing/

[43] https://www.aber.ac.uk/en/sscs/visa-support-advice/

[44] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/accessibility/peer-support/

[45] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers/

[46] https://www.aber.ac.uk/cy/is/

[47] https://www.aber.ac.uk/cy/is/it-services/elearning/guidesanddocuments/

[48] https://www.aber.ac.uk/cy/lteu/pgcthe/

[49] https://www.aber.ac.uk/cy/lteu/tpau/

[50] https://www.aber.ac.uk/cy/gmsr/

ddiweddar, gyfrifoldebau sy'n cynnwys marchnata a denu myfyrwyr, cyfleoedd i astudio dramor, ac ehangu cyfranogiad.

42. Fel rhan o ailstrwythuro'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, ynghyd â symud i Gyfadrannau, mae'r holl staff gweinyddol sy'n cefnogi dysgu ac addysgu wedi'u grwpio gyda'i gilydd o fewn un Gofrestrfa Academaidd[51]. Mae’r Gofrestrfa Academaidd yn cefnogi gweithrediadau academaidd y Cyfadrannau, gyda staff wedi’u lleoli o fewn pob Cyfadran yn ogystal â thimau canolog sy’n rheoli derbyniadau, sicrhau ansawdd, cofnodion ac ardystiad myfyrwyr, cofnodion cynlluniau a modiwlau, cwynion ac apeliadau, cydymffurfiaeth Fisâu a Mewnfudo y DU a darpariaeth gydweithredol. Roedd hwn yn ailstrwythuro sylweddol iawn, a'r prif fanteision oedd mwy o wytnwch a chysondeb na’r sefyllfa flaenorol o gael Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion canolog a staff cymorth gweinyddol academaidd yn gweithio i bob Athrofa. Mae gan bob Cyfadran strwythur gweinyddol tebyg ac yn cael cymorth gan aelod dynodedig o'r tîm sicrhau ansawdd a gwella.

43. Mae ein Llawlyfr Ansawdd Academaidd[52] yn darparu'r fframwaith y mae'r Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau, ac is-bwyllgorau perthnasol eraill y Senedd, yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae'n ymgorffori polisïau a phrosesau sicrhau ansawdd allweddol sydd wedi'u datblygu a'u hadolygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi ceisio dod â gwybodaeth allweddol ynghyd yn y Llawlyfr, yn ogystal â gweithdrefnau a ffurflenni a dogfennaeth gysylltiedig. Y bwriad yw rhoi ffynhonnell hygyrch i staff y Brifysgol ac adolygwyr allanol ar gyfer y polisïau, y rheoliadau a'r gweithdrefnau sy'n cefnogi rheolaeth safonau ac ansawdd academaidd yn y Brifysgol.

44. Mae'n anochel y bydd ailstrwythuro yn achosi straen, ac mae angen cyfnodau o addasu ar gyfer staff mewn rolau newydd o fewn strwythurau gwahanol, ac ar gyfer adrannau sydd â staff cymorth gwahanol o'u cwmpas. Wrth ailstrwythuro, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sut i barhau i gefnogi dysgu ac addysgu a sicrhau ansawdd, gwella a chynnal safonau academaidd. Credwn fod creu un aelod o staff y Gofrestrfa Academaidd a chydweithio agos rhwng staff gweinyddol y Gofrestrfa Academaidd a staff y Gyfadran, yn enwedig y Deoniaid Cyswllt, a chynrychiolwyr myfyrwyr, yn golygu cymorth, cyngor, a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau mwy ymatebol a chyson. Mae hefyd yn lleihau’r ddibyniaeth ar staff unigol yr adrannau i weinyddu prosesau

[51] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/

[52] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/

sicrwydd ansawdd. Mae'r Bwrdd Academaidd a'r PMACau yn gweithredu'n effeithiol gyda'i gilydd fel y pwyllgorau allweddol sy'n goruchwylio Sicrwydd Ansawdd a Gwella Ansawdd. Credwn fod ein strwythur newydd yn golygu bod y dulliau Sicrwydd Ansawdd a Gwella Ansawdd a nodir yn ein Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cael eu gweithredu'n symlach.

## Crynodeb o gamau dilynol y darparwr ar ôl yr adolygiad blaenorol

45. Cynhaliwyd ein Hadolygiad o Addysg Uwch Cymru ym mis Ebrill 2016, a chawsom yr adroddiad ym mis Awst y flwyddyn honno[53]. Argymhellwyd bod y canlynol yn digwydd, erbyn mis Medi 2016:

- sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn systematig fel partneriaid yn y broses o gymeradwyo ac adolygu rhaglenni, a gwella profiad y myfyrwyr (Disgwyliadau Cod QAA B5, B1 a B8)

- sicrhau bod ymagwedd gyson at apeliadau academaidd yn cael ei hymarfer o fewn ac ar draws athrofeydd (Disgwyliadau Cod QAA B9, B6 a C QAA)

- sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil uwchraddedig yn cael hyfforddiant priodol cyn ymgymryd ag addysgu ac asesu (Disgwyliadau Cod QAA B11, B3 a B6)

- sicrhau cysondeb yn y wybodaeth graidd a ddarperir i fyfyrwyr mewn llawlyfrau o fewn ac ar draws athrofeydd (Disgwyliadau Cod QAA C a B9).

Ac erbyn Mawrth 2017:

- atgyfnerthu a mynegi'n eglur flaenoriaethau strategol ar gyfer gwella cyfleoedd dysgu ar lefel sefydliadol (Gwella).

Paratowyd Cynllun Gweithredu[54] mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru; gweithredwyd ar hyn yn ystod 2016-17. Cwblhawyd ymateb y Brifysgol i argymhellion QAA pan gyflwynwyd y Cynllun Gwella i'r Bwrdd Academaidd ym mis Mawrth 2017.

46. Yn ogystal, roedd Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael ag argymhellion yng

---

[53] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/qaa/adolygiadaddysguwchcymru/

[54] https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/qaa/action-plan/

Nghyflwyniad Myfyrwyr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru. Cyflwynwyd diweddariad i'r Cynllun Gweithredu hwnnw hefyd i'r Bwrdd Academaidd ym mis Mawrth 2017, gan gwblhau'r camau dilynol a nodwyd yn benodol drwy ymarfer Adolygiad Addysg Uwch: Cymru (AB/1617/133 – Cynllun Gweithredu Cyflwyniad Myfyrwyr, Adolygiad Addysg Uwch: Cymru[55]).

## Cyfansoddiad, tueddiadau allweddol a newidiadau a ragwelir o ran poblogaeth myfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth am gadw, dilyniant a chanlyniadau.

47. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol a strategol i oresgyn yr heriau sydd ar y gorwel mewn perthynas â denu myfyrwyr[56]. Ar ôl dwy flynedd o effaith sylweddol pandemig Covid ar batrymau denu myfyrwyr, rydym yn obeithiol, yn erbyn y cefndir demograffig o gynnydd yn nifer y bobl ifanc 18 oed, a chyfraddau cyfranogiad mewn AU dros y 10 mlynedd nesaf, y bydd cyfraddau denu myfyrwyr israddedig yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod y gyfran sydd gan rhai meysydd pwnc yn y farchnad wedi bod yn gostwng a bod angen inni weithio i sicrhau ein bod yn gallu elwa ar y gronfa fwy o ymgeiswyr sydd ar gael. Mae'r darlun demograffig yn llai gobeithiol yng Nghymru, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn her i gynnal y gyfran o fyfyrwyr israddedig a dderbyniwn o Gymru. Mae strategaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei harwain gan y DIG perthnasol yn mynd i'r afael â hynny[57].

48. Yn hanesyddol, rydym wedi denu llai o fyfyrwyr na'r lefelau disgwyliedig mewn dau faes: Myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr Uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs. Mae ein hadran Marchnata a Denu Myfyrwyr Byd-Eang[58], a gafodd ei hailstrwythuro'n ddiweddar, yn gweithio i wella ceisiadau a denu myfyrwyr rhyngwladol, ac mae hyn eisoes wedi arwain at welliant, sydd wedi'i gymhlethu wrth gwrs gan Covid. Mae ceisiadau rhyngwladol, er enghraifft, wedi cynyddu wrth i raglenni MBA ddatblygu yn bortffolio newydd o raglenni MBA Proffesiynol[59] sy'n gydnaws â'r MBA cyffredinol, a gynlluniwyd yn benodol i fodloni gofynion ac anghenion myfyrwyr o

[55] 006 2016-2017 Datganiad Sicrwydd Ansawdd i'r Cyngor – gydag Atodiadau -Tach17

[56] 015 Pwyllgor Cynllunio Portffolio – Adolygu Cylch Ceisiadau UCAS – cynlluniau sy'n denu niferoedd isel o fyfyrwyr

[57] 016 Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023

[58] https://www.aber.ac.uk/cy/gmsr/

[59] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/mba/?from=globalnav

wahanol ranbarthau rhyngwladol.

49. Mae nifer y myfyrwyr uwchraddedig llawn amser a dderbyniwyd yn 2021 yn is na'r flwyddyn flaenorol, er bod nifer o fyfyrwyr MBA newydd i ddod ym mis Ionawr. Mae tua 10% o'n dosbarth israddedig sy'n graddio yn mynd ymlaen i ddilyn astudiaethau uwchraddedig yn PA. Bu cynnydd yn nifer y graddau Meistr Integredig sydd ar gael. Roedd y rhain wedi rhedeg ers blynyddoedd lawer mewn rhai adrannau, megis Cyfrifiadureg[60], Mathemateg[61] a Ffiseg[62], ond maent bellach ar gael yn IBERS[63] ac wedi'u hehangu mewn Cyfrifiadureg. Gyda datblygiad y benthyciad i fyfyrwyr uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs, mae gan fyfyrwyr fwy o opsiynau ar gyfer astudio ar lefel M. Rydym yn gweithio ar gynyddu'r ddarpariaeth Meistr llawn amser sydd ar gael ar y campws gan fyfyrwyr Rhyngwladol a'r DU. Mae mentrau'n cynnwys yr MBA Gweithredol a'r MMgt Gweithredol mewn fformat wyneb yn wyneb (a Dysgu o Bell hefyd) a gynigir erbyn hyn (mae'r rhain hefyd yn darparu llwybr dilyniant i fyfyrwyr Tystysgrif Uwchraddedig Menter a Busnes).

50. Bu ehangu ar ddarpariaeth uwchraddedig a ddysgir drwy gwrs ar ffurf Dysgu o Bell ac yn rhan-amser yn ystod sesiynau diweddar. Sicrhawyd cyllid ar gyfer gradd Meistr Cynhyrchu Cyfryngau Uwch[64] a chynlluniau yn IBERS[65], a chynigiwyd dilyniant doethuriaeth proffesiynol o fewn cynlluniau MRes IBERS. Mae'r cynlluniau hyn yn ychwanegu at y ddarpariaeth sydd wedi'i hen sefydlu mewn Astudiaethau Gwybodaeth[66] a'r Gyfraith a Throseddeg[67]. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau bod darpariaeth ar gael i weithwyr proffesiynol sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru a thu hwnt. Yn yr un modd, mae ein cwrs MA Addysg (Cymru)[68] rhan-amser yn sicrhau bod darpariaeth uwchraddedig ar gael i weithwyr addysgu proffesiynol yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu dichonoldeb ehangu ein darpariaeth Dysgu o Bell.

---

60 https://www.aber.ac.uk/cy/cs/study-with-us/ug/

61 https://www.aber.ac.uk/cy/maths/study-with-us/undergrad/

62 https://www.aber.ac.uk/cy/phys/study-with-us/undergrad/

63 https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/study-with-us/ug-study/

64 https://cyrsiau.aber.ac.uk/postgraduate/advanced-media-production/

65 https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/study-with-us/ibers-pg-study/

66 https://www.aber.ac.uk/cy/dis/courses/

67 https://www.aber.ac.uk/cy/lac/studywithus/postgraduatestudy/

68 https://www.aber.ac.uk/cy/lac/studywithus/postgraduatestudy/

51. Mae cyfraddau cadw myfyrwyr wedi bod yn well na'r meincnodau bob amser, sy'n arwydd o'r gofal a roddir i'n myfyrwyr. O safbwynt data ymadael, rydym yn canolbwyntio ar unrhyw gynnydd yng nghyfraddau meysydd pwnc a allai achosi pryder. Mae achosion o ymadael yn cael eu cofnodi a'u monitro a gellir eu gweld ar ein dangosfyrddau PowerBI. Byddai'r Swyddfa Gynllunio yn tynnu sylw'r DIP at y rhain er mwyn gweithredu arnynt.

52. Rydym wedi cael llwyddiant o ehangu cyrsiau gyda blwyddyn Sylfaen[69]. Mae ystod eang o gyrsiau ar draws y Brifysgol wedi ymuno â chynlluniau hirsefydlog mewn Ffiseg a Gwyddorau Bywyd, yn enwedig dros y tair blynedd diwethaf. Mae tua 200 o fyfyrwyr wedi ymuno â'r cynlluniau hyn bob blwyddyn dros yr ychydig sesiynau diwethaf. Mae cynlluniau o'r fath yn galluogi ystod o fyfyrwyr i ymuno ag AU, gan gynnwys ymgeiswyr aeddfed, ymgeiswyr sy'n dymuno newid i bwnc gwahanol i'r un a astudiwyd yn flaenorol, a'r rhai sy'n gweld astudio mewn prifysgol yn opsiwn astudio mwy deniadol nag ail-astudio yn yr ysgol neu AB. Gall cyfraddau ail-flwyddyn fod yn uwch nag ar gyfer blynyddoedd astudio eraill, sef tua 10%, ond mae'r rhaglenni hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu cyfleoedd dysgu. Mae'r Swyddfa Gynllunio ac IBERS ar hyn o bryd yn ymchwilio i lwyddiant ymgeiswyr Gwyddorau Bywyd.

53. Nid ydym wedi datblygu unrhyw brentisiaethau gradd ond rydym yn barod iawn i wneud hynny ac rydym wedi bod yn lobïo CCAUC a Llywodraeth Cymru i gefnogi rhaglenni a fyddai'n berthnasol i'n lleoliad yng nghanolbarth Cymru, yn enwedig Amaethyddiaeth.

54. Mae cyflwyno'r radd Filfeddygol[70] ar y cyd gyda'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, a drafodir mewn man arall, ochr yn ochr â chynlluniau graddau cysylltiedig mewn biowyddorau milfeddygol, wedi bod yn ddatblygiad allweddol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, o ystyried absenoldeb Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru. Yn yr un modd, bwriad cynnig cymwysterau nyrsio[71] am y tro cyntaf, i nyrsys oedolion ac iechyd meddwl, o fis Medi 2022, yw cefnogi anghenion rhanbarthol a chymunedol a'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig yn y canolbarth. Bydd myfyrwyr yn cael astudio hyd at hanner eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Ein huchelgais yw datblygu'r maes hwn ymhellach yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Datblygwyd y ddarpariaeth hon mewn cydweithrediad â phartneriaid gan gynnwys byrddau iechyd lleol Hywel Dda, Betsi Cadwaladr a Phowys yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr (gweler tystiolaeth 598 i 608 pecyn gwybodaeth blaenorol am wybodaeth am ddatblygiadau Gwyddor

[69] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/foundation-year/

[70] https://www.aber.ac.uk/cy/vet-sci/

[71] https://www.aber.ac.uk/cy/hec/courses/

Filfeddygol a Nyrsio).

55. O ran canlyniadau gradd, mae gennym gyfran is o anrhydeddau da na phrifysgolion tebyg eraill ac felly nid ydym wedi gweld chwyddiant graddau, ac er bod cynnydd wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy’n graddio gydag anrhydeddau da yn 2020 a 2021 o ganlyniad i fesurau Covid, fel y disgrifir yn ddiweddarach yn y datganiad ar ganlyniadau graddau, mae hyn yn llai nag a welir mewn mannau eraill yn y sector[72].

## Sylwebaeth ar sut mae’r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

56. Cenhadaeth y Brifysgol yw darparu addysg ac ymchwil ysbrydoledig mewn amgylchedd cefnogol, creadigol ac arbennig yng Nghymru. Mae ein Cynllun Strategol ar gyfer 2018-23 (https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/strategic-plan/), a luniwyd mewn ymgynghoriad â staff a myfyrwyr, yn nodi ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a’n safonau uchel. Dylai ein holl benderfyniadau gael eu llywio gan y strategaeth, a cheir mwy o fanylion mewn is-strategaethau.

57. Mae'r Cynllun Strategol yn amlinellu'r dulliau amrywiol a ddefnyddiwn i geisio cefnogi amcanion cenedlaethol, yr heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd yn yr 21ain ganrif. Mewn ymchwil, rydym yn ceisio hybu’r amgylchedd diwylliannol yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig, cefnogi arloesedd mewn diwydiant a pholisi cyhoeddus, a chyfrannu at dwf ein heconomi yn lleol ac yn ehangach. Mae'r Cynllun hefyd yn gosod amcanion sy’n ymwneud â’n cenhadaeth ddinesig, megis trawsnewid yr Hen Goleg yn gyfleuster rhagorol i'r Brifysgol, y gymuned ac ymwelwyr.

58. Mae llawer o’n rhaglenni gradd a ddisgrifir mewn man arall, yn cefnogi nodau Llywodraeth Cymru, megis cyrsiau’r Ysgol Filfeddygaeth a chyrsiau Nyrsio diweddar, Cynhyrchu Cyfryngau Uwch (enghraifft o’r cynllun a dogfennaeth gymeradwyo[73] [74] [75]) a chyrsiau Dysgu o Bell IBERS ar gyfer gweithwyr amaethyddol proffesiynol, a’r Rhaglen MA Addysg (Cymru). Anelir y rhaglenni hyn i raddau helaeth at ddarparu cyfleoedd i bobl yng Nghymru ddatblygu eu sgiliau a’u gallu i gyfrannu at economi Cymru. Maent yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn belled ag y

[72] 014 Datganiad ar Ganlyniadau Graddau 2019-2020

[73] 017 Cofnodion y Panel Cymeradwyo Cynlluniau Sefydlog- MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

[74] 018 Ymateb i’r Panel Cymeradwyo Cynlluniau - MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

[75] 019 Ffurflen Cynnig am Gynllun Newydd neu Gynllun a Ad-drefnwyd - MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

bo modd (Cynnig cynllun Nyrsio SDF1.2 Effaith iaith adran 3[76]).

59. Mae ymrwymiad i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn ganolog i'n gweithgaredd. Mae gennym hanes hir o gyflwyno addysg ac ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn parhau i hyrwyddo datblygiad darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg[77] [78]. Mae ail-agor Neuadd Pantycelyn yn ddiweddar fel llety ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a dysgwyr yn cefnogi hyn ac rydym yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol[79] ar bob lefel hyd at astudiaeth ddoethurol. Rydym yn annog dwyieithrwydd ac yn cefnogi staff a myfyrwyr i ddysgu Cymraeg. Yn fwy cyffredinol, rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar strategaeth newydd ar gyfer datblygu addysgu a dysgu, ymchwil, ac addysg staff a myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ymateb yn rhagweithiol i orchmynion cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg megis cynwysoldeb ac effeithlonrwydd, ac mae'n canoli Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd o fewn prif ffrwd darpariaeth a gweithgaredd Cymraeg ar draws y Brifysgol ac yn ymestyn allan mewn ffordd newydd ar yr un pryd at ystod ehangach o siaradwyr Cymraeg a Phrofiadau Cymraeg ymhlith staff a myfyrwyr. Mae hefyd yn sôn am y nod o gynyddu amlygrwydd, adnabyddiaeth ac effaith ymchwil a wneir yn y Gymraeg yn PA ac mewn meysydd diddordeb Cymreig.

60. Yn 2020, mewn ymateb i effaith y pandemig Covid, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol ar gyfer prifysgolion, gan gynnwys £27 miliwn ar gyfer Cronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch i Gymru[80]. Roedd angen i geisiadau am arian gwrdd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Arweiniodd PA un cais, sef *Cefnogi sylfaen ymchwil Cymru yn ystod COVID*. Roedd hon yn fenter Cymru gyfan, ac yn cefnogi myfyrwyr ymchwil, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a gweithgareddau ymchwil yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig trwy estyniadau wedi eu hariannu. Fodd bynnag, mae cydweithredu parhaus rhwng y partneriaid hefyd yn anelu at gryfhau cymorth a hyfforddiant ar gyfer arolygwyr myfyrwyr ymchwil, hyfforddiant i fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig a chymorth lles.

61. Prosiect arall a arweinir gan PA, mewn cydweithrediad gyda Bangor ac Abertawe, yw Cartref a

---

[76] 020 Ffurflen Datblygu Cynllun – Cynnig Cynllun - BSc Nyrsio Oedolion

[77] https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/

[78] 021 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.2 para 27 Polisi a Gweithdrefn Asesu – Polisi a gweithdrefnau dwyieithog

[79] https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/learning-teaching/

[80] https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2021/03/W21-08HE-Annex-A-IRF-Summary-of-Collaborative-Bids.pdf

Chynefin[81]. Bydd y prosiect hwn yn ymgysylltu ag Undebau Myfyrwyr a sefydliadau cymunedol i annog myfyrwyr a sefydliadau cymunedol i gydweithio, a datblygu cenhadaeth ddinesig y tri sefydliad. Gwnaeth Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru gais llwyddiannus am brosiect sy'n cynnwys pob darparwr addysg uwch yng Nghymru, ynghyd ag Undebau'r Myfyrwyr, UCM Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a QAA, yn canolbwyntio ar gefnogaeth i addysg ddigidol cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod a thu hwnt i gyd-destun presennol Covid. Yn olaf, mae prosiect Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru, a arweinir gan Brifysgol Abertawe, ar Gwmpasu Darpariaeth ar y Cyd ar gyfer Disgyblaethau Bregus yn brosiect Cymru gyfan i nodi a chefnogi disgyblaethau bregus mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Bydd y prosiect hefyd yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau bod pynciau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu diogelu.

## Sylwebaeth ar y paratoadau ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys sut gweithiodd y darparwr a'r myfyrwyr mewn partneriaeth wrth baratoi at yr adolygiad

62. Ffurfiwyd gweithgor i roi adborth ar faterion sy'n debygol o godi yn ystod yr adolygiad, ac i oruchwylio'r gwaith o gynhyrchu'r ddogfennaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr adolygiad a'r paratoadau ar gyfer yr ymweliad adolygu ei hun (Nodiadau Adolygiad Gwella Ansawdd WP wedi'u cynnwys yn y dystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 620). Roedd y gweithgor hefyd yn cael ei hysbysu am ryngweithiadau eraill gyda QAA megis yr adolygiad Dysgu Digidol[82] [83] a phrosiectau gwella cydweithredol. Cadeiriwyd y grŵp gan y Cofrestrydd Academaidd gyda'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu ac Addysgu yn bresennol, ac roedd yn cynnwys Deoniaid Cyswllt ar gyfer Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, nifer o benaethiaid adrannau academaidd o'r Cyfadrannau yn ogystal â staff y Gofrestrfa Academaidd â chyfrifoldebau sicrhau ansawdd, staff o'r Uned Gwella Dysgu ac Addysgu, y Swyddfa Gynllunio a Chymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd. Roedd cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr hefyd yn rhan allweddol o'r grŵp.

63. Mae pandemig Covid wedi arwain at gynnal adolygiad llai, sy'n canolbwyntio ar elfen sicrwydd ansawdd a safonau'r Adolygiad Gwella Ansawdd. Roedd y Brifysgol yn siomedig na fyddai gwelliant yn cael lle mor amlwg gan fod cymaint o ddatblygiadau gwella cadarnhaol wedi eu rhoi ar waith ers 2016, ond roedd y dull yn ddealladwy o dan yr amgylchiadau ac o ystyried y

[81] https://www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/cartref-chynefin-home-and-hinterland

[82] 023 Cyflwyniad PA i Adolygiad o Ddysgu Digidol QAA Mehefin 21

[83] 024 QAA Adroddiad Adolygiad o Ddysgu Digidol Mehefin 21

pwysau ar yr holl staff. Roedd hyn yn gofyn am gynhyrchu atodiad i'r llawlyfr Adolygiad Gwella Ansawdd. Cynhaliodd QAA gyfarfodydd briffio i drafod cwmpas yr adolygiad a'r gofynion o ran dogfennaeth, gyda hyblygrwydd i'r Brifysgol gyflwyno'r deunydd y gofynnwyd amdano mewn fformat y credai oedd yn ei alluogi i gyflwyno'r dystiolaeth a'r wybodaeth berthnasol yn y ffordd orau. Cawsom ein hannog i leihau'r baich ar bawb dan sylw drwy gadw'r cyflwyniad mor fyr â phosib; er bod hyn yn cael ei groesawu mewn egwyddor, mewn termau ymarferol y mae bob amser yn anodd penderfynu beth fydd ei angen ar y tîm adolygu a chydbwyso cyflwyniad byrrach â'r awydd i osgoi ceisiadau am ddogfennaeth ychwanegol yn ddiweddarach.

64. Yn ystod y paratoadau, dechreuodd CCAUC ei ymgynghoriad ar y fethodoleg ar gyfer y cylch adolygu nesaf. Mae'n bosib y gallai'r cynigion ar gyfer dogfennaeth lai pwrpasol a mwy o ddibyniaeth ar adroddiadau a baratoir yn flynyddol fel rhan o gyfundrefn Sicrhau Ansawdd a Gwella'r Brifysgol, fod yn ddull gwell o weithredu. Byddai'n cynyddu'r baich i ryw raddau rhwng adolygiadau ond byddai hynny'n cael ei ymgorffori o fewn gweithgarwch arferol a all fwydo i brosesau sefydledig.

65. Teimlai'r Gweithgor mai un ddogfen yn cynnwys yr amrywiol elfennau y gofynnwyd amdanynt oedd yn gwneud y mwyaf o synnwyr yng nghyd-destun adolygiad llai. Adolygwyd dogfennaeth ddrafft gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol, y Gweithgor ac aelodau'r Bwrdd Academaidd ac fe'i cyflwynwyd i gyfarfod arbennig o'r Senedd cyn ei chwblhau. Ystyriodd UM yr opsiynau ar gyfer ei gyflwyniad ei hun a phenderfynodd wneud hon yn ddogfen ysgrifenedig draddodiadol, gan gyflwyno nifer o argymhellion i'r Brifysgol a'r tîm Adolygiad Gwella Ansawdd. Cyfrannodd pwysau Covid at yr awydd i gymryd y dull symlaf. Mae gan y Brifysgol berthynas agos, gadarnhaol ag Undeb y Myfyrwyr, gydag ymgysylltiad rheolaidd a chydweithio agos ar sicrwydd a gwelliant; roedd hyn wedi bod yn arbennig o wir yn ystod y pandemig. Mae cydweithio ar yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn barhad o'r berthynas agored ac adeiladol honno.

## Safonau academaidd a phrosesau ansawdd

66. Mae PA yn ymgysylltu â'i Hundeb Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr ehangach drwy gydol y flwyddyn mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol[84] [85]. Anogir pob myfyriwr i roi adborth ar eu profiadau a chyfrannu syniadau ac awgrymiadau i helpu i lywio eu haddysg. Mae ein Cynllun Strategol 2018-23 yn ymrwymo i 'wella profiad myfyrwyr ymhellach mewn

[84] 025 Cofnodion Pwyllgor Profiad Myfyrwyr – Ion 21

[85] 026 Papur Undeb y Myfyrwyr ar Gynrychiolaeth Myfyrwyr i Bwyllgor Profiad Myfyrwyr -Ion21

partneriaeth agos ag Undeb y Myfyrwyr, gan roi llais y myfyrwyr wrth galon ein gweithgaredd.' Rydym yn cynnal egwyddor graidd *Datganiad Wise Cymru ar Bartneriaeth ar gyfer Addysg Uwch (2014) 'y dylai myfyrwyr fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, yn hytrach na derbynwyr gwybodaeth goddefol'*.

67. Mae'r Siarter Myfyrwyr[86], sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol, yn crynhoi pwysigrwydd cynrychiolaeth effeithiol i fyfyrwyr, gydag ymrwymiad i gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr fel partneriaid llawn yn ein pwyllgorau a'n strwythurau.

68. Yn ogystal, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn llofnodi Cytundeb Perthynas[87], yn seiliedig ar ddeg egwyddor y cytunwyd arnynt. Mae Egwyddor 4 yn nodi bod 'PA yn cydnabod mai UMAber yw prif lais myfyrwyr a bydd yn sicrhau yr ymgynghorir ag UMAber yn amserol cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fyfyrwyr'. Mae gwreiddio llais y myfyrwyr yn ein prosesau llywodraethu yn fodd i sicrhau bod y Brifysgol yn cadw at yr egwyddor hon.

69. Ar y lefel uchaf, cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd rhwng swyddogion Gweithrediaeth y Brifysgol a swyddogion Undeb y Myfyrwyr. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i Undeb y Myfyrwyr sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed gan uwch reolwyr a sicrhau bod cydweithio agos ar faterion sy'n cyfrannu at lwyddiant myfyrwyr. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn rhwng y ddwy weithrediaeth, cynhelir cyfarfodydd anffurfiol aml rhwng yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu ac Addysgu, a Llywydd a swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

70. O fewn strwythur ffurfiol y Brifysgol, mae cynrychiolwyr myfyrwyr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr ar y rhan fwyaf o'n prif bwyllgorau, gan gynnwys:

    a. Y Cyngor a'i is-bwyllgorau

    b. Y Senedd a'i is-bwyllgorau

    c. Y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau

    d. Cynrychiolwyr lefel cyfadran sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar elfennau allweddol o sicrhau ansawdd (gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau astudio newydd a'u monitro a'u hadolygu'n flynyddol)

    e. Cynrychiolwyr academaidd adrannol sy'n cymryd rhan yn y Pwyllgorau Staff:Myfyrwyr

[86] https://www.aber.ac.uk/cy/student/charter/

[87] 027 Cytundeb Perthynas UMAber-PA 2021-07-27

Ymgynghorol, lle gellir codi pryderon myfyrwyr a mynd i'r afael â hwy mewn trafodaeth â staff yr adran (enghraifft o ystyriaeth Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol o gofnodion ac adborth Pwyllgorau Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr[88] [89] [90]). Mae gwaith y cynrychiolwyr academaidd yn rhan bwysig o waith Undeb y Myfyrwyr i sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed yn llwyr

f. Mae cynrychiolwyr academaidd yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer eu rôl gan Undeb y Myfyrwyr. Maent yn gyfrifol am gynrychioli myfyrwyr ar lefel cwrs, grŵp blwyddyn neu faes pwnc, neu gallant fod yn gyfrifol am gynrychioli carfannau penodol megis myfyrwyr Cydanrhydedd neu fyfyrwyr hŷn.

g. Strategaeth Dysgu ac Addysgu: Gweithredir y Strategaeth Dysgu ac Addysgu trwy amrywiol feysydd gwaith. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ar y grwpiau cyflwyno ym mhob maes.

71. Mae cynnwys myfyrwyr yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd wedi'i sefydlu trwy gydol y flwyddyn ac mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn cael ei blethu trwy gyfansoddiad y strwythur pwyllgorau. Mae myfyrwyr sy'n cynrychioli'r pwnc a'r Gyfadran trwy broses etholiadol a redir gan Undeb y Myfyrwyr, yn weithgar mewn pwyllgorau ymgynghorol rhwng staff a myfyrwyr ar lefel adrannol a Chyfadran ac yn eistedd fel aelodau llawn ar bob panel cymeradwyo cynllun ac adolygu cyfnodol. Mae swyddogion sabothol yn eistedd ar bwyllgorau'r Brifysgol, paneli archwilio'r Cyfadrannau ac adrannau ac mae ganddynt gysylltiad agos â rhoi cynlluniau gweithredu ar waith, trwy weithgorau, yn ogystal â bwydo i brosesau perthnasol wrth iddynt gael eu datblygu.

## Dull o ddefnyddio data i lywio penderfyniadau a gwerthuso.

72. Nododd adroddiad Aelodaeth QAA Chwefror 2021 *Using Data to Enhance Outcomes* fod 'y syniad o ddiwylliant sy'n cael ei arwain gan ddata yn gadarnhaol, ond fod darparwyr ar wahanol gamau ar y daith ddata'. Nodwyd tri chategori cyffredinol: *archwilwyr*, sy'n dechrau archwilio sut i ddefnyddio data yn effeithiol; *arbrofwyr* sy'n yn gweithredu ffyrdd newydd o weithio gyda

[88] 028 Adran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Crynodeb Cofnodion Pwyllgor Ymgynghori Staff Myfyrwyr -Ion21.docx

[89] 029 Adran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol Adroddiad Adborth Myfyrwyr gan UMAber Medi 1-2020-2021

[90] 030 Adran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol detholiad o gofnod ar Gynrychiolaeth Myfyrwyr - Ion21

data ac yn buddsoddi mewn gwelliannau; ac *arloeswyr*, sy'n arwain y gwaith o fanteisio ar botensial llawn data, gan fuddsoddi mewn dulliau arloesol. Byddem yn ystyried ein hunain yn *arbrofwyr* yn PA. Defnyddiwn ddata mewn amrywiaeth o fformatau a chyd-destunau i gynnig sicrwydd a gwelliant (enghreifftiau yn dangos data a dderbyniwyd mewn fformatau gwahanol ac a ystyriwyd mewn pwyllgorau[91] [92] [93] [94] [95] [96] [97] [98] [99] [100]). Adolygwyd y rhain yn ddiweddar gan ein Bwrdd Academaidd. Mae'r staff wedi dod i arfer gyda'r defnydd hwn ac mae mentrau eraill ar y gweill, fel mentrau y cyfeirir atynt o dan Ehangu Cyfranogiad i gael data ar wahanol gategorïau o fyfyrwyr wrth iddynt symud trwy eu cyrsiau ac ymlaen i gyflogaeth. Mae data'n cael ei ddefnyddio'n eang ac, er nad oes gennym ni weithgareddau datblygu staff cynhwysfawr nac un cynllun strategol ar gyfer defnyddio data, mae eisoes wedi'i ymgorffori mewn llawer o weithgareddau.

73. Ers peth amser, rydym wedi diddori ym mhotensial defnyddio data i ysgogi gwelliant ac i sicrhau ansawdd, ac rydym yn gwneud hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddeg dysgu, ac rydym wedi bod yn rhan o ddatblygiad JISC, a gefnogir gan CCAUC, o wasanaeth dadansoddeg dysgu i holl brifysgolion Cymru gan ddechrau yn 2018, sef Dadansoddi Dysgu Cymru. Mae hyn yn golygu defnyddio data megis cofnodion presenoldeb, amgylchedd dysgu rhithiol, defnydd o recordiadau darlithoedd y Llyfrgell a Panopto i fesur perfformiad ac ymgysylltiad. Yn ddiweddar, mae CCAUC wedi cyhoeddi blwyddyn arall o gyllid, yng ngoleuni heriau'r pandemig, er mwyn adeiladu ar y cam cyntaf a gwella cymorth i fyfyrwyr ymhellach.

---

[91] 031 Pwyllgor Gwella Academaidd – Dadansoddiad HGM Ysgafn-Data Meintiol Terfynol-Sem2-2021

[92] 032 Pwyllgor Gwella Academaidd - Dadansoddiad HGM Ysgafn-Data Ansoddol Terfynol -Sem 2-2021

[93] 033 Pwyllgor Gwella Academaidd Cofnodion -Cyfarfod Llais y Myfyrwyr-01-06-2021

[94] 035 Pwyllgor Gwella Academaidd data Arolwg wythnos Ymgartrefu-Dwyieithog-2021

[95] 036 Pwyllgor Gwella Academaidd – Data ansoddol HGM – Data Terfynol-Sem 2-2021

[96] 037 Pwyllgor Gwella Academaidd - Data meintiol HGM – Data Terfynol -Sem 2-2021

[97] 038 Pwyllgor Gwella Academaidd -Modelu trydydd ton SARS-COV-2 -04-2021

[98] 039 Pwyllgor Gwella Academaidd Cofnodion-04-05-2021

[99] 040 Pwyllgor Materion Academaidd Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd -Adroddiad Graddau Anrhydedd Da-19-05-21

[100] 041 Adroddiad y Bwrdd Academaidd-Defnyddio Data-03-11-21

74. Trwy ein system Aladdin a ddatblygwyd yn fewnol, mae tiwtoriaid personol yn gallu gweld ystod o ddata am eu myfyrwyr personol mewn fformatau amrywiol, er mwyn llywio cyfarfodydd chadw llygad ar gynnydd mewn ffordd rwydd. Mae modd cofnodi nodiadau cyfarfodydd. Mae data presenoldeb, marciau, a'r defnydd o adnoddau dysgu'r Brifysgol yn weladwy, a gellir creu rhestr wylio o fyfyrwyr y mae'r tiwtor yn dymuno eu monitro'n agos (tystiolaeth gan Grŵp Defnyddwyr AStRA – trafodaeth ar fonitro presenoldeb a fersiwn newydd o Aladdin[101]).

## Monitro Canlyniadau/ Cyfraddau Cadw myfyrwyr a data dilyniant

75. Mae data am fyfyrwyr sy'n ymadael yn cael eu monitro'n fisol, rhwng mis Medi a mis Mai, ac mae dangosfwrdd sy'n dangos niferoedd, canrannau a data arall am nifer o flynyddoedd ac y gellir ei hidlo fesul adran a chwrs ar gael i bob adran academaidd ac uwch aelodau staff ar ddangosfwrdd PowerBi. Gofynnir i adrannau unigol, sy'n dangos cynnydd sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ystyried y rhesymau dros hyn ac, os yw'n briodol, cynnig camau i adfer y sefyllfa.

76. Rhoddir gwybod i'r Is-Ganghellor am niferoedd a chanran y gwahanol ganlyniadau graddau drwy'r ffurflen Sicrwydd Datganiadau Statudol ar ôl cwblhau adroddiad data myfyrwyr blynyddol HESA ym mis Tachwedd. Mae canlyniadau graddau hefyd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Academaidd a'u trafod ganddo bob blwyddyn, gyda dadansoddiadau yn ôl rhyw, anabledd, ethnigrwydd a thariffau mynediad[102] [103].

77. Ategir proses Fonitro Blynyddol y Cynlluniau Israddedig a Ddysgir trwy gwrs gan ddata ar gyfer pob teulu o gyrsiau gan gynnwys canlyniadau gradd, canlyniadau modiwlau a myfyrwyr sy'n ymadael[104].

78. Mae'r DPAau Prifysgolion sy'n cael eu diweddaru'n chwarterol yn cynnwys y dangosydd perfformiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan HESA ar gyfer parhad myfyrwyr. Mae'r DPAau yn cael eu hadrodd i'r Weithrediaeth ac i'r Cyngor.

79. Adroddir ar berfformiad tablau cynghrair i adrannau ac o Weithrediaeth y Brifysgol ar adeg

[101] 042 Pwyllgor Gwella Academaidd-Cofnodion Grŵp Defnyddwyr AStRA-18-08-2020

[102] 043 Bwrdd Academaidd – Dosbarth Graddau 19-20 a Thablau Graddau Anrhydedd Da-Medi20

[103] 044 Cofnodion y Bwrdd Academaidd - Detholiad – Anrhydeddau Da – Tach 20

[104] 045 Monitro Blynyddol – Enghraifft o becyn data AMTS - Cyfrifiadureg

cyhoeddi'r tri phrif dabl yn y DU. Mae pob un yn mesur canlyniadau gradd a pharhad myfyrwyr y gellir eu gweld mewn perthynas â gweddill sector y Deyrnas Unedig.

80. Cesglir data cyflogadwyedd yn genedlaethol o'r arolwg Deilliannau Graddedigion newydd 15 mis ar ôl graddio. Mae'r data hwn yn cael ei ddadansoddi gan yr Adran Gynllunio ac yn cael ei ddarparu drwy Adroddiadau’r Pwyllgor Gweithredol[105], Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs ac adroddiadau lefel adrannol. Yn ogystal, mae rhaglen yn cael ei dilyn i gadw’r manylion cyswllt diweddaraf am raddedigion er mwyn sicrhau bod dilyniant i gyflogaeth yn cael ei fonitro a bod yr Adran Datblygu a Chysylltiadau Alumni a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gallu darparu cymorth a newyddion i raddedigion.

## Asesu ceisiadau a throsi

81. Caiff ceisiadau eu monitro'n ddyddiol a'u hadrodd yn fisol i Weithrediaeth y Brifysgol ac yn chwarterol i'r Cyngor[106] [107]. Mae nifer o ddangosfyrddau ‘amser real’ ar gael i adrannau academaidd sy'n dangos y newid mewn ceisiadau drwy gydol y cylchdro.

82. Mae adroddiadau rheolaidd[108] [109] hefyd yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr sydd hefyd yn derbyn targedau ar gyfer denu myfyrwyr ac yn cymeradwyo'r safonau mynediad cyhoeddedig.

## Amrywiaeth

83. Gan weithio gydag Adnoddau Dynol, mae'r Adran Gynllunio wedi cynhyrchu dangosfyrddau amrywiaeth myfyrwyr ar gyfer pob adran academaidd. Mae hyn yn caniatáu cwestiynu data ynghylch amrywiaeth myfyrwyr ac unrhyw fylchau dyfarnu amlwg neu gyfraddau ymadael gwahaniaethol.

84. Mae'r Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs hefyd yn darparu data demograffig sy'n cwmpasu, er enghraifft, ethnigrwydd ac anabledd ar lefel cwrs (gweler Tudalen 5 Pecyn

[105] 187 Adroddiad y Pwyllgor Gweithredol ar Ganlyniadau Graddedigion Mehefin 2020

[106] 046 Adroddiad Denu Myfyrwyr i’r Weithrediaeth Ion 2022

[107] 047 Adroddiad yr Is-Ganghellor i’r Cyngor Tach 2021

[108] 048 Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr 2021 030 Diweddariad ar Ddenu Myfyrwyr 01 Chwef 2021

[109] 049 Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr 2021 051 Cais, Clawr Adroddiad ac Adroddiad Mai 2021

Data Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs Cyfrifiadureg[110]).

## Profiad Myfyrwyr

85. Cesglir data o fodiwlau a addysgir bob semester trwy'r Holiadur Gwerthuso Modiwlau[111] (HGM). Mae hyn yn caniatáu i'r themâu a geir yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr gael eu gwerthuso hefyd a chymryd camau unioni lle bo'n briodol [112] [113] [114].

86. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal proses 'Rho Wybod Nawr'[115] i adael i fyfyrwyr gyflwyno pryderon am unrhyw bynciau y gweithredir arnynt lle bo'n briodol, ac yr ymatebir iddynt bob amser o fewn pum diwrnod gwaith.

87. Mae'r Adran Gynllunio yn cynnal prosiect blynyddol i hyrwyddo'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau cyfradd ymateb mor uchel â phosib. Defnyddir canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ochr yn ochr â'r HGM i alluogi adrannau i gynhyrchu cynlluniau gweithredu i wella darpariaeth academaidd. Mae'r data'n cael ei ddadansoddi a'i ddarparu i adrannau ac adroddir ar y canlyniadau cyffredinol i'r Pwyllgor Gwaith, y Cyngor a'r UM.

## Argaeledd a dosbarthiad data

88. Mae'r Adran Gynllunio yn darparu data a dadansoddiadau ar gyfer amserlenni adrodd blynyddol[116] ac ar gyfer ceisiadau ad hoc (enghraifft o gynnig cynllun dadansoddi data BSc Nyrsio Milfeddygol[117]). Yn ogystal, dilynir rhaglen o gynhyrchu dangosfwrdd i ddarparu mynediad parod i setiau data mawr, a chedwir tua 200 o drwyddedau meddalwedd dangosfwrdd fel bod

[110] 045 Monitro Blynyddol – Enghraifft pecyn data AMTS - Cyfrifiadureg

[111] https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/survey/

[112] 050 Pwyllgor Gwella Academaidd Cofnodion-15-10-2020

[113] 051 Pwyllgor Gwella Academaidd Cofnodion Dadansoddiad HGM Terfynol, Dadansoddiad Adrannol_Sem1a 2 19_20

[114] 052 Pwyllgor Gwella Academaidd Cofnodion Data Ansoddol Terfynol HGM, dadansoddiad Semester 2 _set data ymarferol 19_20

[115] https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/tell-us-now/

[116] 053 Tystiolaeth o Adroddiadau Blynyddol – PCP – Crynodeb o'r portffolio

[117] 054 Tystiolaeth o Ddadansoddi Data - PCP – Cynnig Cynllun - BSc Nyrsio Milfeddygol

mynediad at ddata yn cael ei reoli a'i fod ar gael i'r holl staff priodol.

89. Mae meysydd eraill lle mae data'n cael ei gasglu a'i fonitro'n systematig – gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd yn flynyddol[118], yn cynnwys:

a. Apeliadau[119]

b. Cwynion

c. Adolygiadau terfynol

d. Adroddiadau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol[120]

e. Camymddygiad Academaidd (Ymddygiad Academaidd Annerbyniol)[121]

f. Disgyblaeth[122]

g. Addasrwydd i fynychu[123]

## Data Uwchraddedig

90. Mae data myfyrwyr uwchraddedig ar gael yn y setiau data uchod, lle bo'n berthnasol. Yn ddiweddar, rydym wedi trafod ymgorffori canlyniadau cynlluniau uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs yn fwy ffurfiol yn y Pwyllgor Graddau Ymchwil sy'n derbyn adroddiadau blynyddol ar gyflwyniadau PhD llawn amser gan gynnwys nifer yr estyniadau a ganiateir, a ddefnyddir i fonitro cyfraddau cyflwyno o fewn pedair blynedd neu o fewn estyniadau cymeradwy[124].

91. Cymerodd PA ran yn arolygon PRES a PTES tan 2020, pan benderfynwyd peidio â bwrw ymlaen gan fod y cyfnod clo wedi dechrau cyn i'r arolygon gael eu lansio ac ni theimlwyd y byddai'r

[118] 055 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd Academaidd – Tystiolaeth o Fonitro Systematig 25-02-21

[119] 056 Adroddiad i'r Bwrdd Academaidd – Cwynion, Apeliadau ac Adolygiadau Terfynol 2019-2020

[120] 057 Adroddiad i'r Bwrdd Academaidd – Gwybodaeth Achos PA – Datganiad SDA-01-2021

[121] 058 Adroddiad i'r Bwrdd Academaidd – Adroddiad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol -2019-2020

[122] 059 Adroddiad i'r Bwrdd Academaidd – Adroddiad Disgyblu Myfyrwyr-interim 2020-2021

[123] 060 Adroddiad i'r Bwrdd Academaidd – Adroddiad ar Addasrwydd I Fynychu -06-2021

[124] 061 Cofnodion Pwyllgor Graddau Ymchwil-05-2021

cyfraddau ymateb (nad oeddent wedi bod yn uchel yn hanesyddol) yn arwain at ganlyniadau ystyrlon. Yn yr un modd, ni chymerodd PA ran yn 2021 ond mae’n debygol o gynnal y ddau arolwg eto yn 2022.

## Effeithiolrwydd trefniadau sicrhau safonau academaidd.

92. Mae cymwysterau prifysgol yn gyson â'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch, datganiadau nodweddion gradd a meincnodau pwnc, ac felly â Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Pan dderbynnir gwybodaeth wedi’i diweddaru, megis y canllawiau ar nodweddion cynlluniau Meistr yn 2015-16, caiff ei hadolygu gan y pwyllgorau perthnasol i wirio bod dyfarniadau PA yn gyson â disgwyliadau’r sector. Adolygwyd cynlluniau astudio israddedig a rhai uwchraddedig perthnasol a ddysgir trwy gwrs yn erbyn Datganiadau Meincnodi Pwnc y QAA fel rhan o'n cyflwyniad i Fanylebau Rhaglen (gweler cwestiwn templed manyleb rhaglen 8[125]) a gofynnir i adrannau gadarnhau eu bod yn aros yn gyson pan gaiff y Datganiadau Meincnodi Pwnc eu hadolygu. Mae angen cwblhau Manyleb Rhaglen gyda chyfeiriad penodol at y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol ar gyfer pob cynnig am gynlluniau astudio newydd neu gynlluniau wedi'u hailstrwythuro.

93. Ar lefel modiwl, sefydlir canlyniadau dysgu ar y cam cymeradwyo ac maent yn gysylltiedig â dulliau asesu penodol[126] [127]. Mae'r broses cymeradwyo modiwlau yn gwirio bod asesu'n briodol i brofi cyflawniad canlyniadau dysgu, a bod y canlyniadau dysgu eu hunain mewn fformat addas y gellir eu profi. Dylai asesu fod yn briodol i'r lefel astudio, a dylai gyd-fynd â'r arweiniad ar faint o asesu sydd wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae meini prawf asesu ar gyfer pob math o asesu a ddefnyddir mewn modiwlau.

94. Mae'r meini prawf ar gyfer ein holl ddyfarniadau yn seiliedig ar Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch y QAA. Gofynnir i Arholwyr Allanol gadarnhau yn eu hadroddiadau blynyddol bod safonau’r dyfarniadau y maent yn eu goruchwylio yn gyson â’r Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (gweler adroddiadau arholwyr allanol sydd wedi’u cynnwys yn nhystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 532 i 579). Caiff ein holl fodiwlau eu graddnodi yn erbyn y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch fel rhan o'r broses cymeradwyo modiwlau. Dyfernir cymwysterau i nodi cyflawniad canlyniadau dysgu a ddiffinnir ar lefel rhaglen a hefyd ar lefel modiwl, i gyd-

[125] 062 Manyleb Rhaglen. Ffurflen Datblygu Cynllun 9-1

[126] 063 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2.2 Canlyniadau Dysgu ac Asesiadau

[127] 064 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.2 Polisi a Gweithdrefnau Asesu

fynd â Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch[128]. Mae asesiadau modiwl wedi'u cynllunio i brofi cyflawniad canlyniadau dysgu modiwlau. Mae'r broses gymeradwyo ar gyfer cynlluniau newydd a chynlluniau wedi'u hailstrwythuro[129] yn ei gwneud yn ofynnol i baneli gadarnhau bod canlyniadau dysgu'r cynllun yn briodol i lefel y dyfarniad (enghraifft MSc Cynllun Newid Ymddygiad a ffurflenni cymeradwyo modiwlau, tystiolaeth o ymgynghori ac adroddiad[130 131]). Mae paneli hefyd yn rhoi sylwadau ar y berthynas rhwng cynnwys a chanlyniadau dysgu ar lefel modiwl a chynllun, ac yn derbyn ffurflenni cymeradwyo modiwlau ar gyfer pob modiwl newydd a gynigir fel rhan o'r cynllun.

95. Mae rheoliadau ar gyfer yr holl ddyfarniadau wedi'u hatodi gyda'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd sydd ar gael ar wefan y Brifysgol[132] ac mae confensiynau arholiadau[133], sy'n egluro sut y gwneir penderfyniadau ynghylch dyfarniadau a dilyniant, bellach wedi'u cynnwys ym mhennod 4 y Llawlyfr. Mae'r Llawlyfr hefyd yn cynnwys meini prawf ar gyfer dyfarnu graddau, diplomâu a thystysgrifau, sydd wedi'u paru â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru/ Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch[134]. Mae'r Gofrestrfa Academaidd yn cynnig cyfarfodydd briffio achlysurol, yn enwedig ar adegau o newid i brosesau neu reoliadau.

96. Yr Adrannau a'r Cyfadrannau sy'n yn gyfrifol am sicrhau bod byrddau arholi yn gweithredu yn unol â gofynion y brifysgol ar lefel pwnc[135]. Darperir templed safonol ar gyfer yr agenda[136] a chofnodion y Bwrdd[137 138]. Mae adolygwyr mewnol, sy'n cynnwys staff y Gofrestrfa Academaidd a Deoniaid Cyswllt, yn mynychu byrddau adrannol i hyrwyddo cysondeb, a chaiff unrhyw faterion eu dwyn i sylw'r Deoniaid Cyswllt yn eu cyfarfodydd arferol a'u hanfon ymlaen i'r Bwrdd

[128] 065 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 9.2 Meini Prawf af gyfer Dyfarnu Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau

[129] 066 Llawlyfr Ansawdd Academaidd detholiadau o Bennod 2 ar gymeradwyo cynlluniau

[130] 067 MSc Newid Ymddygiad – cynnig cynllun cyflawn

[131] 068 MSc Newid Ymddygiad – Cofnodion y Panel Cymeradwyo Cynllun-17-02-21

[132] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/dprof/

[133] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/

[134] 065 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 9.2 Meini Prawf af gyfer Dyfarnu Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau

[135] 069 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.7 Paragraffau 31-60 Byrddau Arholi

[136] 070 Bwrdd Arholi Adrannol, Agenda Templed

[137] 071 Templed ar gyfer Cofnodion y Bwrdd Arholi -Adran A-Materion Myfyrwyr

[138] 072 Templed ar gyfer Cofnodion y Bwrdd Arholi -Adran-B-Dadansoddi Data Arholiadau

Academaidd pan fo angen.[139] Mae Arholwyr Allanol ar gyfer rhaglenni a addysgir yn bresennol ar fyrddau arholi diwedd blwyddyn ac yn ymwneud â chymeradwyo asesiadau a safoni canlyniadau drwy'r flwyddyn[140] [141] [142]. Gofynnir i'r Arholwyr Allanol roi sylwadau ar safonau academaidd y dyfarniadau, a chadarnhau a yw'r safonau a osodir yn briodol ar gyfer lefel y dyfarniad, ac yn gyson â safonau sefydliadau addysg uwch eraill y DU y maent yn gyfarwydd â hwy, a chyda'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol (gweler adroddiadau Arholwyr Allanol a ddarperir yn nhystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 532 i 579). Gofynnir iddynt yn eu hadroddiad roi sylwadau ar sut mae'r cynnwys, y strwythur a'r canlyniadau dysgu a nodir ym manyleb(au) y rhaglen yn ymgysylltu â meincnodau pwnc cenedlaethol perthnasol a gyhoeddwyd neu â disgwyliadau cyrff proffesiynol perthnasol.

97. Yna cyflwynir argymhellion adrannol ar gyfer dyfarniadau i haen uwch, sef Bwrdd Arholi'r Senedd, sy'n cadarnhau'r holl ddyfarniadau[143] (gweler tystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 500 ar gyfer Cylch Gorchwyl Bwrdd Arholi'r Senedd). Daw'r holl ganlyniadau, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i rhyddfreinio, drwy'r un system. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth weithredu confensiynau archwilio a thriniaeth gyfartal o amgylchiadau arbennig. Mynychir Byrddau'r Senedd gan Adolygydd Allanol[144], sy'n aelod profiadol o staff y Gofrestrfa mewn prifysgol arall ar hyn o bryd, ac fe'u cadeirir gan DIG neu enwebai. Mae disgresiwn cyfyngedig i fyrddau adrannol. Mae rheoliadau sy'n llywodraethu dosbarthiad dyfarniadau yn seiliedig ar y marciau a gafwyd trwy asesiadau modiwl[145]. Pennir dosbarthiad dyfarniadau israddedig ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr[146] drwy'r dull rhaeadru, ac mae rheolau trothwy[147] yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sydd o fewn 1% i'r trothwy gael eu codi lle mae mwyafrif eu credydau yn y dosbarth uwch. Rhoddir disgresiwn o fewn 2% i'r trothwy dan amgylchiadau arbennig. Ar lefel

---

[139] 073 Bwrdd Academaidd, detholiad o gofnodion o Fehefin20 a Chwef21 gweithrediad byrddau arholi

[140] 074 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 5.2 Meini Prawf ar gyfer Penodi Arholwyr Allanol

[141] 075 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 5.6 Canllawiau ar Swyddogaeth Arholwyr Allanol

[142] 076 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 5.7 Swyddogaeth Arholwyr Allanol mewn Byrddau Arholi

[143] 069 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.7 Paragraffau 31-60 Byrddau Arholi

[144] 077 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 5.2.10 Meini Prawf penodi - Adolygydd Allanol y Senedd

[145] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/#academic-regulations

[146] 078 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.8 Confensiynau ar gyfer dosbarthiad graddau modiwlaidd

[147] 079 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.9 Y Trothwy (Confensiynau Gradd Anrhydedd)

cynlluniau uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs[148], nid oes rheol mwyafrifedd (er y defnyddiwyd hon fel mesur dros dro i liniaru effaith Covid) a dim ond oherwydd amgylchiadau arbennig y gellir codi ymgeiswyr ffiniol.

98. Ar lefel gradd ymchwil, mae byrddau arholi, sy'n cynnwys o leiaf un Arholwr Allanol, un arholwr mewnol a chadeirydd annibynnol, yn asesu'r gwaith a gyflwynwyd yn erbyn meini prawf y Brifysgol ei hun ac yn cadarnhau a yw'r gwaith yn bodloni'r safon a dderbynnir ar draws y sector[149].

99. Credwn fod gennym drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau safonau academaidd, wedi'u meincnodi, lle bo modd, yn erbyn disgwyliadau'r sector a'u cadarnhau gan arholwyr allanol. Rydym yn ymwybodol, wrth gwrs, bod y sector AU wedi rhoi mentrau ar waith yn y blynyddoedd diwethaf i geisio hybu hyder y cyhoedd yn nyfarniad graddau. Digwyddodd hyn yn sgil y cynnydd yng nghyfran y graddau israddedig anrhydedd da, a pherodd hyn i'r llywodraeth i leisio pryder ynghylch chwyddiant graddau. Bu ein Bwrdd Academaidd yn ystyried papur ar y mentrau hyn, a gynhwyswyd yn Natganiad o Fwriad Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Sicrwydd Ansawdd (UKSCQA) ym mis Mai 2019, lle gwnaeth y sector ymrwymiad i ddiogelu tryloywder, dibynadwyedd a thegwch y system dosbarthu graddau; a'r Radd Ymarfer Algorithm yn 2020: Adroddiad Ymchwil ac Egwyddorion ar gyfer Cynllunio Algorithm Effeithiol[150] [151].

100. Mae algorithm PA (rhaeadr) yn cyd-fynd â'r model 'pwyslais ar gyflymder ymadael', sef y model mwyaf cyffredin ar draws y sector, lle mae gan y modiwlau lefel uchaf/olaf bwysau uwch. Mae PA yn diystyru/ gostwng credydau, yn yr ystyr o beidio â mynnu bod yr holl gredydau sy'n cyfrannu at y dosbarthiad yn cael eu pasio, ond nid yw'n eithrio'r credydau hyn o'r cyfrifiad. Ystyrir bod hyn yn dderbyniol cyn belled â'i fod yn cael ei gyfyngu, ac yn glir.

101. O ran ystyriaeth ffiniol/gweithredu'r trothwy, mae'r arfer a argymhellir cynnwys uchafswm parth ystyriaeth o ddau bwynt canran o ffin y radd, heb unrhyw dalgrynnu ychwanegol ac y dylai unrhyw addasiad i ddosbarthiad fod yn seiliedig ar reolau ac yn ddienw, er mwyn osgoi effaith bosib disgresiwn annheg. Yn PA, defnyddir talgrynnu fel bod y ffenestr yn fwy na 2% o ffin y radd. Mae adroddiad UKSCQA hefyd yn nodi bod 'talgrynnu marc terfynol myfyriwr – y marc

[148] 080 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.14.3 Myfyrwyr yn dechrau Gradd Meistr neu Ddyfarniad Uwchraddedig O fis Medi 2018

[149] 081 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 7.7 Aelodaeth Graddau Ymchwil a Chylch Gorchwyl Byrddau Arholi

[150] 082 Papur y Bwrdd Academaidd, Safonau Graddau

[151] 083 Bwrdd Academaidd, Detholiad o Fehefin21 – Safonau Graddau

sy'n pennu eu dosbarthiad – o fewn 0.5% yn cael ei weld ar draws y sector yn deg, yn rhifyddol briodol, ac yn hawdd i fyfyrwyr ei ddeall'. Tybiwn fod hyn yn golygu, er enghraifft, bod ystyried 69.5-69.99 yn radd dosbarth cyntaf yn dderbyniol, ond nid talgrynnu i fyny i gynnwys myfyriwr yn y trothwy.

102. Er bod arferion PA yn bodloni'r egwyddorion ar gyfer cynllunio algorithmau da ar y cyfan, mae'n bosib na fydd talgrynnu marciau modiwl a'r cyfartaledd cyffredinol, ynghyd â gosod y ffenestr 2.5% o dan ffin, yn cyd-fynd â'r canllawiau newydd.

103. O ran rheolau PA sy'n berthnasol i ymgeiswyr ffiniol, mae disgresiwn lle mae gan fyfyrwyr amgylchiadau arbennig; nid yw'r broses hon yn ddienw eto ond caiff ei llywodraethu gan adrannau ac yna paneli lefel Prifysgol sy'n gofyn a oes tystiolaeth y byddai'r myfyriwr wedi cyflawni'r dosbarth uwch oni bai am yr anawsterau a wynebwyd ganddo. Ar gyfer ymgeiswyr 1%, mae codiad awtomatig yn seiliedig ar un rheol, sef mwyafrifedd. Mae hyn yn wahanol i'r cyflymder ymadael sydd wedi'i ymgorffori yn yr algorithm, ac mae'n edrych ar allu'r myfyriwr i berfformio ar y lefel uwch dros o leiaf hanner ei gredydau.

104. Cynigiodd UKSCQA y dylai darparwyr gyhoeddi Datganiad Deilliannau Gradd yn dadansoddi eu proffil dosbarthiad gradd sefydliadol, ac yn mynegi canlyniadau adolygiad sefydliadol mewnol. Cyhoeddodd PA ei datganiad cyntaf ym mis Mehefin 2020[152].

105. Disgwyliwyd y byddai prifysgolion yn diweddaru eu datganiadau cyn diwedd blwyddyn galendr 2021 ac yna'n nodi sut a phryd y byddai adolygiadau'n cael eu cynnal yn y dyfodol.

106. Mae'r Datganiad ar Ganlyniad Graddau bellach wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2021[153]. Bu cynnydd cyffredinol o 13% mewn graddau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth Uwch dros y 4 blynedd diwethaf, a arweiniodd at gwymp cyfatebol yn y graddau eraill. Mae pedwar prif reswm am hyn:

   a. Mae'r pandemig wedi arwain at lai o arholiadau a mwy o asesu parhaus, ac at fwy o fyfyrwyr yn ailsefyll am farciau llawn. Mae hyn wedi bod yn amlwg o'r canlyniadau ar draws sector cyfan y Deyrnas Unedig yn 2020;

   b. nifer cynyddol o gynlluniau Meistr Integredig 4 blynedd lle mae gofyn i fyfyrwyr gyflawni cyfartaleddau uwch er mwyn symud ymlaen;

   c. tynhau'r rheolau dilyniant, yn ymwneud â chyfyngu ar y gallu i ailadrodd yr ail

---

[152] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/qaa/datganiadarganlyniadaugraddau/

[153] 014 Datganiad ar Ganlyniad Graddau 2019-2020

flwyddyn er mwyn cael marciau llawn; cafodd hyn effaith ar y dosbarthiadau uwch oherwydd bod y cynnydd bach yng nghyfradd y myfyrwyr sy'n gadael cyn gorffen yn golygu bod llai o fyfyrwyr yn aros yn y flwyddyn olaf a oedd yn debygol o ennill dyfarniadau dosbarth is;

d. cynnydd yn effeithiolrwydd, amseroldeb a thrylwyredd asesu ac adborth trwy reolaeth dynnach ar derfynau amser marcio, cyflwyno ac adborth electronig; cael ei ategu hefyd gan ostyngiad yn y gymhareb myfyrwyr: staff a welwyd dros y cyfnod hwn. Ystyrir y gwelliannau hyn hefyd yn ffactorau allweddol yn y cyfraniad at sicrhau bod PA yn cyflawni canlyniadau arweiniol yn y sector yn y maes hwn o'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Felly, ni chanfuwyd unrhyw risgiau nodedig, ond byddwn yn parhau i fonitro cyfran yr Anrhydeddau Da. Bydd y pandemig yn effeithio ar y data am flynyddoedd eto, gan wneud dadansoddi tueddiadau yn llawer anoddach. Trafodir Anrhydeddau Da yng nghyfarfodydd y PMACau a'r Bwrdd Academaidd[154] [155].

107. Disgwylir hefyd i brifysgolion wneud myfyrwyr yn ymwybodol o sut y penderfynir ar eu dosbarthiad, pam fod dull penodol o bennu dosbarthiad wedi ei fabwysiadu, a sut mae hyn yn cyfateb i strwythur y radd a'r canlyniadau dysgu. Mae PA yn esbonio'r dosbarthiadau gradd a'r rhaeadr yn:

https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/conventions/

108. Mae'r cyfrifydd rhaeadru[156] hefyd yn galluogi myfyrwyr i gyfrifo sut y bydd eu sgorau modiwl terfynol yn effeithio ar ganlyniad eu gradd, fel nad oes rhaid iddynt wneud y cyfrifiad eu hunain. Ynghŷd â'r Datganiad ar Ganlyniadau Graddau, mae gwybodaeth gyhoeddus am weithrediad ein halgorithm. Fodd bynnag, gellir dadlau mai'r hyn sydd ar goll yw un safle addas i fyfyrwyr sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ddisgwyliedig ac yn egluro pam ein bod yn defnyddio'r rhaeadr yn hytrach nag unrhyw algorithmau eraill, ac sy'n rhoi cyd-destun am system y Deyrnas Unedig o ddosbarthu graddau.

109. Yn 2019, ychwanegwyd disgrifyddion dosbarth gradd ar gyfer cymwysterau lefel 6 at

[154] 084 Papur Bwrdd Academaidd Adroddiad Cyfraddau Anrhydeddau Da FBPS a FASS

[155] 085 Papur Bwrdd Academaidd Adroddiad Terfynol Anrhydeddau Da Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd

[156] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/cascade-calculator/

Fframweithiau QAA ar gyfer Cymwysterau AU Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU. Nodwn hefyd fod AdvanceHE wedi arwain nifer o fentrau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol ar gyfer arholwr allanol, a thynnwn sylw at hyn yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'r llythyr penodi arholwyr allanol[157] [158].

110. Mae'r camau gweithredu yr ydym yn dal i'w hystyried mewn ymateb i'r datblygiadau amrywiol hyn yn y sector, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygiadau allanol, yn cynnwys:

a. Meincnodi arferion yn erbyn disgrifyddion dosbarth gradd ar gyfer cymwysterau lefel 6

b. Ystyried cylch adolygu algorithm ond am y tro, monitro effaith Covid yn ofalus.

c. Adolygu'r defnydd o dalgrynnu ar lefel modiwl a gradd a gosodiad y 'parth ystyriaeth' ffiniol.

d. Mae'r gwaith uchod yn canolbwyntio ar gymwysterau israddedig ond byddai'n ddefnyddiol hefyd monitro data canlyniadau Meistr.

e. Darparu rhesymeg/disgrifiad mwy cyfeillgar i fyfyrwyr o'r rhaeadr gyda gwybodaeth gyd-destunol.

f. Cynnwys adnoddau AdvanceHE yn ein fframwaith arholi allanol, ac ystyried ymrwymo mwy i hyfforddiant AdvanceHE.

111. Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am gynnal yr ansawdd a'r safonau, mae ein strwythur newydd yn rhoi'r cyfrifoldeb allweddol i rolau dynodedig ein staff Gweithredol, y Cyfadrannau a'r Gofrestrfa Academaidd. Maent yn gweithio o fewn strwythur pwyllgorau ac yn gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau a nodir yn ein Llawlyfr Ansawdd Academaidd, sy'n cael ei feincnodi yn erbyn disgwyliadau allanol (gweler tystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 500 i 531 ar gyfer Cylch Gorchwyl a chofnodion ar gyfer pwyllgorau academaidd). Mae cyfranogiad myfyrwyr yn

[157] 086 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 5.1 Arholi allanol - Cyflwyniad – cyfeiriad at QAA ac AdvanceHE

[158] 087 Llythyr Penodi arholwr allanol - Israddedig 2021-22

digwydd trwy'r systemau cynrychioliadol[159], lle mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn eistedd ar y pwyllgorau allweddol, a thrwy adborth myfyrwyr a ddaw drwy amrywiaeth o systemau, gan gynnwys pwyllgorau ymgynghorol staff: myfyrwyr (setiau enghreifftiol o gofnodion[160], holiaduron gwerthuso modiwlau[161] [162]a phroses Rho Wybod Nawr [163] [164]).

112. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol ar gyfer ei darpariaeth academaidd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, dogfen ar-lein[165] y bwriedir iddi fod yn ffynhonnell hygyrch polisïau, rheoliadau a'r gweithdrefnau sy'n cefnogi'r gwaith o reoli safonau ac ansawdd academaidd yn Aberystwyth.

## Darpariaeth Gydweithredol

### Gweithio mewn Partneriaeth

113. Yn ystod y broses ailstrwythuro ar draws y brifysgol yn 2018, a arweiniodd ar ailstrwythuro'r Gofrestrfa Academaidd, cafodd y gwaith o arolygu darpariaeth partneriaeth, oedd gynt yn cael ei fonitro drwy'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol, ei gryfhau mewn Swyddfa Partneriaethau Academaidd (SPA) a ailgynlluniwyd. Mae'r SPA yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd a safonau cyflawni trwy drefniadau Partneriaeth yn ogystal â rhwymedigaethau risg a chytundebol. Mae SPA hefyd yn gyfrifol am y polisïau a'r prosesau sy'n ymwneud â chymeradwyo, diwydrwydd dyladwy ac asesu risg, monitro a rheoli gweithgareddau partneriaeth gydweithredol ac mae'n gyfrifol am yr adran am Bartneriaethau Academaidd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd[166].

114. Mae staff y SPA yn aelodau o ystod gyrff proffesiynol cenedlaethol ac yn dilyn hyfforddiant y cyrff hynny ar addysg partneriaeth ac addysg drawswladol. Mae'r rhain yn cynnwys Cymdeithas Gweinyddwyr Prifysgolion, yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (QAA), Cyngor Cyllido Addysg Uwch

[159] 088 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 6.7 Cynrychiolwyr Myfyrwyr

[160] 089 Cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Staff Myfyrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol -11.11.2020

[161] https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/arolwg/

[162] 090 Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Cynllun Gweithredu HGM - Sem 1

[163] https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/rho-wybod-nawr/

[164] https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/rho-wybod-nawr/ein-hymateb/bywyd-myfyriwr/name-242123-cy.html

[165] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/

[166] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-partnerships/staff-info/

Cymru (CCAUC), Y British Council, Universities UK International, y Council of Validating Universities a Rhwydwaith Ansawdd Cymru. Maent hefyd yn mynychu seminarau perthnasol gan gwmnïau cyfreithiol fel Eversheds. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn gydnabyddus â pholisïau cyfredol sy’n rheoli gweithgareddau partneriaeth yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

## Strwythur

115. Rhennir rheolaeth dros gytundebau partneriaeth yn PA rhwng gwahanol adrannau gan ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar risg. Mae cytundebau partneriaeth risg isel-canolig, fel datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu seiliedig ar waith gyda chredydau, yn rhan o’r Cyfadrannau. Mae partneriaethau denu myfyrwyr risg is (drwy fynediad safonol ac uwch, fel cytundebau dilyniant) a phartneriaethau symudedd myfyrwyr (megis rhaglenni Exchange, Study Abroad ac Erasmus) yn cael eu rheoli trwy isadran Cyfleoedd Byd-eang ac isadran Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol o fewn adran Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr. Adroddir am gytundebau denu myfyrwyr a symudedd myfyrwyr trwy’r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr.

116. Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd benodedig yn rheoli prosiectau partneriaeth 'risg uchel' megis cytundebau Rhyddfreinio, Dilysu a gradd Ddeuol/Gradd ar y Cyd a chydweithrediadau 'risg canolig' sy'n arwain at ddyfarnu credyd PA, trosglwyddo credydau tuag at ddyfarniad PA neu ddilysu credyd neu fodiwl gan PA. Mae'r prosiectau risg canolig hyn fel arfer yn bartneriaethau sy’n ymwneud â symudedd myfyrwyr - gan gynnwys trefniadau Cydweddu.

117. Mae’r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn hwyluso’r gwaith o gwmpasu syniadau partneriaeth newydd, yn cyflawni diwydrwydd dyladwy cychwynnol ac asesiadau risg, ac yn cysylltu’n agos â’r Swyddfa Gyllid ynghylch Achosion Busnes perthnasol y partneriaethau. Mae’r tîm hefyd yn cefnogi’r Cyfadrannau wrth gynnal ymweliadau safle a chyflwyno cynigion o ansawdd uchel i bwyllgorau perthnasol i’w cymeradwyo ar gyfer partneriaethau, modiwlau a chynlluniau. Yn ogystal, mae’r SPA yn hwyluso trafod a drafftio cytundebau ac, ar ôl sefydlu partneriaeth lwyddiannus, mae’r tîm yn galluogi’r Cyfadrannau i fonitro safonau academaidd a sicrwydd ansawdd y bartneriaeth ac mae’n goruchwylio rheolaeth weithredol darpariaeth y bartneriaeth. Mae'r tîm Partneriaethau Academaidd hefyd yn hwyluso'r broses o drafod Adnewyddu a/neu Derfynu Partneriaethau.

118. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol sy’n gyfrifol am reoli a goruchwylio gweithgareddau partneriaeth gydweithredol sy’n arwain at ddyfarniad gradd Prifysgol Aberystwyth, sydd bellach

(ers ailstrwythuro 2018) yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd (gweler tystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 500 i weld y Cylch Gorchwyl). Daw Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol â chydweithwyr o bob rhan o'r Brifysgol, sy'n gyfrifol am drefniadau partneriaeth a chydweithio yn y DU ac yn rhyngwladol, at ei gilydd. Caiff Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol ei gadeirio gan y DIG Dysgu ac Addysgu. Yn ogystal â chraffu, cymeradwyo/argymell cymeradwyaeth ar gyfer y gweithgareddau hyn, mae Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol hefyd yn cynnal adolygiadau o gytundebau a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth. Yn ogystal, mae Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol yn derbyn strategaethau datblygu sy'n ymwneud â phartneriaethau a'r mecanweithiau monitro ac adolygu ffurfiol[167] sy'n ymwneud â chyflwyno partneriaethau academaidd, megis cofnodion rhaglenni ar y cyd, adroddiadau Tiwtoriaid Cyswllt a Monitro Blynyddol (gan gynnwys Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs cynlluniau Partner).

119. Mae gweithdrefnau a gwybodaeth gynhwysfawr wedi eu rhoi ar wefan y Gofrestrfa fel rhan o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd. O ganlyniad i God Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (y Cod) a ddigiwyd ac a gyhoeddwyd yn 2018, yr ailstrwythuro a ddigwyddodd i'r Brifysgol gyfan yn 2018, a'r adroddiad archwilio mewnol ar weithgareddau rhyngwladol yn 2018-19, ail-ysgrifennwyd pennod wyth y LlAA ar weithdrefnau a gwybodaeth am weithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae'r bennod newydd gyda'i pholisïau a'i phrosesau cysylltiedig[168] yn cynnig yr wybodaeth a'r arweiniad perthnasol i staff ar gymeradwyo, diwydrwydd dyladwy, asesu risg, monitro, rheoli a rhoi'r gorau i weithgareddau partneriaeth gydweithredol. Mae hefyd yn ategu'r broses gymeradwyo Weithredol newydd ar gyfer achosion busnes sy'n ymwneud â phrosiectau partneriaeth gydweithredol.

120. Mae'r polisïau a'r prosesau a ddiweddarwyd wedi ymgorffori gweithgareddau partneriaeth, cyn belled ag y bo'n berthnasol, yn y prosesau Sicrhau Ansawdd gweithredol safonol ac, ar yr un pryd, yn hwyluso'r gwaith o adnabod a chofnodi'r gweithgareddau cydweithredol nodedig hynny hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys galluogi Partneriaid i ymgysylltu â phrosesau sicrhau ansawdd safonol, gan gynnwys Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs, Holiaduron Gwerthuso Modiwl ac adroddiadau Arholwyr Allanol trwy adrannau ychwanegol o'r ffurflenni a ddyfeisiwyd yn benodol ar gyfer gweithgareddau Partneriaeth. Ceir lefelau ychwanegol o fonitro a rheoli trwy Lawlyfr Gweithrediadau partneriaeth pwrpasol, Byrddau Rhaglen ar y Cyd ddwywaith y flwyddyn ac adroddiadau Ymweliadau Tiwtoriaid Cyswllt, yn ogystal â phroses

[167] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-partnerships/staff-info/cyflwyniad/

[168] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-partnerships/staff-info/guidance,-flow-charts-and-applications/

Cloriannu Perfformiad Partner (CPP) newydd a chadarnach.

## Strategaeth

121. Mae datblygiadau mewn Partneriaethau Academaidd yn gydnaws i raddau helaeth â chynlluniau lled ddiffiniedig y brifysgol sy’n cynnwys:

    a. Gwell enw da yn rhyngwladol trwy ymddiriedaeth yn ein gweithgareddau partneriaeth ansawdd uchel sy'n hyrwyddo myfyrwyr mewn Addysg Drawswladol (yn enwedig yn UDA, Malaysia, Tsieina, Fietnam a Gwlad Thai) i hwyluso twf mewn denu myfyrwyr rhyngwladol;

    b. Buddsoddiad yn y cymunedau y mae’r Brifysgol yn eistedd ynddynt drwy fentrau gwledig megis Meddygaeth Filfeddygol a Nyrsio i gefnogi targedau llywodraeth Cymru;

    c. Ymgysylltu â’r ‘byd go iawn’ trwy ehangu darpariaeth sy’n canolbwyntio ar alwedigaeth i bontio’r prinder sgiliau, megis dysgu cymhwysol drwy’r Agenda Prentisiaethau â darpariaeth partneriaid AB presennol a newydd, gan gynnwys graddau sylfaen, a datblygiad proffesiynol parhaus megis partneriaethau yng Nghymru.

122. Mae’r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn adolygu ei ryngweithiadau â strategaethau’r Brifysgol yn barhaus gan gynnwys Cynllun Strategol 2018-2023[169] a Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu cysylltiedig PA megis Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr PA a’r cynllun gweithredu, 2019-2023[170].

123. Yn ogystal, mae PA yn gweithio ar Strategaeth Addysg Bellach benodol gyda gweithgor wedi’i sefydlu i edrych ar gydbwysedd y ddarpariaeth rhwng AU ac AB a ‘thaith dysgwr gydol oes’. Mae meysydd cysylltiedig i'w harchwilio yn y dyfodol yn cynnwys Prentisiaethau Gradd, Micro-gredедd, darpariaeth DPP a darpariaeth dysgu o bell/dysgu cyfunol. Mae ein Hysgol Fusnes a'n Hadran Cyfrifiadureg yn arwain dau brosiect micro-gymhwyster newydd wedi'u hariannu gan CCAUC. Eu nod yw cynllunio, cyflwyno a phrofi modiwlau micro-grededd newydd yn y disgyblaethau pwnc hyn.

---

[169] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/strategic-plan/

[170] 091 AU Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr gyda Chynllun Gweithredu 2019-23

## Adolygu ac Adrodd

124. Mae'r canlynol ymysg y mecanweithiau a ddefnyddir i sicrhau a gwella ansawdd darpariaeth gydweithredol y Partneriaethau Academaidd ar gyfer bob Darpariaeth Addysgol Gydweithredol/Drawswladol a ddysgir trwy gwrs:

   a. Cyfrifoldeb Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol am:

      i. Gymeradwyo prosiectau Partneriaeth risg-uchel ac atgyfeiriadau i'w cymeradwyo i'r Senedd (enghraifft o gofnodion Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol 20 Medi 2019 parthed Cymeradwyo Prosiect (Ymweliad i'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol) [171])

      ii. Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs gan Bartneriaid (Enghraifft Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol 10 Tachwedd 2020 parthed adolygiad Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs ac adroddiadau Arholwyr Allanol[172]).

   b. Adolygiad Ansawdd Cyfnodol o Adrannau Academaidd ledled y Brifysgol gan gynnwys adran ar weithgareddau Partneriaeth.

   c. Goruchwyliaeth Partneriaethau Academaidd dros:

      iii. Gymeradwyo, Monitro ac Adolygu Gweithdrefnau Sicrwydd Ansawdd partneriaid;

      iv. Datblygiadau Memorandwm Cytundeb (MC) Partneriaethau/ Datblygiadau cytundebol;

      v. Achredu Rhaglenni Partneriaeth PA gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol;

      vi. Adroddiadau chwe-misol tiwtor Cyswllt[173]

      vii. Cyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr mewn sefydliadau

[171] 092 Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol - Cyfarfod 1 - Cofnodion-20-09-19

[172] 093 Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol - Cyfarfod 2 - Cofnodion -10-11-20

[173] 094 Enghraifft o adroddiad Tiwtor Cyswllt - Coleg Gwent-14-12-21

partner[174];

d. Adrannau/Cyfadrannau yn Monitro Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs yn flynyddol[175];

e. Adborth Arholwr Allanol Adrannol[176];

f. Archwilio ac adolygu allanol [gan gynnwys adolygiad gwlad QAA o addysg drawswladol y DU (Malaysia yn 2019); Adolygiad Gateway AB QAA (Coleg Cambria a Choleg Gwent 2019); Adolygiadau ymweliad teirblwydd Sicrwydd Sefydliadol CCAUC: Ansawdd a Phrofiad Myfyrwyr PA 2021, (adroddiad adolygiad teirblwydd CCAUC 2021 ar gael yn y dystiolaeth pecyn gwybodaeth blaenorol 614)] [177] [178] [179] [180].

125. Diweddir yr adolygiad blynyddol o ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r mecanweithiau a restrir uchod gyda'r Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithredol ar gyfer pob un o'r prosiectau risg uchel sydd o fewn cylch gorchwyl y SPA. Diben yr Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithredol[181] [182] [183] yw darparu tystiolaeth briodol i gorff llywodraethu Prifysgol Aberystwyth a rhanddeiliaid allweddol i allu cadarnhau bod y Brifysgol wedi ac yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau o ran sicrhau ansawdd mewn trefniadau partneriaeth.

126. Mae staff y SPA yn gweithredu fel ysgrifennydd i Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd – mae hyn yn cynnwys paratoi 'Briffiau Prosiect'[184] ar gyfer pob un o gyfarfodydd Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol a'r Adroddiad Partneriaethau

[174] 095 Enghraifft o Gofnodion Pwyllgor Ymgynghorol rhwng Staff a Myfyrwyr - Brickfields Asia College-11-20

[175] 096 Enghraifft o Ffurflen Monitro Blynyddol Cynlluniau a Ddysgir - Coleg Cambria-09-20

[176] 097 Enghraifft o Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer Plentyndod ac Addysg Coleg Cambria 2021

[177] 098 Adolygiad Addysg Drawswladol gan QAA o Ryddfraint BAC 2019

[178] 099 Adroddiad Gwlad Malaysia 2020

[179] 100 Coleg Cambria Adroddiad Adolygiad Gateway 2019

[180] 101 Coleg Gwent Adroddiad Adolygiad Gateway 2019

[181] 007 2020-2021 Adroddiad Blynyddol – Gweithgareddau Partneriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth

[182] 008 2019-2020 Adroddiad Blynyddol – Gweithgareddau Partneriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth

[183] 009 2018-2019 Adroddiad Blynyddol – Gweithgareddau Partneriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth

[184] 102 Enghraifft o Friffiad Cynnydd Prosiect Partneriaid gan Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol -07-09-20

Blynyddol. Ar gyfer y Cyngor, mae'r SPA yn cynhyrchu'r adran Partneriaethau o'r Datganiad Ansawdd Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithredol. Mae'r SPA yn cynhyrchu adroddiadau ar gyfer is-bwyllgorau'r Cyngor Archwilio a Risg a Llywodraethu a Chydymffurfiaeth ar y prosiectau hynny sydd mewn perygl o beidio â chydymffurfio neu lle mae mathau eraill o risg wedi'u nodi.

## Proses

127. Mae prosiectau cydweithredol sy'n arwain at ddyfarniad PA yn mynd drwy broses tri cham:

    a. Cymeradwyaeth Strategol (Cam Cynllunio)

    b. Cymeradwyaeth y Brifysgol (Cam Craffu Manwl a Datblygu)

    c. Cam Ôl-Gymeradwyaeth (Cam Sefydlu a Datblygiad Gweithredol)

128. Mae'r cam Cymeradwyaeth Strategol cychwynnol yn defnyddio Holiadur Datblygu Partneriaethau[185] i alluogi trafodaeth rhwng y rheolwr prosiect perthnasol y SPA a'r 'arweinydd' datblygiad academaidd ynglŷn â chyfeiriad strategol y prosiect a sut mae'n cyd-fynd â gweledigaeth a chynlluniau PA. Mae'r broses gymeradwyo ar y cyd (ac eithrio cynigion ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar ymchwil, cyfnewid, lleoliadau gwaith neu ddysgu seiliedig ar waith sy'n cynnwys credydau), wedi'i symleiddio'n ddiweddar. Ailgynlluniwyd y broses, ac erbyn hyn mae craffu a chyfrifoldeb am gymeradwyaeth gychwynnol i ddatblygiad pellach wedi'i ymgorffori ym mhrosesau mewnol y SPA. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys cysylltu â Chyfadrannau ac adrannau academaidd, cysylltu â'r gwasanaethau proffesiynol priodol gan gynnwys Cynllunio a Chyllid, ac adolygu ac adrodd i bwyllgorau perthnasol yn ôl yr angen. Mae symud i brosesau mewnol y SPA wedi arwain at sicrhau ansawdd trylwyr ac adnabod risg cysylltiedig â phartneriaethau posib yn gynharach yn eu datblygiad, fel nad oes angen gorlwytho pwyllgorau.

129. Pan fydd y 'ffit' strategol wedi'i sefydlu, mae'r broses gymeradwyo fel arfer yn dechrau gyda chwblhau cais Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth[186]. Yn dilyn hyn, ystyrir lefel risg pob prosiect a defnyddir y broses gymesur a phriodol ganlyniadol ar gyfer pob prosiect yn unol â lefel y risg. Cyflwynir ceisiadau i'w hadolygu a'u cymeradwyo gan y Swyddfa berthnasol. Cwblheir

[185] 103 Holiadur Datblygu Partneriaethau

[186] 104 Enghraifft o gais Memorandwm Dealltwriaeth - Amity University Hydref 2020

Diwydrwydd Dyladwy Cychwynnol[187] yn y cyfnod cynharaf er mwyn sefydlu lefel risg cychwynnol y prosiect arfaethedig yn ogystal â mesur addasrwydd, dibynadwyedd a lefel ymgysylltiad y partner posib.

130. Ar gyfer prosiectau partneriaeth risg isel, gofynnir am gymeradwyaeth gan y swyddfa Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol, y swyddfa Cyfleoedd Byd-eang neu'r Ganolfan Saesneg Rhyngwladol. Mae'r swyddfeydd hyn wedyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r swyddfa Derbyniadau neu'r Gyfadran/Cyfadrannau i gynhyrchu'r cytundebau denu myfyrwyr a/neu symudedd myfyrwyr yr adroddir arnynt drwy'r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr. Ar gyfer prosiectau partneriaeth risg canolig-uchel, caiff y cais ei adolygu'n gyntaf gan y SPA ac yna'i gyflwyno i Bwyllgor(au) Materion Academaidd y Gyfadran berthnasol a rhoi gwybod amdano i'r Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol i'w ddatblygu ymhellach.

131. Ail gam Cymeradwyo'r Brifysgol yw datblygu prosesau cynllunio cyrsiau, ansawdd a safonau ac arolygiaeth rheolwyr, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau perthnasol. Mae siart llif[188] ar gael i gynorthwyo 'arweinydd' y prosiect i gwblhau'r gwaith papur gofynnol ac i sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i gwestiynau am adnoddau, darpariaeth a meysydd allweddol eraill. Ni chymeradwyir cynigion nad ydynt yn cyd-fynd â nodau strategol y Brifysgol, neu y bernir eu bod yn rhy uchel eu risg.

132. Wedi i gynllun y rhaglen gael ei sefydlu, mae'r broses gymeradwyo yn parhau drwy wneud cais Memorandwm Cytundeb (MC). [189] Yna caiff y cais ei gyflwyno i Bwyllgor(au) Materion Academaidd y Gyfadran berthnasol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol. Caiff cynnig llawn pob prosiect Partner cydweithredol risg uchel ei anfon i'w gymeradwyo gan y pwyllgor drwy'r Bwrdd Academaidd / Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol a'r Senedd a bydd y dasg o ddrafftio'r MC wedyn yn dechrau. Mae prosiectau risg canolig, megis cytundebau trosglwyddo, yn cael eu hadrodd i Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol er gwybodaeth.

133. Ar gyfer prosiectau risg uchel fel rhyddfreinio, graddau deuol/dwbl/ar y cyd, dilysiadau, mae'r broses gymeradwyo[190] yn ymgorffori holl elfennau'r prosiect gan gynnwys: cymeradwyo a dilysu

[187] 105 Enghraifft o Ffurflen Diwydrwydd Dyladwy cychwynnol - Osmania University – Fersiwn Derfynol

[188] 106 Siart Llif ar gyfer Cytundebau Risg Uchel

[189] 107 Copi o Ffurflen Gais ar gyfer Memorandwm Cytundeb (Ffurflen gais APF_2b am MC)

[190] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-partnerships/staff-info/adran87-rheolicymeradwyaethacol-gymeradwyaeth/

cyrsiau, ymweliad safle gydag adroddiad[191], asesiad risg a thrafodaethau cytundebol. Cwblheir diwydrwydd dyladwy pellach[192] ar y cam hwnnw gyda mewnbwn gan y sefydliad Partner posib. Cwblheir cymeradwyaeth yr Achos Academaidd (gan gynnwys y rhesymeg academaidd a chynllun y rhaglen) i gyd-fynd â'r broses cymeradwyo weithredol, sy'n digwydd ar wahân ond yn baralel, ar gyfer cymeradwyo Achos Busnes. Yna mae'r prosesau cymeradwyo annibynnol hyn yn cael eu cysylltu ar gyfer penderfyniad terfynol gan Swyddog Gweithredol y Brifysgol, sy'n goruchwylio cymeradwyaeth gyffredinol prosiectau Partner sydd â goblygiadau adnoddau.

134. Bydd telerau'r Cytundeb ar gyfer Rhaglenni Partneriaethau Academaidd Cydweithredol wedi'u trafod a'u cytuno yn ystod cyfnod datblygu'r rhaglen ac wedi'u nodi yn y MC. Bydd y MC yn cynnwys cyfnod y cytundeb, cyfrifoldebau pob sefydliad partner, amodau'r rhaglen gan gynnwys strwythur academaidd, gofynion proffesiynol, ac adnoddau, a bydd yn cynnwys atodiad ariannol. Yna cytunir ar y MC a'i lofnodi ar ran y Brifysgol gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai) a chan y swyddog cyfatebol i'r Is-Ganghellor yn y sefydliad partner.

135. Y trydydd cam a'r cam olaf yw rheolaeth weithredol prosiect, monitro ac adolygu a diweddu. Mae'r broses hon yn ymgorffori sefydlu'r rhaglen ar systemau perthnasol ac ysgrifennu'r Llawlyfr Gweithrediadau[193], llawlyfr pwrpasol ar gyfer rheoli pob prosiect risg uchel. Yn ogystal, sefydlodd y SPA Fyrddau Rhaglen ar y Cyd[194], sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac sy'n gweithredu fel pwyllgorau rheoli gweithredol ar gyfer unigolion allweddol sy'n cynrychioli'r ddau bartner, i adolygu'r trefniadau gweithredol a sicrhau ansawdd a datblygu arfer fel y bo'n briodol. Mae'r Byrddau Rhaglen ar y Cyd yn adolygu'r prosiect partneriaeth, a gall wneud argymhellion i'r Bwrdd Partneriaethau Cydweithredol. Fodd bynnag, nid oes ganddo awdurdod i wneud newidiadau academaidd neu gytundebol i'r Bartneriaeth. Mae cofnodion pob Bwrdd Rhaglen ar y Cyd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Gorfforaethol, ac mae adroddiadau ar faterion a risgiau wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithredol.

## Terfynu partneriaethau

136. Daw Partneriaeth categori risg uchel i ben drwy derfynu'r MC (yn unol â'r broses a amlinellir yn

[191] 108 Enghraifft o Adroddiad ar Ymweliad Safle – Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol RVC-19-20-16

[192] 109 Enghraifft o Ffurflen Diwydrwydd Dyladwy Risg Uchel - RVC - RVC (APF_3b Ffurflen Diwydrwydd Dyladwy Risg Uchel)

[193] 110 Llawlyfr Rhyddfaint BAC Mawrth 2019 Terfynol

[194] 111 Enghraifft o Gofnodion Bwrdd Rhaglen ar y Cyd - Coleg Cambria - Sem 2-2020-21

y contract) gan y naill bartner neu’r llall, neu pan ddaw’r MC i ben. Mae'r cam cyntaf yn ddull deublyg:

a. Cychwyn Cloriannu Perfformiad Partneriaid (CPP) gan edrych ar y rhaglen academaidd o ran Sicrhau Ansawdd ac asesu risg.

b. Cychwyn Adolygiad Achos Busnes, gan edrych ar gyflwr ariannol y Bartneriaeth.

137. Mae'r SPA yn cychwyn y ddau adolygiad ond dim ond am weithredu a rheoli'r CPP academaidd mae’n gyfrifol. Cynhelir adolygiad Achos Busnes rhwng y Gyfadran berthnasol y mae'r prosiect Partneriaeth yn eistedd ynddi, a'r swyddfa/swyddfeydd Cyllid a/neu Gynllunio. Ceir enghreifftiau diweddar o adolygiad CPP ar bartneriaid Rhyddfraint PA, Coleg Cambria a Choleg Gwent ar adeg adnewyddu MC.[195]

138. Fel rhan o ddiwydrwydd dyladwy parhaus, cynhelir CPP cyfnodol yn rheolaidd fel y pennir gan y Brifysgol ar gyfer pob Partneriaeth gydweithredol. Cafodd proses CPP newydd fwy cadarn ei drafftio a'i chymeradwyo fel rhan o adran y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ar Bartneriaethau Academaidd a ail-ysgrifennwyd. Ehangwyd y cyfiawnhad dros CPP i gynnwys proses Testun Pryder[196] (fel yr amlinellwyd yn yr adran LlAA ar Bartneriaethau Academaidd) ac adnewyddiad cytundebol posib fel rhesymau dros gychwyn y broses:

a. wedi egwyl o bum mlynedd (ar gyfer prosiectau partneriaeth tymor hir)

b. yn yr 12-18 mis cyn diwedd neu adnewyddiad posib Cytundeb Partneriaeth

c. fel cam gweithredu priodol ar ôl ystyried Testun Pryder

Cydlynir y CPP gan y SPA. Mewn rhai achosion o bryder ynghylch safonau, ansawdd neu hyfywedd, bydd angen CPP gydag ymweliad safle, yn yr un modd â chanlyniad diweddar adolygiad prosiect Rhyddfraint Brickfields Asia College na chafodd ei adnewyddu[197]. Oherwydd cyfyngiadau pandemig Covid-19 ar y pryd, roedd yn rhaid cwblhau'r CPP hwn gydag ymweliad safle o bell.

139. Ar ôl cwblhau'r CPP, caiff yr adroddiad, a'r argymhelliad terfynol eu cyflwyno i Fwrdd y

[195] 112 Enghraifft o Ganlyniad Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Partner ADNEWYDDU Coleg Gwent.01-21

[196] 113 Gweithdrefn Testun Pryder

[197] 114 Enghraifft o Ganlyniad Adroddiad Perfformiad Partner TERFYNU Brickfields Asia College-07-20

Ddarpariaeth Gydweithredol. Yna bydd Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithredol yn cymeradwyo'r argymhellion i'w hadolygu a/neu eu cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol a'r Senedd.

## Mesurau dros dro o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig Covid19

140. Ers dechrau 2020, amharwyd yn sylweddol ar allu PA a'n sefydliadau partner i gyflwyno darpariaeth ac i ddefnyddio darpariaeth a pharodd hyn drwy 2020-2021 yn ei chyfanrwydd a rhan o 2021-2022. Mae'r effaith ar weithgareddau'r Bartneriaeth wedi cynnwys:

a. Symud addysgu partneriaeth i addysgu ar-lein mewn sefydliadau yn cynnwys: Brickfields Asia College ym Malaysia, Coleg Cambria a Choleg Gwent yng Nghymru, Hohai a Huanghuai yn Tsieina.

b. Cynllunio dulliau amgen o arholi ac asesu a newidiadau i reoliadau a phrosesau byrddau arholi a chyfrifiadau canlyniadau myfyrwyr yn unol â newidiadau polisi a phrosesau PA.

c. Bu'n rhaid ailgynllunio ymweliadau academyddion cyswllt â rhaglenni Rhyddfraint y Coleg yng Ngholeg Gwent a Choleg Cambria ac yn Brickfields Asia College a'u cynnal trwy MS Teams.

d. Ailgynllunio Cloriannu Perfformiad Partner (CPP) ar gyfer BAC ym Malaysia a Choleg Cambria a Choleg Gwent ar gyfer adolygiad 'bwrdd gwaith' o'r papurau perthnasol a chyfarfodydd 'rhithiol' drwy MS Teams gydag aelodau'r panel adolygu a chyfweliadau drwy MS Teams gyda'r Rheolwyr, staff addysgu a myfyrwyr.

e. Trafod a datrys materion adnoddau a thechnoleg.

f. Arweiniodd rheoliadau gwahanol mewn gwahanol wledydd at anghysondebau cyflenwi yr oedd yn rhaid eu monitro ac adrodd arnynt yn ystod y pandemig. Roedd angen monitro er mwyn sicrhau bod profiad myfyrwyr PA yn gyffelyb waeth pa leoliad a gwlad y cyflwynir y ddarpariaeth ynddi.

141. Bu'r broses CPP a ailgynlluniwyd, lle trefnwyd cyfarfodydd rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd personol gyda myfyrwyr a staff yn Brickfields Asia College, Coleg Cambria a Choleg Gwent, yn arbennig o effeithiol, a bydd agweddau o'n dull yn cael eu cadw ar gyfer adolygiadau CPP y dyfodol ac ymweliadau eraill â sefydliadau phartner yn y DU a thramor. Roedd y cyfuniad o adolygiad bwrdd gwaith a chyfarfodydd rhithiol yn golygu hyblygrwydd sylweddol o ran amserlennu yn ogystal â mwy o gyfleoedd i staff a myfyrwyr gwrdd â'r panel adolygu a darparu

amrywiaeth o safbwyntiau. Roeddem yn arbennig o falch o nodi cynnydd yn ymgysylltiad myfyrwyr â'r adolygiadau hyn gan ddefnyddio'r fformat newydd hwn.

## Enghreifftiau o ddarpariaeth gydweithredol

142. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn goruchwylio tri phrosiect Rhyddfreiniol, dau brosiect deuol/ar y cyd, un prosiect dilysu, a nifer fechan o drefniadau Partneriaeth cydweithredol yng Nghymru a Tsieina.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

### Coleg Cambria – Cytundeb Rhyddfraint (FdA a BA Addysg)

143. Arwyddwyd y cytundeb Rhyddfraint gwreiddiol ym mis Tachwedd 2017, a chafodd ei adnewyddu yn 2021 wedi adroddiad adolygiad (CPP) llwyddiannus ar gyfer y cynlluniau a ganlyn: X101 PCET ProfGCE, X102 PCET PCE, X320 Astudiaethau Plentyndod (BA), X321 Astudiaethau Plentyndod (FdA). Ni chafodd y cynlluniau X302 Addysg (BA), Addysg (Cymorth i Ddysgwyr) (FdA) ac Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (FdA) eu hadnewyddu gan na ddenwyd digon o fyfyrwyr. Mae Prifysgol Aberystwyth a Choleg Cambria wedi cynnal Partneriaeth gadarnhaol iawn drwy'r trefniant Rhyddfreinio, gan arwain at adnewyddu'r contract yn 2021. Fodd bynnag, mae trafodaethau strategol diweddar wedi dangos nad yw Coleg Cambria yn dymuno ehangu'r berthynas gyda PA a'i fod yn lle hynny wedi ymochri yn agosach gyda sefydliadau rhanbarthol agosach. Mae PA yn fodlon ar y Rhyddfraint fel y mae ar hyn o bryd ond bydd yn parhau i fonitro nifer y myfyrwyr ar y rhaglen i weld a yw hyn yn hyfyw.

### Coleg Gwent – Cytundeb Rhyddfraint (FDSc and top-up BSc Ceffylau)

144. Arwyddwyd y cytundeb Rhyddfraint gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2017, a chafodd ei adnewyddu yn 2021 wedi adroddiad adolygiad (CPP) llwyddiannus ar gyfer y cynlluniau canlynol: D324 FDSC Astudiaethau Ceffylau, D325 BSc (blwyddyn atodol). Mae PA a Choleg Cambria wedi cynnal Partneriaeth gadarnhaol iawn trwy'r cytundeb Rhyddfraint, gan arwain at adnewyddu'r cytundeb yn 2021. Mae trafodaethau strategol diweddar gyda rheolwyr Coleg Gwent wedi arwain at drafodaethau cynnar ynglŷn â meysydd ehangu. Mae'r ddau sefydliad yn rhannu ethos cymunedol o hwyluso dysgu mewn cymunedau mwy gwledig, ac mae PA yn dymuno archwilio hynny ymhellach.

### Menter a Busnes – Cytundeb Dilysu (Tystysgrif Uwchraddedig Arweinyddiaeth Newid)

145. Adnewyddwyd y cytundeb dilysu yn Ionawr 2020 hyd at Ionawr 2025 ar gyfer y modiwlau canlynol: MMM5920 Hwyluso ar gyfer Arweinyddiaeth Sefydliadol, MMM5820 Hyfforddiant a

Mentora i Arweinwyr, MMM5720 Arwain Newid. Un modiwl oedd wedi ei gymeradwyo i gael ei gyflwyno i ddechrau gyda dau fodiwl ychwanegol yn cael eu dilysu yn ddiweddarach gan arwain at ddyfarniad Tystysgrif Uwchraddedig PA. Mae dros 90 myfyriwr wedi cwblhau rhaglen Ysgol Fusnes Aberystwyth/Arweinyddiaeth Menter a Busnes gyda llawer yn mynd ymlaen i ennill Tystysgrif Uwchraddedig mewn Arweinyddiaeth Newid. Ar ôl i'r modiwlau hyn gael eu cyflwyno'n llwyddiannus ar safle Menter a Busnes, cafodd y Coleg Amaeth, Bwyd a Menter Wledig (CAFRE) ym Melffast ei gymeradwyo fel safle ychwanegol ar gyfer cyflwyno MMM5920 Hwyluso Arweinyddiaeth Sefydliadol yn 2016. Mae'r Dilysiad gyda'r darparwr preifat Menter a Busnes wedi profi i fod yn fodel DPP cryf gyda chymhwysiad ychwanegol y modiwlau dilys i raglenni gan gynnwys rhaglen Dysgu o Bell yn IBERS a thrafodaethau cyfredol ynglŷn â throsglwyddo credydau i ddysgwyr Menter a Busnes ar gyfer rhaglen MBA PA.

## Coleg Milfeddygol Brenhinol - Gradd (Israddedig) ar y cyd (BVSc Gwyddor Filfeddygol)

146. Arwyddwyd Memorandwm Cytundeb ar gyfer Gradd ar y Cyd (BVSc) yn lansiad Ysgol Milfeddygaeth Aberystwyth ddydd Gwener 28 Chwefror 2020. Mae'r model gradd ar y cyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr meddygaeth filfeddygol astudio rhan un o'r radd (cyn-glinigol) ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mlynyddoedd 1 a 2 y rhaglen radd, yna'n trosglwyddo i'r Coleg Milfeddygol Brenhinol, Llundain ar gyfer rhan dau (clinigol) ym mlynyddoedd 3-5 y rhaglen. Yna caiff y wobr ei dyfarnu ar y cyd ar ôl ei chwblhau'n llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae PA wedi croesawu'r garfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi 2021 gyda'r Bwrdd Rhaglen ar y Cyd gweithredol cyntaf wedi'i drefnu ym mis Ionawr 2022.

## Hohai – Cydweddu/ Darpariaeth Addysgu ar y Cyd (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear heb ddyfarniad)

147. Adnewyddwyd Memorandwm Cytundeb a chytundeb Gweinyddiaeth Addysg Tsieina yn 2017 ar gyfer cytundeb cydweddu 2 + 2 ar gyfer Gwyddor yr Amgylchedd, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Mae myfyrwyr yn derbyn gradd o Brifysgol Hohai oni bai eu bod yn dewis trosglwyddo i Brifysgol Aberystwyth ar ôl cwblhau blwyddyn dau, ac os felly, byddant yn derbyn dyfarniad gradd PA ar ôl cwblhau dwy flynedd anrhydedd yn PA yn llwyddiannus. Dim ond pan fydd myfyrwyr cydweddu yn trosglwyddo'n llwyddiannus i Aberystwyth y mae PA yn dyfarnu gradd. Ni roddir dyfarniad PA mewn perthynas â'r rhaglen Tsieineaidd. Fel rhan o gytundeb Gweinyddiaeth Addysg Tsieina, mae Prifysgol Aberystwyth yn cyfrannu at un rhan o dair o'r addysgu ym Mhrifysgol Hohai, gan addysgu 19 modiwl ar draws pedair blynedd y rhaglen radd. Mae hwn yn drefniant sy'n drwm ar adnoddau, ac nad yw'n dod â llawer o fudd i Brifysgol Aberystwyth. Er nad oes gan PA unrhyw ddiddordeb strategol mewn dilyn y model hwn, mae

PA yn ceisio rhoi modd i fwy o fyfyrwyr Hohai i gydweddu i PA.

### Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - MA Cyfieithu (MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd)

148. Daeth staff Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn rhan ffurfiol o'r rhaglenni yn 2017-18, gan addysgu a chynnal y gwaith marcio cyntaf, ond goruchwyliwyd y modiwlau a'r safonau academaidd gan PA. Arwyddwyd cytundeb ym Medi 2019 ar gyfer cyflwyno dau fodiwl ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Cyflwyniad i Gyfieithu ar y Pryd a Hanfodion Isdeitlo) yn rhan o MA Cyfieithu, lle cyflwynir gweddill y modiwlau gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd y Bwrdd Rhaglen ar y Cyd cyntaf ym mis Mai 2021 lle cafwyd sylwadau cychwynnol cadarnhaol iawn gan yr Arholwr Allanol.

### MA Addysg (Cymru)

149. Sefydlwyd y cydweithrediad hwn yn 2018 mewn ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru am strategaeth dysgu proffesiynol cydweithredol achrededig ar gyfer darparu Rhaglen Genedlaethol Meistr mewn Addysg Cymru. Bu saith SAU Cymreig yn rhan o ddatblygiad y rhaglen hon y mae pob partner yn ei chyflwyno ar wahân i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gradd y brifysgol honno yn unig. Mae datblygiadau cyfredol dan drafodaeth sy'n ymwneud â llwybrau rhaglenni ychwanegol.

### American University - Gradd Ddeuol (Uwchraddedig a Ddysgir) (MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol)

150. Arwyddwyd Memorandwm Cytundeb yn ystod haf 2021 ar gyfer Gradd Ddeuol gyda Phrifysgol America (AmU). Mae myfyrwyr yn cael eu derbyn ar raglen MA 10-mis PA mewn Cysylltiadau Rhyngwladol ac yna'n trosglwyddo i Brifysgol America yn Washington DC yn ystod yr haf i gwblhau MA 10-mis arall mewn Gwyddor Wleidyddol ac yna interniaeth ddewisol. Yna mae'r myfyriwr yn ennill Gradd Ddeuol o Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol America ar ôl cwblhau 2-2.5 o flynyddoedd (academaidd) o astudio. Trefnwyd bod y myfyrwyr cyntaf yn dechrau ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, mae materion yn ymwneud â mynediad at fenthyciadau myfyrwyr Americanaidd wedi achosi pryderon ynghylch denu myfyrwyr, sy'n cael eu hadolygu.

Hefyd terfynu Partneriaethau:

### Brickfields Asia College - Cytundeb Rhyddfraint (Busnes / Y Gyfraith)

151. Cytundeb Rhyddfraint Phrifysgol Aberystwyth a Brickfields Asia College (BAC), Malaysia.

Arwyddwyd y cytundeb Rhyddfraint ym mis Rhagfyr 2015 am dymor o bum mlynedd; daeth i ben ym mis Rhagfyr 2020 gyda'r rhaglenni canlynol: L1M1 Economeg gyda'r Gyfraith (BSc), N1M1 Busnes a Rheolaeth gyda'r Gyfraith (BSc), N4M1 Cyfrifeg a Chyllid gyda'r Gyfraith (BSc) ac N5M1 Marchnata gyda'r Gyfraith (BSc). Penderfynwyd peidio ag adnewyddu'r contract rhyddfraint yn haf 2020 oherwydd materion cydymffurfio ac ansawdd parhaus a nodwyd hefyd yn ystod y CPP a gynhaliwyd yn gynnar yn 2020 ac a adroddwyd drwy'r pwyllgor. Mae PA a BAC ar hyn o bryd ym mlwyddyn academaidd olaf y trefniant terfynu dysgu.

152. Er ei bod yn siomedig nad oedd y berthynas a datblygiad y Rhyddfraint rhwng PA a BAC mor hirsefydlog a llwyddiannus ag y cynlluniwyd, mae wedi bod yn gyfle dysgu gwerthfawr dros ben.

153. Mae PA wedi cael dealltwriaeth werthfawr wrth weithio gyda Phartneriaid Rhyngwladol a chyrff Sicrwydd Ansawdd Rhyngwladol drwy ei chysylltiad â BAC. Roedd y gwersi a ddysgwyd drwy'r berthynas hon yn llywio ac yn gwella prosesau ansawdd wrth ymdrin â datblygu partneriaethau rhyngwladol; gan gynnwys proses diwydrwydd dyladwy gadarn a chymesur, gan amlygu pwysigrwydd diwydrwydd dyladwy parhaus drwy'r prosesau monitro, a gwell system werthuso (Cloriannu Perfformiad Partner – CPP) gyda phroses gadarn pan godir 'Testun Pryder'.

154. Mae'r trefniadau Rhyddfraint wedi bod yn brofiad dysgu synhwyrol hefyd ar gyfer ymdrin â chyrff Ansawdd rhyngwladol, y Malaysian Quality Assurance Agency (MQA) yn yr achos hwn. Mae dibyniaeth drom ar y partner (BAC) i gyfathrebu MQA a gofynion eraill perthnasol i'r wlad (llywodraethu, polisïau) ar ran y Rhyddfraint a PB wedi bod yn broblemus. Mae PA wedi ceisio cyngor gan y QAA yn fwy diweddar ynglŷn â rhai o'r anawsterau hyn. Mae PA wedi gweld arbenigedd QAA ar gyrff Ansawdd Rhyngwladol eraill ac adroddiadau dilynol, bwletinau gwybodaeth a gweithdai yn amhrisiadwy a byddai'n cefnogi QAA i gynnig mwy o'r rhyngweithiadau defnyddiol hyn.

155. Mae dod o hyd i gydbwysedd rhwng safonau PA a phrosesau a mesurau rheoli ansawdd a'r addasiadau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno i garfan dramor wedi bod yn anodd hefyd. Yn benodol, bu'n anodd gweld rheswm, ar adegau, dros rai elfennau o wahaniaethau yn yr addysgu a chaniatáu i BAC osod asesiadau addasedig er perthnasedd i'r wlad honno. Cafwyd anawsterau technegol hefyd, gan gynnwys adolygu'r cynnwys a addysgir ar yr amgylchedd dysgu rhithwir a rennir.

156. Dros amser, mae PA wedi ceisio cysoni BAC yn agosach ag arferion PA ac wedi cynnal ymweliad â'r wlad i adolygu'r rhaglen addysgu (2018), i gynnal adolygiad o arfer arholiadau (2019) ac yna wedi cynnal y CPP wedi'i ailgynllunio (2020) o bell oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Oherwydd y cofnod cadarn o faterion a godwyd yng nghofnodion y Bwrdd Rhaglen ar y Cyd ac adroddiadau'r

Tiwtoriaid Cyswllt, a'r adroddiad CPP, roedd yn symlach catalogio'r diffyg hyder parhaus yn ymateb y Partner i unioni'r materion a godwyd. Felly roedd y penderfyniad i ddod â'r trefniant Rhyddfraint i ben a symud ymlaen i derfynu dysgu yn un di-ddadl ac fe'i derbyniwyd.

### Prifysgol Huanghuai – Cydweddu/ Darpariaeth Addysg ar y Cyd (Celf/Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu)

157. Memorandwm cytundeb a chytundeb Gweinyddiaeth Addysg Tsieina gyda denu myfyrwyr cymeradwy o 2014-2018 ar gyfer cytundeb cydweddu 2 + 2 gydag elfennau o gyflenwi rhaglen ar y cyd. Cyfrannodd PA ddarlithwyr gwadd ar gyfer eu rhaglenni mewn: Cyfryngau a Chyfathrebu (Darlledu), Perfformio (Cerddoriaeth a Pherfformio) a Chelfyddyd Gain (Celf). Dim ond pan fydd myfyrwyr cydweddu yn trosglwyddo'n llwyddiannus i Aberystwyth y mae Prifysgol Aberystwyth yn dyfarnu gradd. Ni roddir dyfarniad PA mewn perthynas â'r rhaglen Tsieineaidd. Adolygwyd y cytundeb trosglwyddo ar ddiwedd y contract a gwnaed y penderfyniad strategol i beidio ag adnewyddu ar sail adleoli adnoddau i brosiectau eraill Gweinyddiaeth Addysg Tsieina y mae PA yn eu hystyried yn Tsieina, ac oherwydd y nifer isel o fyfyrwyr cydweddu o ystyried y cyfraniad staffio sydd ei angen ar gyfer y rhaglen. Hysbyswyd y partner o'r bwriad i beidio ag adnewyddu'r contract yn gynnar yn 2019 gyda chadarnhad o fanylion terfynu dysgu a gytunwyd gyda'r partner ym mis Tachwedd 2019. Derbyniodd PA gadarnhad gan y British Council bod y rhaglenni wedi cael eu hadrodd gan Huanghuai fel rhai a ddaeth i ben i Weinyddiaeth Addysg Tsieina ym mis Tachwedd 2019, gyda dysgu'n dod i ben yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2021.

### Darpariaeth Ddoethurol Gydweithredol

158. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn nifer o ganolfannau/partneriaethau hyfforddi doethurol. Ym mhob achos, mae myfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyfer y radd gydag un partner yn unig, a byddant yn cael eu monitro a'u harholi gan y brifysgol honno ac yn ddarostyngedig i'w rheolau a'i rheoliadau a'i gweithdrefnau derbyn. Mae cymryd rhan yn y partneriaethau hyn yn un o nodau strategol y Brifysgol ac yn farc ansawdd yr ydym yn ei geisio, yn ogystal â darparu cyfleoedd dysgu nodedig wedi'u hariannu i fyfyrwyr doethurol, gyda gweithgareddau hyfforddi a datblygu ychwanegol sy'n gysylltiedig â phob partneriaeth, y tu hwnt i weithgareddau ddatblygiad ymchwilydd a gynigir gan PA. Mae lleoliadau diwydiannol a lleoliadau eraill a ariennir hefyd ar gael fwyfwy fel rhan o'r partneriaethau hyn, yn ogystal â dyfarniadau doethurol cydweithredol lle mae partner y tu allan i PA yn ymwneud â'r prosiect. Mae PA yn parhau i fod yn gyfrifol am yr holl drefniadau sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â'r prosiect PhD yn yr achosion hyn.

159. Y partneriaethau sy'n denu myfyrwyr ar hyn o bryd yw:

**Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC**

http://walesdtp.ac.uk/

Partneriaid: Prifysgol Caerdydd (sefydliad arweiniol), Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Gloucestershire.

**Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol AHRC De, Gorllewin a Chymru**

https://www.sww-ahdtp.ac.uk/about/sww2/

Partneriaid: Prifysgol Bristol (arweinydd), Prifysgol Aberystwyth, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Prifysgol Bath Spa, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cranfield, Prifysgol Exeter, Prifysgol Reading, Prifysgol Southampton, a Phrifysgol Gorllewin Lloegr.

**Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Systemau Bwyd BBSRC**

https://research.reading.ac.uk/foodbiosystems/

Partneriaid: Prifysgol Reading (arweinydd), Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Brunel Llundain, Prifysgol Cranfield, Queen’s University Belfast a Phrifysgol Surrey.

**EPSRC CDT mewn Deallusrwydd Artiffisial, Dysgu Peiriant a Chyfrifiadura Uwch**

http://cdt-aimlac.org/

Partneriaid: Prifysgol Abertawe (arweinydd), Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bristol gydag Uwchgyfrifiadura Cymru.

**BBSRC CDT Systemau Bwyd**

https://foodsystems-cdt.ac.uk/

Partneriaid: Prifysgol Greenwich (arweinydd), Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Brunel Llundain, Prifysgol Llundain, y Coleg Milfeddygol Brenhinol, Prifysgol Coleg Llundain a Phrifysgol Sussex, gyda, NIAB EMR a Rothamsted Research.

160. Ar hyn o bryd, mae tua 45 o fyfyrwyr ar wahanol gamau o’u PhD mewn saith adran, gyda chyllid UKRI trwy bedair partneriaeth neu ganolfan hyfforddi. Rydym yn rhan o bumed canolfan, sy’n gweithredu yn ei blwyddyn gyntaf, ond mae pob myfyriwr yn dechrau yn y brifysgol arweiniol, Greenwich, ac yna'n trosglwyddo at un o'r partneriaid i gwblhau'r PhD. Mae cyllid ar gael am

wahanol gyfnodau sy'n adlewyrchu gwahanol amcanion y partneriaethau, gan gynnwys gweithgaredd lleoliad gwaith, ac mewn dau achos y disgwyliad arferol yw y bydd gan fyfyrwyr arolygwyr o ddau o'r partneriaid i gynnig cyfraniad arbenigol ychwanegol a hwyluso astudiaeth ryngddisgyblaethol.

161. Croesewir mynediad i'r ysgoloriaethau ymchwil hyn wrth gwrs, ac mae'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chymorth gwell gan ail arolygydd a phrifysgol ynghyd â phartner diwydiannol o bosib yn cyfoethogi ein darpariaeth ac o fudd i'n myfyrwyr. Fodd bynnag, o ran sicrhau ansawdd, mae'r un trefniadau'n bodoli ag i'r holl fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig eraill.

## Newidiadau ers 2016

### Campws Cangen Mauritius

162. Yn ein dogfen hunanwerthuso yn 2016, trafodwyd agor Campws Cangen Mauritius, fel rhan o'n cynlluniau i sicrhau bod darpariaeth ar gael i farchnadoedd newydd. Roedd hon yn fenter bwysig i ddarparu cyrsiau israddedig ac uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs yn y Gyfraith, Busnes a Rheolaeth, Cyfrifeg a Chyllid, a Chyfrifiadureg. Cynorthwyodd ein partner, Boston Campus Limited, gyda datblygiad y campws newydd ond nid gyda'r addysgu, a gyflwynwyd gan staff lleol yn ogystal â staff teithiol PA. PA oedd yn gyfrifol am, ac yn cadw rheolaeth lwyr dros sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

163. Dechreuodd carfan fechan gychwynnol ym mis Hydref 2015, gyda mwy o bobl yn ymuno â'r rhaglen o fis Mawrth 2016. Fodd bynnag, nid oedd lefel y recriwtio gystal â'r disgwyl (roedd 93 o fyfyrwyr cofrestredig ar y pwynt recriwtio uchaf yn 2016-17) a phenderfynwyd peidio â chofrestru rhagor o fyfyrwyr ar y campws cangen ar ôl mis Mawrth 2017. Yn 2018-19, sef blwyddyn olaf y ddarpariaeth hon, roedd 32 o fyfyrwyr cofrestredig ac roedd 30 ohonynt yn gymwys i ennill graddau, ymadawodd un yn barhaol a methodd un ag ennill y radd. Cefnogwyd y myfyrwyr nes iddynt orffen y cwrs. Gwnaed trefniadau iddynt astudio ar gampws arall ar yr ynys ar ôl i'n campws ni ein hunain gau, a rhoddwyd y dewis iddynt drosglwyddo i Aberystwyth i gwblhau'r radd.

### Trin Marciau Cyfnewid a Marciau Eraill gan Ddarparwyr Eraill

164. Drwy gydol y cyfnod modiwlaidd, cafodd marciau gan ddarparwyr eraill - naill ai gan fyfyrwyr gyda darparwr arall cyn trosglwyddo i PA, drwy gymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid, neu ADB arall - eu cynnwys wrth gyfrif marciau cyfartalog at ddiben pennu dosbarth gradd. Roedd

hyn, wrth gwrs, yn gofyn bod y marciau'n cael eu 'trosi' i gyd-fynd â'n graddfeydd marcio ni. Roedd amrywiaeth y partneriaid a'r gwledydd cysylltiedig, a'r holl wahanol systemau marcio yn golygu bod y broses hon yn un anodd iawn i'w chynnal mewn modd a olygai y gallem fod yn hyderus ei bod yn gynrychiolaeth deg o gyflawniad y myfyriwr ac nid yn aflunio dosbarth eu graddau. Roedd y marciau wedi'u cyfieithu a gyflawnwyd gyda darparwyr eraill weithiau'n anghydnaws â'r perfformiad ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac ni ellid esbonio'r anghysondebau hyn bob amser.

165. Ar ôl ymgodymu â'r mater hwn am beth amser, a chan ein bod yn ymwybodol nad oedd prifysgolion eraill yn ceisio trosi marciau yn y modd hwn, penderfynasom gyfrif credydau a ddyfarnwyd gan ddarparwyr eraill tuag at y radd derfynol, ond peidio â chynnwys marciau yn y cyfartaleddau[198] [199] [200]. Cyflwynwyd y newid hwn ar gyfer myfyrwyr a gychwynnodd ar Ran Un gradd israddedig o fis Medi 2018 neu Ran Dau o fis Medi 2019, a'r rhai oedd yn dechrau ar ddyfarniadau uwchraddedig o fis Medi 2018. Yr unig eithriad yw y byddwn yn cynnwys marciau lle ceir cytundeb partneriaeth gydweithredol ffurfiol sy'n cynnwys system gyflawn ar gyfer mapio graddfeydd marcio llawn, a adolygir yn rheolaidd.

## Dileu Rheoliadau 'Llechen Lân'

166. Cynhaliwyd adolygiad mawr o reoliadau ein graddau israddedig yn ystod 2011-12 a 2012-13, gyda'r nod o'u symleiddio a'u moderneiddio lle bo modd. Cyflawnwyd hyn i raddau helaeth, gyda llawer llai o reolau ar gyfer dilyniant Rhan Un a rheolau dilyniant llymach yn Rhan Dau. Daeth y garfan sylweddol gyntaf drwy'r system o dan y rheoliadau hyn yn haf 2015. Gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr oedd yn gorfod ailsefyll modiwlau cyn y gallent gymhwyso, ond rydym wedi cynnal cyfraddau da o ran cadw myfyrwyr. Mae nifer y credydau y caniateir eu methu er mwyn cymhwyso ar gyfer dyfarniadau - a oedd wedi'i gynyddu mewn adolygiadau blaenorol - wedi'i leihau, gan sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth bod y rhai a raddiodd wedi bodloni canlyniadau dysgu eu rhaglen.-

167. Daethpwyd i adnabod un newid a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwnnw fel rheoliad 'llechen lân'; roedd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf Rhan Dau - lefel 5 - wneud cais i ailadrodd y flwyddyn gyfan ar ôl perfformio'n wael, gan ganslo'r holl farciau, os oeddent naill ai'n dymuno

198 115 Bwrdd Academaidd, Tudalen Glawr Trosi Marciau -23-05-18

199 116 Bwrdd Academaidd – Canllawiau ar y Flwyddyn Dramor – Llawlyfr Ansawdd Academaidd 9_6

200 117 Bwrdd Academaidd, Papur ar Drosi Marciau -2017-18

newid gradd neu ailadrodd yr un radd. Nid oedd yn rhaid iddynt gyflwyno unrhyw achos nac amgylchiadau lliniarol. Caniatawyd i fyfyrwyr oedd yn cyflwyno achos o'r fath ailsefyll modiwlau a fethwyd i gael marciau llawn. Ein polisi erioed oedd bod yn rhaid i farciau a enillwyd yn Rhan Dau gael eu cyfrif tuag at y radd gydag un cyfle yn unig i ailsefyll i gyrraedd y marc pasio wedi'i gapio, ac eithrio lle'r oedd amgylchiadau lliniarol. Ynghyd â'r gofynion dilyniant llymach, ni chai myfyrwyr oedd wedi methu gormod o gredydau yn arholiadau'r semester ac wrth ailsefyll ym mis Awst, barhau. Daethpwyd â'r polisi 'llechen lân' i roi ail gyfle i'r rhai oedd yn fodlon astudio am flwyddyn ychwanegol, a llwyddodd rhai myfyrwyr i wneud hynny, ond perfformiodd eraill yn wael am yr eildro. Arweiniodd hyn at adolygu'r polisi a'i ddirwyn i ben[201] [202]. Nid yw'r myfyrwyr oedd yn dechrau Rhan Dau o fis Medi 2017 ymlaen wedi cael llechen lân. Fodd bynnag, erbyn hyn caniateir dau gyfle iddynt ailsefyll am farciau wedi'u capio fel arfer, felly bydd y rhai nad ydynt wedi ennill digon o gredydau i symud ymlaen ym mlwyddyn gyntaf Rhan Dau, yn cael cyfleoedd i ailsefyll yn derfynol os ydynt yn dymuno parhau.

## Newidiadau i Ddyfarniad y Radd Gyffredin

168. Yn hanesyddol, dim ond ar gynlluniau gradd Mathemateg roedd gradd Gyffredin ar gael yn PA, a hynny fel dyfarniad wrth gefn. Roedd y Bwrdd Academaidd wedi nodi bod confensiynau'r dyfarniad hwn yn caniatáu i fyfyrwyr ar lefel 5 nad oeddent yn gymwys i adael gyda DipHE neu i symud ymlaen i'r radd Anrhydedd drosglwyddo i'r radd Gyffredin a phasio'r radd honno gyda chyfartaledd o 40% waeth faint o gredydau a fethwyd. Ym mis Mai 2017, ystyriodd y Bwrdd Academaidd bapur yn cynnig yr opsiynau o dynnu'r radd Gyffredin yn ôl, neu adolygu'r confensiynau dyfarnu'r radd fel ei bod ar gael i bob myfyriwr fel cymhwyster wrth gefn[203] [204].

169. Y cyngor gan y QAA oedd, er nad oedd y radd Gyffredin yn ymddangos yn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau AU, fe'i cydnabuwyd fel math o radd sy'n 'is' na gradd baglor gydag anrhydedd. Canfu ymgynghoriad o fewn y sector fod llawer o brifysgolion fel mater o drefn yn dyfarnu graddau Cyffredin fel dyfarniadau ymadael/wrth gefn i fyfyrwyr sy'n cwblhau 300 o'r 360 credyd sy'n ofynnol ar gyfer Gradd Baglor gydag Anrhydedd, waeth beth fo'u pwnc.

170. Awgrymodd adolygiad o ddyfarniadau ymadael a gynhaliwyd yn 2015-16 ac yn 2016-17 y byddai tua 40% o'r myfyrwyr sy'n gadael gyda'r Diploma Addysg Uwch fel dyfarniad wrth gefn wedi

201 118 Bwrdd Academaidd – Cynigion Llechen Lân-16-05-16

202 119 Cofnodion y Bwrdd Academaidd detholiad o fis Mai2016 WTSC

203 120 Bwrdd Academaidd papur Gradd Gyffredin, Mai17

204 121 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd Academaidd Mai17-Chwef18 Gradd Gyffredin

cymhwyso ar gyfer gradd Gyffredin 300 credyd pe bai ar gael. Rydym ni'n dyfarnu 80 i 100 DipHE bob blwyddyn ac mae'n debyg y byddai rhwng 30 a 40 o'r myfyrwyr hyn wedi bod yn gymwys i dderbyn y dyfarniad Gradd Gyffredin yn lle'r DipHE.

171. Penderfynodd cyfarfod y Senedd ym mis Mehefin 2017 gymeradwyo mewn egwyddor cael gwared â'r radd Gyffredin bresennol ym mis Medi 2018 i fyfyrwyr newydd. Ym mis Mawrth 2018, ar ôl ystyriaeth bellach gan y Bwrdd Academaidd, cadarnhaodd y Senedd y byddai rheoliadau newydd yn cael eu cyflwyno ar unwaith ar gyfer dyfarnu gradd Gyffredin i fyfyrwyr a oedd wedi dilyn o leiaf 300 credyd yn gyffredinol, gydag o leiaf 60 credyd ar Lefel 3 neu uwch ac wedi ennill yn llwyddo mewn o leiaf 160 credyd dros Ran Dau yn ei chyfanrwydd (ac eithrio modiwlau Lefel S)[205]. Felly mae'r dyfarniad hwn bellach ar gael i bob myfyriwr, yn unol ag arweiniad ac arferion QAA mewn rhannau eraill o'r sector, ac rydym wedi cael gwared â'r anghysondeb o gynnig y cymhwyster mewn un adran yn unig a chyda chonfensiynau nad oeddent yn cyfateb i'r arferion mewn mannau eraill.

## Newidiadau i Reoliadau a Chonfensiynau Arholiadau Graddau Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs

172. Roedd rheoliadau Graddau Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs hefyd wedi'u hadolygu a'u newid ar gyfer myfyrwyr oedd yn dechrau ym mis Medi 2013, eto gyda'r bwriad o leihau cymhlethdod ac amrywiadau ar draws adrannau. Un newid oedd dileu'r pwynt dilyniant mewn gradd Meistr rhwng y modiwlau a ddysgir a'r prosiect (Rhannau Un a Dau). Roedd y rheoliadau diwygiedig yn effeithiol ar y cyfan ac ni chafodd cael gwared â'r gofynion dilyniant effaith ar fyfyrwyr oedd yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr amser llawn nad oeddent yn perfformio'n dda yn cyrraedd y prosiect wedi methu llawer o gredydau yr oedd gofyn iddynt eu hailsefyll ym mis Awst er mwyn cwblhau'r cwrs o fewn blwyddyn. Roedd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar fyfyrwyr oedd eisoes yn ei chael yn anodd gwneud cynnydd.

173. Diwygiwyd y dull hwn ar gyfer myfyrwyr oedd yn dechrau gradd Meistr o fis Medi 2018, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyfyrwyr wrth gywiro methiant. Gwnaed y newid a weithredwyd ar lefel israddedig i ganiatáu dau gyfle i ailsefyll ar gyfer myfyriwyd ar gyrsiau uwchraddedig hefyd (roedd rhai modiwlau lefel M yn gyffredin i raglenni Meistr Integredig a rhaglenni Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs ac felly roedd rheolau ailsefyll cyffredin yn bwysig). Erbyn hyn mae cyfnodau amser penodol ar gyfer pob gradd, y mae'n rhaid iddynt gynnwys unrhyw gyfnodau o

205 122 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.10 Gradd Baglor Gyffredin

ymadael ac ailsefyll, ond rhoddir hyblygrwydd i fyfyrwyr gynllunio’r arholiadau mae angen iddynt eu hailsefyll a'u prosiect. Rhaid i fyfyrwyr llawn amser ailsefyll arholiadau eu modiwlau o fewn dwy flynedd ar ôl dechrau ac mae ganddynt dair blynedd i gwblhau'r radd gyfan. Roedd yn bosib iddynt felly ganolbwyntio ar ailsefyll modiwlau yn y flwyddyn gyntaf a chyflwyno'r prosiect y flwyddyn ganlynol, neu geisio cwblhau'r prosiect ym mlwyddyn un ac ailsefyll modiwlau yn ddiweddarach. Mae'r Bwrdd Academaidd wedi gwneud asesiad rhagarweiniol o effaith y newidiadau hyn, er bod Covid wedi cymhlethu'r gwerthusiad hwn[206]. O'r niferoedd cymharol fach o fyfyrwyr a ddechreuodd yn 2018 a methu â gorffen o fewn blwyddyn, ni lwyddodd o gwmpas eu hanner i gwblhau'r radd o gwbl a llwyddodd yr hanner arall i gwblhau'r radd Meistr neu maent yn dal i aros am ganlyniadau, neu wedi cael dyfarniad interim. Cytunwyd i barhau i adolygu hyn, ond mae'r newidiadau yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr ailsefyll o fewn cyfnod o'u dewis.

## Rhaglenni Newydd

174. Caiff y portffolio ei adnewyddu'n rheolaidd ac mae llawer o raglenni newydd wedi'u cyflwyno ers yr adolygiad diwethaf, yn unol â'r arfer. Mae’r rhain yn cynnwys, er enghraifft, MSc mewn Peirianneg Sbectrwm Radio[207] a ddechreuodd ym mis Medi 2021, mewn cysylltiad â Chanolfan Sbectrwm Genedlaethol Prydain ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac sy’n defnyddio arbenigwyr y diwydiant ochr yn ochr â’r staff academaidd. Ar lefel israddedig, rydym wedi datblygu'r ddarpariaeth bresennol ym maes daearyddiaeth ddynol a ffisegol yn ogystal â gwyddor yr amgylchedd, gwyddor daear amgylcheddol [208] a chymdeithaseg sy'n edrych ar effeithiau newid hinsawdd. Oherwydd maint ac arwyddocâd yr her hon, rydym bellach wedi cyflwyno nifer o raddau newydd gyda’r bwriad o helpu myfyrwyr i ddeall a datblygu atebion i'r her mewn ystod o wahanol gyd-destunau. O 2020-21, mae rhaglenni wedi bod ar gael mewn Bioleg a Newid Hinsawdd; Busnes a Newid Hinsawdd; Economeg a Newid Hinsawdd; Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd; a Chysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd[209].

175. Mae datblygiadau eraill wedi cynnwys ychwanegu blynyddoedd Sylfaen[210] at ystod o wahanol

---

[206] 123 Dadansoddiad y Bwrdd Academaidd o Effaith Newidiadau i Reoliadau Graddau Uwchraddedig trwy Gwrs

[207] https://courses.aber.ac.uk/postgraduate/radio-spectrum/

[208] https://www.aber.ac.uk/cy/dges/prospective/undergraduates/#geography-earth-and-environmental-sciences

[209] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ug-studies/hub/aberystwyth-climate/#climate-change-courses

[210] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/foundation-year/

gynlluniau gradd, a thrafodir hynny mewn man arall. Lansiwyd hefyd radd anrhydedd sengl mewn Cymdeithaseg[211], a derbyniwyd myfyrwyr ar y cynllun hwnnw am y tro cyntaf yn 2019-20. Caiff y radd ei rhedeg gan yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Mae yno nifer o staff addysgu a staff ymchwil sy'n ymchwilio'n weithredol i themâu sydd o ddiddordeb allweddol i gymdeithasegwyr, e.e. symudedd, cenedlaetholdeb, cymdeithas wledig, ac sy'n cyhoeddi'n helaeth mewn cyfnodolion Cymdeithaseg. Mae'r radd yn rhoi pwyslais ar agwedd gwaith maes Cymdeithaseg.

176. Mae nifer o ddatblygiadau eraill yn werth eu nodi oherwydd eu pwysigrwydd strategol, eu cyfraniad at flaenoriaethau cenedlaethol a'u dull partneriaethol[212] [213].

## Doethuriaethau Proffesiynol

177. Ers yr adolygiad diwethaf, mae nifer cynyddol o fyfyrwyr wedi cofrestru ar raddau doethuriaeth broffesiynol. Cyflwynwyd rheoliadau[214] yn y lle cyntaf mewn ymateb i gais gan IBERS i gynnig gradd DAg, fel rhan o ddatblygiad ehangach i'r ddarpariaeth Dysgu o Bell; caiff myfyrwyr gychwyn ar MRes gyda'r opsiwn o barhau i lefel doethuriaeth. Roedd datganiad y QAA ar Nodweddion Gradd Ddoethurol yn adnodd gwerthfawr wrth i ni ddrafftio ein rheoliadau. Dechreuodd rhaglen ddoethuriaeth broffesiynol lawer mwy ei maint yn 2017 ar gyfer myfyrwyr o’r Emiraethau Arabaidd Unedig yn bennaf i ddechrau, ond mae’r cwrs hefyd bellach wedi denu ymgeiswyr o rannau eraill o’r byd ac o Brydain.

178. Mae'r DProf[215] yn rhaglen lawer mwy strwythuredig na'r PhD, gan ddechrau gyda 180 o gredydau a ddysgir trwy gwrs a all hefyd gyfrif fel cymhwyster lefel Meistr. Caiff y credydau hyn eu cyflwyno gan ysgolion preswyl (er bod pandemig Covid wedi golygu symud i ddarpariaeth ar-lein) sy’n meithrin ymdeimlad o gymuned o fewn y garfan ac yn annog rhyngweithio ag arolygwyr. Mae'r elfen a ddysgir trwy gwrs yn tywys ymgeiswyr trwy ddatblygiad y prosiect ymchwil, a hynny drwy fodiwlau hyfforddiant ymchwil generig, hyfforddiant seiliedig ar waith a phrosiectau ymchwil

---

211 https://www.aber.ac.uk/cy/dges/prospective/undergraduates/#cymdeithaseg

212 https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2021/11/title-249095-cy.html

213 https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2022/01/title-249912-cy.html

214 https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/dprof/

215 https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/prospective/dprof/

peilot. Ar ôl hyn, cynhelir prosiect ymchwil seiliedig ar waith, lle bydd modd i ganlyniadau ymchwil ganolbwyntio ar newid sefydliadol neu newid cysylltiedig â pholisi.

179. Mae myfyrwyr Doethuriaeth Broffesiynol yn ffurfio carfan sylweddol o'n poblogaeth Ymchwil Uwchraddedig bellach: tua 20% o'r myfyrwyr sydd wedi cofrestru i astudio doethuriaeth llawn amser a rhan-amser ar hyn o bryd. Myfyrwyr mewn cyflogaeth yw'r rhain, a myfyrwyr y mae'r PhD traddodiadol yn llai addas ar eu cyfer na gradd ymchwil. Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar eu cyflogaeth ac yn cynnig y cyfle o newid sefydliadol a datblygiad personol a gyrfaol. Mae'r myfyrwyr cyntaf bellach wedi eu harholi ac mae'r graddedigion cyntaf wedi cwblhau'r rhaglen. Mae eraill wedi bod angen amser ychwanegol, oherwydd Covid a phwysau cyflogaeth, ac mae angen inni fonitro hynny, ond mae’r rhaglen wedi llwyddo i gynnig llwybr newydd i astudiaeth lefel doethuriaeth ac mae’n edrych yn debygol y bydd yn parhau yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth Ymchwil Uwchraddedig.

## BSc Nyrsio Oedolion a BSc Nyrsio Iechyd Meddwl

180. Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer y rhaglenni newydd hyn[216], a fydd yn derbyn eu myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2022. Mae cynnig cymwysterau nyrsio am y tro cyntaf yn ddatblygiad mawr i Brifysgol Aberystwyth. Dyfarnwyd contract gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i'r Brifysgol gael cynnig y graddau hyn tan ddiwedd y ddegawd hon. Bu’r Brifysgol yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol a Chyngor Sir Ceredigion i gyflwyno’r ddarpariaeth hon, a fydd o fudd er mwyn denu a chadw nyrsys yn lleol. Caiff y myfyrwyr astudio hyd at hanner eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd hyn yn cyfrannu at gyfoethogi gofal iechyd meddwl cyfrwng Cymraeg.

181. Mae'r cyrsiau'n cynnig model cyflwyno newydd i Aberystwyth, sy'n cyfuno theori a lleoliadau ymarferol mewn blwyddyn dair semester. Mae Canolfan Addysg Gofal Iechyd newydd Prifysgol Aberystwyth [217] wedi ei sefydlu ar gampws Penglais, gydag Uned Sgiliau Clinigol - ystafelloedd efelychu lle caiff y myfyrwyr ddysgu ac ymarfer eu sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Datblygir darpariaethau Addasrwydd i Ymarfer newydd, sydd bellach yn rhan o'n LlAA) fel rhan o'r cynlluniau newydd hyn (yn ogystal â'r cynlluniau eraill a nodir isod).

[216] https://www.aber.ac.uk/cy/hec/courses/

[217] https://www.aber.ac.uk/cy/hec/

## BVSc Gwyddor Milfeddygaeth

182. Cynllun a gynigir mewn cydweithrediad â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (RVC), a dechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar eu graddau yn Aberystwyth ym mis Medi 2021[218]. Golyga hyn mai Aberystwyth yw'r brifysgol gyntaf a'r unig brifysgol yng Nghymru i agor Ysgol Gwyddor Milfeddygaeth.

## MA Addysg (Cymru)

183. Derbyniwyd y myfyrwyr cyntaf ar y rhaglen gradd Meistr rhan amser[219] hon ym mis Medi 2021. Fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad rhwng pedair prifysgol yng Nghymru a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Bydd pob prifysgol yn cyflwyno'r un cwrs, gan sicrhau bod pob gweithiwr addysg proffesiynol yng Nghymru yn cael yr un cyfle i wella ei wybodaeth broffesiynol ac i wella ei ymarfer proffesiynol. Mae natur gyfunol y cwrs wedi gofyn ein bod yn mabwysiadu mwy o reoliadau ar gyfer y cynllun hwn nag sy'n angenrheidiol ar gyfer ein cynlluniau Meistr eraill, er mwyn cyd-fynd â threfn ein partneriaid. Bwriedir y cwrs ar gyfer athrawon sydd wedi cymhwyso'n barod ac sydd wrthi'n gweithio ac mae nawdd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi athrawon sydd ym mlynyddoedd 3-6 yn eu gyrfaoedd.

## MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

184. Cefnogir cynllun Cynhyrchu Cyfryngau Uwch[220] gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi sector diwydiannau creadigol Cymru drwy hyfforddi gweithwyr proffesiynol a graddedigion i fanteisio ar dechnolegau newydd ym maes cynhyrchu cyfryngau. Cyflwynir y cwrs fel cynllun amlddisgyblaethol rhwng yr adran Gyfrifiadureg ac adran Astudiaethau'r Theatr, Ffilm a Theledu. Mae'r cwrs wedi cyrraedd rhestr fer Menter Cyfnewid/Trosglwyddo Gwybodaeth y Flwyddyn yng Ngwobrau 'THE Awards' 2021.

# Ymateb i Bandemig Covid

185. Yn amlwg, achosodd y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 heriau enfawr yn genedlaethol ac i'r byd, ond roedd yr her i brifysgolion yn un neilltuol. I'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr ar gynlluniau gradd,

---

[218] https://cyrsiau.aber.ac.uk/undergraduate/vet-sci/

[219] https://cyrsiau.aber.ac.uk/postgraduate/education-wales/

[220] https://cyrsiau.aber.ac.uk/postgraduate/advanced-media-production/

digwyddodd y cyfnod clo tua diwedd eu hail semester. Roedd ychydig wythnosau o ddysgu ar ôl. Roedd rhywfaint o asesiadau gwaith cwrs (gan gynnwys rhai traethodau hir blwyddyn olaf) wedi eu cwblhau ac roedd eraill ar eu canol ac, wrth gwrs, roedd yr arholiadau diwedd blwyddyn wedi eu trefnu ar gyfer mis Mai. Bu'n rhaid cwblhau'r flwyddyn academaidd drwy gyflwyno'r addysg a'r asesiadau oedd ar ôl gystal ag y bo modd, er mwyn i'r myfyrwyr gael penderfyniadau ar eu cynnydd a chanlyniadau terfynol yn unol â'r cynllun arferol i'r fath raddau ag yr oedd hynny'n bosib, gan sicrhau nad oedd myfyrwyr dan anfantais a bod y safonau academaidd yn cael eu cynnal.

186. Wrth gynllunio sut i weithredu, roeddem yn ystyried dull prifysgolion eraill o ymateb ac yn ystyried hefyd y Canllaw Thematig a ddatblygwyd gan y QAA. Symudodd PA i ddarpariaeth ar-lein ddydd Llun 23 Mawrth 2020. Symudwyd pob un o derfynau amser yr ail dymor ymlaen un wythnos a therfynau amser y trydydd tymor yn ôl y modiwl, gan gynnwys modiwlau traethawd estynedig lle roedd hynny'n briodol. Ar ôl ymgynghoriad, penderfynwyd nad rhoi estyniad cyffredinol i bob un o asesiadau'r trydydd tymor oedd orau i'r myfyrwyr a'r staff o reidrwydd, oherwydd effaith ganlyniadol gwthio'r terfynau amser i gyfnod arholi semester dau. Drwy fis Mawrth a mis Ebrill, gweithiodd y staff academaidd ar gynllunio asesiadau priodol a gwneud trefniadau ar gyfer asesiadau amgen yn lle'r arholiadau ar y campws.

187. Sefydlwyd Gweithgor i arolygu'r addasiadau a wnaed i'r rheoliadau, gweithrediad cyfnod asesu amgen semester dau, y gwaith o baratoi ar gyfer y byrddau arholi rhithiol, a'r trefniadau ar gyfer cyfnod asesu mis Awst. Roedd y grŵp yn cyfarfod yn wythnosol ac roedd y cofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd (darperir nodiadau'r grŵp fel rhan o dystiolaeth y pecyn gwybodaeth flaenorol 580). Symudwyd byrddau arholi Adrannol a'r Senedd ymlaen bythefnos er mwyn rhoi digon o amser ar gyfer marcio a rheoli'r byrddau arholi rhithwir. Ym mis Mehefin 2020, adroddodd y grŵp yn ôl i'r Bwrdd Academaidd ar y camau a gymerwyd i geisio sicrhau bod y pandemig, ers ei ddechrau, yn amharu cyn lleied â phosib ar astudiaethau, darpariaeth academaidd ac asesiad y myfyrwyr[221]. Ar ôl penderfyniad y Senedd i gymeradwyo diwygiadau i reoliadau'r cynlluniau gradd,[222]cyhoeddwyd i bob myfyriwr ddeg egwyddor oedd yn llywio penderfyniadau PA.

188. Ystyriodd y Gweithgor y dull 'rhwyd ddiogelwch' neu 'dim anfantais' a ddefnyddiwyd gan brifysgolion eraill, a oedd yn sicrhau na allai marc cyfartalog cyffredinol myfyrwyr am y flwyddyn fod yn is na'u marc cyfartalog hyd at y cyfnod clo. Byddai hyn wedi golygu, i rai myfyrwyr ar eu

[221] 124 Detholiad o gofnodion y Bwrdd Academaidd yn adrodd ar effaith Covid ym mis Mehefin 2020

[222] 125 Egwyddorion arweiniol ar ddiwygiadau i reoliadau academaidd mewn ymateb i Covid-19

blwyddyn olaf, penderfynu ar ddyfarniadau ar sail y nifer fechan iawn o gredydau lefel 6 neu 7 a gyflawnwyd heb gynnwys prosiectau mawr, ac nid oeddem yn gyfforddus gyda'r dull hwnnw. Yn lle hynny, roedd yn well gennym geisio ennill cymaint o gredydau â phosib a seilio'r dyfarniadau ar y credydau a gwblhawyd. Y 'rhwyd diogelwch' oedd y gallai myfyrwyr oedd yn gymwys i gael dyfarniadau ond nad oeddent yn fodlon â'u canlyniadau ailsefyll credydau am farciau llawn er mwyn gwella dosbarth y radd neu gyfartaledd y flwyddyn. Gallai myfyrwyr nad oeddent yn llwyddo ailsefyll hefyd er mwyn cael marciau llawn. Dim ond pe byddent yn well na'r marciau gwreiddiol y byddai'r canlyniadau hyn yn cyfrif. Nodwyd y ddeg egwyddor a gymeradwywyd gan y Senedd mewn gohebiaeth i'r holl fyfyrwyr[223]. Roeddent hefyd yn cynnwys:

a. Bod yn ofynnol i fyfyrwyr roi cynnig ar asesiadau amgen yn lle arholiadau ffurfiol pan fo dros 50% o asesiad y modiwl yn digwydd drwy arholiad, pan fo angen asesiadau o'r fath at ddibenion achredu, neu pan fo'r asesiadau'n hanfodol i sicrhau bod Deilliannau Dysgu'r cynllun cyffredinol yn cael eu cyflawni. Fel arall, byddai marc y modiwl yn seiliedig ar yr asesiad gorffenedig.

b. Bod yn rhaid gwneud addasiadau rhesymol i asesiadau o bell/ar-lein ar gyfer myfyrwyr y nodir fod ganddynt anghenion DSA.

c. Na fyddai gofyn i fyfyrwyr gyflwyno ffurflenni Amgylchiadau Arbennig a thystiolaeth ar gyfer modiwlau a aseswyd yn ystod semester dau; byddai myfyrwyr oedd yn methu â chwblhau asesiadau semester dau, am ba bynnag reswm, yn cael cyfleoedd i ailsefyll heb eu capio yn awtomatig os na chyflwynir neu os methir â chyflwyno asesiadau; dim ond dros dro ar gyfer y cyfnod asesu hwn yn unig y bydd drefn hon o atal ein gweithdrefn Amgylchiadau Arbennig arferol mewn grym.

Ym mis Mai 2020, cymeradwyodd y Senedd atodiad i gonfensiynau arholiadau ac ymestyn y ffin 1% i 2% ar gyfer gweithredu'r rheol pwysau marciau o fewn y trothwy, yn ogystal â phrotocol cysylltiedig ar gyfer y Panel Amgylchiadau Arbennig[224].

189. Byddai dosbarthiadau graddau yn seiliedig ar yr asesiadau a gwblhawyd a byddai unrhyw fodiwlau (megis modiwlau gwaith maes) lle na ellid cwblhau asesiad yn cael eu diystyru o gyfrifiad y canlyniadau.

---

[223] 126 Neges ynglŷn ag asesu i fyfyrwyr Covid19 6 Ebrill20

[224] 127 LlAA4 Adendwm-Covid-19 i Gonfensiynau Arholiad 2020

190. Gwnaed ymdrech sylweddol i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n glir ac yn hygyrch trwy e-byst gyda'r staff a'r myfyrwyr, a bod yr ohebiaeth yn cael ei archifo ar y we[225]. Datblygwyd rhestr helaeth o Gwestiynau Cyffredin i ymgeiswyr, myfyrwyr a staff ac mae'n parhau i gael ei diweddaru[226]. Mae gwasanaethau cymorth, yn enwedig yn y Gwasanaethau Gwybodaeth, wedi bod yn hollbwysig wrth helpu myfyrwyr a staff i drosglwyddo i ddysgu ac asesu ar-lein. Er gwaethaf yr addasiadau a wnaed, mae'r Brifysgol yn dal yn hynod ymwybodol o'r heriau parhaus roedd y myfyrwyr a'r staff yn eu hwynebu yn ystod y sesiwn hon.

191. Roedd yn hollbwysig sicrhau ein bod yn cynnal ac yn dal gafael ar ein safonau academaidd, gan gynnwys y rhai a ddarperir gyda phartneriaid neu gan bartneriaid. Hysbyswyd yr Arholwyr Allanol am natur y newidiadau i'r drefn asesu a'r trefniadau ar gyfer gweithredu rhith-fyrddau arholi. Gweithiodd y Tîm Partneriaeth yn agos gyda'r holl bartneriaid ac adrannau academaidd, gan roi cymorth iddynt gyda threfniadau, addasiadau i asesiadau, marcio, cymedroli a byrddau arholi.

192. Arolygodd y Senedd, drwy'r Bwrdd Academaidd, addasiadau i'r dysgu a'r asesu yn ystod y sesiwn academaidd hon mewn ymateb i gyfyngiadau newidiol Covid-19, gan wneud yn siŵr bod yr ansawdd yn cael ei sicrhau a'r safonau academaidd yn cael eu cynnal yn barhaus [227] [228] [229]. Yn ystod haf 2020, roedd yn ofynnol i bob aelod o staff ddilyn hyfforddiant a ddarparwyd gan yr UDDA[230] mewn addysgeg ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio addysg ar-lein oedd yn weithredol a deniadol, cyfarwyddyd ar ddefnyddio pecynnau meddalwedd, materion hygyrchedd, a chyflwyno darlithoedd wedi'u recordio ac adnoddau addysgu allweddol eraill yn briodol. Roedd yn ofynnol i bob adran fynychu, a pharhau i weithio'n agos gyda Chofrestryddion eu Cyfadran i gofnodi unrhyw newidiadau sylweddol i fodiwlau a gofynion asesu amgen. Addaswyd y rhaglen DPP a chafodd sesiynau ychwanegol eu cynllunio a'u datblygu oherwydd y cynnydd mewn dysgu ar-lein. Nod y rhaglen DPP hon oedd ategu'r hyfforddiant a gyflwynwyd i'r holl staff. Bu digwyddiadau arfer gorau, Fforymau Academi, Cynadleddau, a gweithdai a gynhaliwyd gan Siaradwyr Allanol hefyd yn fodd i wella ansawdd addysgu ar-lein.

---

[225] https://www.aber.ac.uk/cy/important-info/together-in-aber/covid-19-student-updates/covid-19-student-updates-2020/#update-----at-:

[226] https://www.aber.ac.uk/cy/important-info/together-in -aber/

[227] 124 Detholiad o gofnodion y Bwrdd Academaidd yn adrodd ar effaith Covid ym mis Mehefin 2020

[228] 128 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd Academaidd o fis Gorffennaf 2020

[229] 129 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd o fis Medi 2020

[230] 130 Bwrdd Academaidd - Rhaglen Hyfforddi'r Uned Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi

193. Yng ngoleuni'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer diwedd blwyddyn academaidd 2019-20, symudodd y Brifysgol i ddull cyflwyno cyfunol yn 2020-21. Cafodd y Gweithgor brys ar reoliadau ei gau yn ffurfiol a chafodd materion sicrhau ansawdd cysylltiedig â'r pandemig eu trin yng nghyfarfodydd rheolaidd y Deoniaid Cyswllt drwy gydol y sesiwn; galwyd y Gweithgor yn ôl dros dro i wneud argymhellion i liniaru effaith barhaus y pandemig ar addysgu ac asesu yn semester un a dau, a chafodd yr argymhellion eu dwyn gerbron y Senedd ym mis Chwefror.

194. Cynhaliodd Pwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau (PMACau) gyfarfodydd ychwanegol yn haf 2020 er mwyn ystyried y newidiadau i'r ddarpariaeth ar lefel modiwl a chynllun, yng ngoleuni'r cyngor iechyd a roddwyd i'r cyhoedd a rheolau Llywodraeth Cymru, lle cyfiawnhawyd bod y newidiadau'n ymateb angenrheidiol i'r anawsterau a achoswyd gan y cyfyngiadau[231] [232] [233]. Yng nghyd-destun y cyngor iechyd i'r cyhoedd yn yr hydref a'r gaeaf diwethaf oedd yn newid yn gyflym, a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig, penderfynwyd cadw'r addasiadau i'r ddarpariaeth. Yn gyffredinol, ni wnaed newidiadau ar lefel cynllun, ond cafodd rhai modiwlau dewisol eu dileu er mwyn cynnal rhaglen addysgu gynaliadwy, a chafodd y drefn asesu a'r drefn gyflwyno eu haddasu yn ôl yr angen. Gofynnwyd i'r Dirprwy Is-Gangellorion (DIG) a'r Deoniaid Cyswllt (Cyfrwng Cymraeg) gynnal asesiadau effaith ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg [234] [235].

195. Ymlaciwyd yr angen am dystiolaeth i gefnogi ceisiadau am estyniadau ar gyfer semester un a dau 2020-21 yn ogystal â'r gofyniad i gyflwyno ffurflenni amgylchiadau arbennig, a rhoddwyd cyfleoedd awtomatig i fyfyrwyr ailsefyll am farc heb ei gapio (H) pan fethwyd â phasio modiwl (ac eithrio pan roddwyd cosb am Ymddygiad Academaidd Annerbyniol)[236]. Parhawyd â’r ddarpariaeth a roddwyd ar waith ar gyfer gweithredu’r Trothwy yn haf 2020, fel rhwyd ddiogelwch i leihau achosion o fyfyriwr unigol yn tanberfformio oherwydd eu hamgylchiadau unigol posib. Estynnwyd y rheolau oedd yn llywodraethau'r trothwy o 1% eto i 2%; cafodd yr amrywiadau yng ngallu myfyriwr unigol i ymgysylltu yn ystod y sesiwn eu lliniaru drwy'r cyfleoedd i fyfyrwyr ailsefyll am farc heb ei gapio.

---

[231] 131 Cofnodion Pwyllgor Materion Academaidd Cyfadran CBGFf-2-07-20

[232] 132 CBGFf- modiwlau Ysgol Fusnes Aberystwyth -2021

[233] 133 Newidiadau Asesu - Blwyddyn Academaidd 2020-21 - Fersiwn 2-07-21

[234] 134 Y Bwrdd Academaidd - Cofnodion Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg-01-10-20

[235] 135 Cofnodion PMAC Cyfadran Celf a Gwyddorau Cymdeithasol detholiad o asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Hydref 20

[236] 136 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.18.1 Ychwanegiad Covid-19 at Gonfensiynau Arholiadau 2020-21

Rhoddwyd un cyfle arall hefyd i fyfyrwyr wella marc unrhyw fodiwl a basiwyd ar sail 'dim anfantais', h.y. y marc uchaf fyddai'n sefyll. Roedd yn rhaid cymryd y cyfle hwnnw ym mis Awst oni bai bod amgylchiadau arbennig bryd hynny. Rhoddwyd un cyfle hefyd i fyfyrwyr y flwyddyn olaf dderbyn neu wrthod dosbarth dangosol pan gyhoeddwyd y canlyniadau ar ddiwedd y sesiwn (dim ond yn achos graddau Baglor a Meistr â dosbarth roedd hyn yn berthnasol). Roedd y rheolau arferol yn gymwys o ran symud ymlaen, h.y. nid oedd unrhyw lacio ar y gofyniad bod myfyriwr yn pasio 100 credyd er mwyn symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Datblygwyd y trefniadau hyn mewn trafodaeth drwy gyfarfodydd y Deoniaid Cyswllt a thrwy ymgysylltu â swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr drwy gydol y cyfnod, a chawsant eu cymeradwyo mewn cyfarfod arbennig o'r Senedd, ym mis Chwefror 2021, y gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Academaidd iddo hefyd.

196. Cynhaliwyd asesiadau yn lle arholiadau yn y neuadd yn ystod y flwyddyn a pharhaodd yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu (UDDA) i roi cymorth hanfodol i staff a myfyrwyr wrth ddefnyddio'r ADRh ac ymgysylltu ag asesiadau a'u cyflwyno ar-lein wrth i'r gymuned academaidd ddysgu ac addasu i addysgu a dysgu ar-lein. Roedd staff UDDA PA hefyd yn rhan fawr o Adolygiad Thematig y QAA o waelodlin ansawdd dysgu digidol yng Nghymru. Roedd rhan o'r prosiect yn ymwneud â gweithgaredd JISC ar Lais y Myfyrwyr ac agwedd arall oedd deall y waelodlin ar gyfer y sector mewn perthynas â gweithgaredd digidol. Cynlluniwyd yr adolygiad i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun gwella dysgu digidol ar draws y sector ar gyfer y ddwy flynedd academaidd nesaf a chyflwynwyd y set gyntaf o ganfyddiadau mewn Digwyddiad Rhannu Arfer QAA ym mis Medi 2021.

197. Tua hanner olaf y sesiwn, dywedodd y Deoniaid Cyswllt fod yr adrannau o blaid cael gwared â'r trefniadau oedd yn golygu bod caniatâd awtomatig i ailsefyll am farc heb ei gapio a ddaeth i rym dros dro oherwydd Covid-19. Ar gyfer cyfnod yr arholiadau atodol, penderfynodd y Senedd ei bod yn briodol mynd yn ôl at ddisgwyl i fyfyrwyr gyflwyno ffurflenni amgylchiadau arbennig, gan roi mwy o hyblygrwydd ynghylch gofynion tystiolaeth ategol[237] [238] [239] . Mae'r sefyllfa hon wedi ei pharhau ar gyfer sesiwn 2021-22, sef bod disgwyl i fyfyrwyr gyflwyno ffurflenni amgylchiadau arbennig a gofyn am estyniadau fel yn y cyfnod cyn y pandemig. Cydnabyddir ar yr un pryd nad oes modd i fyfyrwyr gael tystiolaeth ddogfennol annibynnol o reidrwydd ym mhob amgylchiadau a chaniateir i fyfyrwyr roi disgrifiad manwl o'u hamgylchiadau arbennig a'r effaith ar eu hasesiad(au)

[237] 137 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.18.2 Ychwanegiad Covid-19 at Gonfensiynau Arholiadau – Cyfnod Asesu Ailsefyll yr Haf, Awst 2021

[238] 091 Cynllun Gweithredu Strategaeth PA ar gyfer Marchnata a Denu Myfyrwyr PA 2019-23

[239] 139 Detholiad o'r Senedd 23 Mehefin 2021 dychwelyd at Ffurflenni Amgylchiadau Arbennig

ac egluro pam na fu’n bosib cael tystiolaeth. Serch hynny, bydd tystiolaeth annibynnol yn dal yn ofynnol er mwyn cael eu hystyried yn y Trothwy, Apeliadau Academaidd, ac Adolygiadau Terfynol. Bydd adolygiad ehangach o amgylchiadau arbennig ac estyniadau yn cael ei gynnal nawr, gan ystyried Canllawiau Arfer Da SDA ar Ystyriaeth Ychwanegol; ac fel rhan o'r ymarfer hwn, edrychir ar y gallu i reoli'r prosesau ar-lein, gan gysylltu'n uniongyrchol â'r system cofnodion myfyrwyr.

198. Roedd traethodau estynedig [240] y graddau Meistr yn dod o dan y polisi ailsefyll am farc heb ei gapio a chaniatawyd i fyfyrwyr gyflwyno ffurflen Effaith Covid-19 [241] gyda'u traethodau estynedig ar gyfer graddau Uwchraddedig a Ddysgir trwy Gwrs, yn amlinellu sut roedd cyfyngiadau'r pandemig wedi effeithio ar eu gwaith.

199. O ran y myfyrwyr ymchwil, cynigiodd UKRI, dros amryw gyfnodau ac mewn gwahanol ffyrdd, ariannu'r cyfle i wneud cais am estyniadau i gyllid lle nad oedd modd i'r myfyrwyr liniaru effaith Covid ar eu prosiectau. Llwyddodd sefydliad arall sy'n un o gyllidwyr pwysig ein myfyrwyr ymchwil, Knowledge Economy Skills Scholarships (KESS 2), i ddarparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i'w myfyrwyr hwy. O ran y myfyrwyr oedd yn derbyn cyllid gan PA, roeddem yn arwain cais i 'Gefnogi sylfaen ymchwil Cymru yn ystod Covid' gan Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch CCAUC. Arweiniodd y prosiect Cymru gyfan hwn i gefnogi myfyrwyr ymchwil, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, a gweithgareddau ymchwil yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig at ddyfarniad cyllid o £7.6 miliwn. Y defnydd dybryd a wnaed o'r cyllid gan y partneriaid oedd cefnogi ceisiadau am estyniadau i gyllid i fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig a staff ymchwil yr effeithiwyd arnynt gan Covid. Ym Mhrifysgol Aberystwyth, roedd modd i ni gynnig estyniad o ddau neu, i'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr, dri mis[242].

200. Rydym yn gwerthfawrogi nad oedd estyniadau cyllid ar gael i rai myfyrwyr. Eglurwyd y byddem yn edrych yn gydymdeimladol ar estyniadau i derfynau amser oherwydd Covid ac y byddem yn cymeradwyo estyniadau o chwe mis heb y gofynion tystiolaeth arferol lle bo angen. Penderfynasom yn erbyn rhoi estyniad i bob myfyriwr ymchwil fel y gwnaeth rhai sefydliadau. Roedd yn well gennym gynnig sicrwydd y gallai amser ychwanegol fod ar gael a gadael i'r myfyrwyr ofyn am estyniadau os oedd angen, am cyhyd ag y bo angen. Gallai'r effaith ar brosiectau unigol amrywio'n sylweddol. Amharwyd ar y defnydd o'r labordai a'r llyfrgell ar y campws am fisoedd

[240] 136 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 4.18.1 Ychwanegiad Covid-19 at Gonfensiynau Arholiadau 2020-21

[241] 140 Ffurflen Effaith ar Draethawd Estynedig Uwchraddedig

[242] 141 Detholiad o Bwyllgor Graddau Ymchwil 05-20

lawer ac effeithiwyd ar waith maes nifer o fyfyrwyr hefyd. Nid oedd yr amodau gweithio'n ddelfrydol i nifer o'r myfyrwyr a dim ond yn raddol y bu’n bosib i ni ailagor mannau astudio. Yn yr un modd â phrifysgolion eraill, bydd yr estyniadau hyn yn golygu gostyngiad sylweddol yng nghyfradd y myfyrwyr sy’n cwblhau PhD llawn amser o fewn pedair blynedd ar ôl dechrau.

201. Pan ddaeth yn amlwg bod y pandemig yn mynd i barhau i effeithio ar rai prosiectau ymchwil am gyfnod hwy, cyflwynwyd ffurflen effaith Covid ar gyfer myfyrwyr ymchwil olraddedig hefyd[243] y gellid ei chyflwyno gyda'r traethawd estynedig i roi gwybod i'r arholwyr ac i ddarllenwyr y dyfodol am y newidiadau roedd angen eu gwneud i fethodoleg, dull casglu data neu agwedd arall ar y prosiect o ganlyniad i Covid. Daeth cymorth hefyd ar ffurf cyhoeddi canllawiau QAA ar safonau doethurol ar gyfer myfyrwyr ac arolygwyr ymchwil. Roedd y canllawiau'n cynnig sicrwydd y gallai'r myfyrwyr ymchwil ddal i gyrraedd y safon angenrheidiol ar gyfer eu dyfarniad a dangos cyflawniad 'galluoedd ehangach' deiliad PhD hyd yn oed os byddai swm yr ymchwil yn llai na'r gobaith.

202. O ran arholiadau myfyrwyr ymchwil olraddedig, yr arfer cyn y cyfnod clo oedd cynnal vivas wyneb yn wyneb yn Aberystwyth, gyda'r gred bod hyn yn rhoi'r profiad gorau i'r ymgeisydd ac yn sicrhau uniondeb yr arholiad. Gallai Pennaeth Ysgol y Graddedigion ganiatáu, mewn amgylchiadau eithriadol, defnyddio dull electronig i adael i un  person ymuno o bell, yr arholwr allanol fel arfer a'r myfyriwr yn llai aml, os byddai bod yn bresennol yn Aberystwyth o fewn cyfnod rhesymol yn peri problem, neu lle codai problemau munud olaf a fyddai wedi golygu gohiriad ac oedi sylweddol fel arall.

203. Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, ataliwyd y canllawiau arferol er mwyn i fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig gael bwrw ymlaen â viva ar-lein gyda phawb yn cysylltu o bell, er mwyn osgoi oedi ac ansicrwydd. Roedd staff o'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu ar gael i gynorthwyo gyda threfnu vivas lle bo angen, gan ddefnyddio Teams, oni bai nad oedd modd i'r cyfranogwyr ddefnyddio'r feddalwedd honno. Gan fod Teams yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Brifysgol, roedd yn gyfarwydd i'r staff a'r myfyrwyr mewn dim o dro, a chyflawnwyd y vivas ar-lein yn esmwyth ym mhob achos bron. Pan oedd yn rhaid i arholwyr fod yn bresennol er mwyn gweld arddangosfeydd celfyddyd gain neu ymarferion creadigol eraill, roedd yn rhaid cynnal asesiadau risg o'r ymweliadau hyn yn unol â chanllawiau’r llywodraeth ar y pryd. Roedd y rhan fwyaf o brifysgolion mewn sefyllfa debyg ac wedi cynnal trafodaethau tebyg ynghylch sut i gynnal vivas myfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig yn y dyfodol. Y cwestiwn allweddol oedd a ddylid newid y sefyllfa

[243] 142  Prifysgol Aberystwyth - FFURFLEN EFFAITH COVID - Myfyrwyr Ymchwil - Cym

i weithrediadau ar-lein yn ddiofyn. Ein dewis o hyd yw cynnal vivas wyneb yn wyneb yn ddiofyn, ond byddwn yn llawer mwy agored i geisiadau i gynnal vivas electronig. Rydym yn cydnabod bod manteision niferus i gynnal vivas ar-lein; lleihau costau teithio a chostau cysylltiedig, cynnwys arholwyr allanol na fyddai modd iddynt gymryd rhan fel arall, a'i gwneud yn haws pennu dyddiad ac amser addas heb oedi gormodol. O ystyried bod pawb wedi dod yn fwy cyfforddus â Teams a thechnolegau tebyg eraill dros gyfnod y cyfyngiadau symud a bod y technolegau wedi gwella, rydym yn rhagweld y bydd vivas ar-lein yn dod yn llawer mwy cyffredin. Serch hyn bydd rhai myfyrwyr a staff yn dal yn fwy cyfforddus gyda'r viva wyneb yn wyneb, sy'n rhoi mwy o gyfle i gael ôl-drafodaeth a chymdeithasu ar ôl y viva, a all fod yn elfen bwysig o'r broses.

204. Gwneir ymdrech sylweddol o hyd i sicrhau ein bod yn dal i gyfathrebu'n glir ac yn hygyrch, trwy e-byst wythnosol i staff a myfyrwyr a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer ymgeiswyr, myfyrwyr a staff[244]. Mae'r gwasanaethau cymorth yn dal yn rhan bwysig hollbwysig o'r gefnogaeth a roddir i'r myfyrwyr a staff o ran cyflwyno ymagwedd gyfunol at addysgu, dysgu ac asesu. Ymysg y gefnogaeth fwy cyffredinol sydd ar waith, i leihau pryder myfyrwyr a'u helpu i allu canolbwyntio ar eu hastudiaethau, mae cymorth mewn meysydd megis cymorth tlodi digidol, mentora academaidd ar-lein, llyfrau llyfrgell drwy'r post, llinell gymorth Covid, cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n gorfod hunanynysu, ad-daliadau llety, a chymorth penodol gan UMAber i fyfyrwyr tramor. Er gwaethaf yr addasiadau a wnaed, mae'r Brifysgol yn dal yn hynod ymwybodol o'r heriau parhaus mae'r myfyrwyr a'r staff yn eu hwynebu.

205. Mae sicrhau bod ein safonau academaidd yn cael eu cynnal, gan gynnwys y rhai a ddarperir gyda neu ar y cyd â phartneriaid, yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r Senedd, drwy'r Bwrdd Academaidd, yn parhau i arolygu sicrwydd ansawdd parhaus a'r gwaith o gynnal safonau academaidd. Hysbysir yr Arholwyr Allanol o natur y newidiadau i'r drefn asesu drwy rith-fyrddau arholi. Mae'r Tîm Partneriaeth yn dal i weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid ac adrannau academaidd, gan roi cymorth iddynt gyda threfniadau, addasiadau i asesiadau, marcio, cymedroli a byrddau arholi.

## Defnyddio Pwyntiau Cyfeirio Allanol

### Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG)

206. Mae Prifysgol Aberystwyth yn bodloni'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd ym Maes

[244] https://www.aber.ac.uk/cy/important-info/together-in-aber/

Ewropeaidd Addysg Uwch, yn gyntaf oll drwy'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, sy'n nodi'n gyhoeddus ein polisïau sicrhau ansawdd. Mae'r LlAA yn ymwneud â chymeradwyo ac adolygu rhaglenni, yn ogystal â dysgu, addysgu ac asesu, gan gynnwys uniondeb academaidd, a derbyniadau a chynnydd. Mae'n nodi cyfrifoldebau staff mewnol a'r defnydd a wneir o ymgynghorwyr allanol.

207. Darperir adnoddau i gefnogi addysg y myfyrwyr a gwaith addysgu'r staff trwy ein hadran Gwasanaethau Gwybodaeth[245] ac yn arbennig ein Huned Gwella Dysgu ac Addysgu[246]. Rydym wedi darparu gwybodaeth fanwl ar sut y cefnogwyd y myfyrwyr a'r staff yn ystod pandemig Covid.

208. Penodir staff addysgu drwy brosesau teg ac eglur yn unol â'u swyddi; Addysgu neu Addysgu ac Ymchwil. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi dyrchafiadau i staff academaidd, a gafodd eu gohirio yn ystod cyfnod y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, bellach yn gweithredu'n flynyddol eto. Caiff y staff gymorth gan y GG fel y disgrifir uchod, ac yn arbennig drwy ein cwrs TUAAU ar ymarfer addysgu[247]. Bwriedir i'r cwrs gefnogi Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (FSPDU) ac mae'n cael ei achredu gan y AdvanceHE. Bydd cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn arwain at Gymrodoriaeth yr AAU. Yn ôl data a ddarperir gan AdvanceHE, rydym yn uwch na chyfartaledd prifysgolion y DU ac wedi gweld cynnydd cyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng nghyfran y staff sydd â rhyw fath o Gymrodoriaeth yr AAU - ychydig dros 50% ar hyn o bryd.

209. O ran gwybodaeth am y ddarpariaeth, rydym yn cadw cronfa ddata o'n cynlluniau astudio[248] sydd ar gael i bawb, yn ogystal â manylion rhaglenni[249] a gwybodaeth am fodiwlau[250]. Mae llawer o wybodaeth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr drwy Blackboard. Mae gwybodaeth ar gael am y defnydd a wneir o ddata i sicrhau ansawdd.

## Cod Ansawdd y Deyrnas Unedig

210. Sefydlwyd ein prosesau sicrhau ansawdd gyda Chod Ansawdd QAA fel y prif bwynt cyfeirio allanol ac, yn ein cyflwyniad i ymarfer Adolygiad Addysg Uwch: Cymru yn 2016, disgrifiwyd yn fanwl y gweithdrefnau sydd ar waith i ymateb i bob adran o'r Cod. Mae ein Llawlyfr Ansawdd Academaidd

---

[245] https://www.aber.ac.uk/cy/is/students/

[246] https://www.aber.ac.uk/cy/lteu/

[247] https://www.aber. ac.uk/cy/lteu/pgcthe/

[248] https://www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/

[249] https://www.aber.ac.uk/cy/programme-specs/index.html

[250] https://www.aber.ac.uk/cy/modules/

yn cyfeirio at y Cod ac fe'i ddatblygwyd i'r diben hwnnw[251]. Cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf o'r Cod ar ddiwedd 2018 a'n bwriad oedd gwneud cymhariaeth fanwl o'n polisi a'n gweithdrefnau gyda'r fersiwn newydd. Gwnaethpwyd rhywfaint o'r gwaith hwn ond gohiriwyd y dasg gyfan er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pandemig Covid. Mae paratoadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd wedi bod yn gyfle gwerthfawr i ni adolygu ein dull o fodloni'r egwyddorion allweddol a chael adborth gan QAA ar unrhyw feysydd a allai fod angen sylw. Er na chyflawnwyd cymhariaeth lawn mewn perthynas â'r Cod ar adeg ei gyhoeddi, rydym wedi cyfeirio'n gyson at y Cod wrth ddiweddaru ein Llawlyfr Ansawdd, er mwyn sicrhau y cedwir ato. Isod disgrifiwn rai o'r meysydd lle mae newidiadau wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf.

## Derbyn a Denu Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad

211. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys penodau ar wahân ar gyfer derbyn israddedigion[252] ac uwchraddedigion[253]. Y penodau hyn yw ffynhonnell ganolog yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â derbyniadau ar y lefel astudio berthnasol. Maent hefyd yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd a'r hyn a ddisgwylir gan y rhai sy'n ymwneud â dewis israddedigion ac uwchraddedigion.

212. Yn ogystal â'r bennod berthnasol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, cyfeirir ymgeiswyr llwyddiannus at y Telerau ac Amodau[254] [255] sy'n berthnasol i lefel eu hastudiaeth arfaethedig a'r flwyddyn dderbyn. Mae'r telerau ac amodau'n berthnasol i'r gwasanaethau academaidd a'r gwasanaethau cysylltiedig y mae myfyrwyr yn eu derbyn ar y cyd â'u rhaglen astudio ac yn rhan o'r cytundeb hwn rhwng PA a'r myfyriwr.

213. Mae'r israddedigion sy'n derbyn cynnig yn cael copi o'n llyfryn 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus'[256], a gynhyrchwyd gan yr adran Marchnata a Derbyn Myfyrwyr sydd, ymhlith pethau eraill, yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr am eu cynnig a beth sy'n digwydd nesaf, sut i wneud cais am lety, cyfleusterau sydd ar gael yn PA, gwybodaeth am ffioedd dysgu, ysgoloriaethau,

---

[251] 143 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 1.2 Systemau Sicrhau Ansawdd

[252] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/ug-admissions/

[253] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/pg-admissions/

[254] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ug-studies/terms-conditions/

[255] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/pg-studies/terms-conditions/

[256] 144 Llyfryn Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus Mynediad 2022

bwrsariaethau a chyllid arall. Mae'r llyfryn hefyd yn nodi beth i’w ddisgwyl o ran addysg a dysgu, cyfleoedd profiad gwaith a gwasanaethau gyrfaoedd, yr ystod o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael, ymgyrch Dy Lais ar Waith lle caiff myfyrwyr roi adborth ar raglenni academaidd a phrofiad ehangach y myfyrwyr, yn ogystal â rôl a swyddogaeth Undeb y Myfyrwyr. Mae cyhoeddiadau penodol hefyd ar gael ar faterion megis ysgoloriaethau a bwrsariaethau[257], canllaw i rieni[258] ac Aber Y Gymraeg a Chi[259] (addysg a bywyd cyfrwng Cymraeg yn Aber). Gellir gofyn am yr adnoddau hyn neu eu lawrlwytho oddi ar-lein. Maent ar gael hefyd yn ystod Diwrnodau Agored neu ddigwyddiadau recriwtio eraill.

214. Mae'r rhai sy'n derbyn cynnig uwchraddedig yn cael manylion cynhwysfawr am y camau nesaf yn eu llythyrau cynnig pwrpasol, yn ogystal â dolenni i ystod o wybodaeth ddefnyddiol [260]. Mae ystod eang o wybodaeth a chyngor hefyd ar gael i ddarpar fyfyrwyr yn y prosbectysau Israddedig[261] ac Uwchraddedig[262], yn yr arweinlyfrau penodol i'r pwnc ac ar wefan PA (pob un wedi ei gynhyrchu a/neu ei gynnal gan yr adran Marchnata a Denu Myfyrwyr). Er enghraifft, gweler: www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ i gael dolenni i wybodaeth benodol i israddedigion neu uwchraddedigion, a gwybodaeth gyffredinol am gyllid, cyfleoedd i ymweld â'r brifysgol a llety.

215. Caiff strategaethau'r cynigion israddedig ac uwchraddedig eu hystyried a'u trafod gan y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr[263], yn ogystal â gosod gofynion mynediad priodol (gweler cofnodion y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr a ddarperir yn nhystiolaeth y pecyn gwybodaeth blaenorol 521 i 523). Mae'n bosib y gofynnir barn ymgynghorwyr allanol[264] yn ychwanegol at yr ymchwil a wneir gan Adran Gynllunio PA, a gwahoddir barn yr adrannau academaidd ar y dull o gyflwyno cynigion. Ar sail yr uchod, mae'r Gweithrediaeth y Brifysgol yn cadarnhau'r strategaeth terfynol ar gyfer y cynigion cyn i gyhoeddiad nesaf y prosbectws gael ei gadarnhau a chyn i'r cylch denu myfyrwyr nesaf ddechrau. Mae'r adolygiad blynyddol cynhwysfawr o strategaeth cynigion PA yn sicrhau bod llefydd yn cael eu cynnig yn briodol ar gyfer cynlluniau gradd unigol fel bod modd dewis

[257] https://www.aber.ac.uk/en/media/pdfmedia/en/scholarships/brochure/Scholarship-Brochure-2022.pdf

[258] 145 Canllaw i Rieni

[259] 146 Aber Y Gymraeg a Chi

[260] 147 Enghraifft o Lythyr Cynnig Uwchraddedig i'r Cartref

[261] https://www.aber.ac.uk/cy/pub/ug/

[262] https://www.aber.ac.uk/cy/pub/pg/

[263] 148 Strategaeth Cynnig Israddedigion 2023, Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr, cofnod-13-10-21

[264] 149 papur trafod Portffolio, Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr -13-10-21

ymgeiswyr sydd â'r potensial o lwyddo ar y cwrs ac yn cael eu cynnig yn briodol hefyd o fewn y sector AU a SAUau tebyg.

216. Ar ôl cadarnhau strategaeth y cynigion a'r gofynion mynediad penodol ar gyfer bob cynllun astudio, mae PA yn gweithredu proses ganolog o dderbyn myfyrwyr lle gwneir y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynglŷn ag ymgeiswyr israddedig ac uwchraddedig drwy awdurdod dirprwyedig swyddogion derbyniadau arbenigol yn Swyddfa Dderbyn y Gofrestrfa Academaidd. Mae'r broses ganolog hon yn sicrhau bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i bob cais, a bod y meini prawf dethol yn cael eu defnyddio'n ddibynadwy ac yn gyson, yn ogystal â'r penderfyniad canlyniadol.

217. Mae gan PA ddull cynhwysol o dderbyn myfyrwyr ac ystyrir pob cais yn deg ar sail teilyngdod, beth bynnag fo cefndir yr ymgeisydd. Cafodd polisi cynigion cyd-destunol PA[265] [266] ei adolygu yn 2020-21 ac, ar ôl cael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr, mae wedi ei ymestyn ymlaen dros gyfnod derbyniadau 2021/22. Mae'n cynnwys meini prawf ychwanegol sy'n cydnabod ystod ehangach o ddynodyddion o anfantais ac yn lleihau'r rhwystrau posib i ymgeiswyr y categori ehangu mynediad[267].

218. Yn ogystal, mae PA wedi datblygu geiriad ei bolisi ar gyfer derbyn ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol perthnasol. Newidiodd polisi a gweithdrefn Prifysgol Aberystwyth ar gyfer derbyn myfyrwyr ag euogfarnau troseddol yn 2018 ar ôl dileu'r cwestiwn arferol oedd yn gofyn i bob ymgeisydd UCAS nodi a oedd ganddynt euogfarn droseddol berthnasol. Dim ond i ymgeiswyr UCAS ar gyrsiau sy'n cynnwys gwaith gyda phlant ac oedolion agored i niwed, fel meddygaeth, dysgu neu waith cymdeithasol y gofynnir y cwestiwn hwn bellach. Ar gyfer ymgeiswyr pob cwrs arall, roedd yn ofynnol i Brifysgol Aberystwyth ddyfeisio ei pholisi ei hun ar gyfer penderfynu sut/pryd i ofyn i ymgeiswyr ddatgan gwybodaeth am euogfarnau troseddol perthnasol heb eu disbyddu. Er iddo gael ei weithredu am y tro cyntaf yn 2018, cyflwynwyd testun diwygiedig Polisi a Gweithdrefn PA ar gyfer Derbyn Myfyrwyr ag Euogfarnau Troseddol i'r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ym mis Hydref 2021 a chafodd ei gymeradwyo[268]. Nod y Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Derbyn Myfyrwyr ag

[265] 150 Polisi Cynigion Cyd-destunol

[266] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ug-studies/study-advice/during-your-application/step-by-step-guide/contextual-offers/#d.en.207142

[267] 151 Polisi Cynigion Cyd-destunol Diwygiedig, Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr - 2022 cofnod-13-10-21

[268] 152 Polisi Drafft ar Euogfarnau Troseddol, Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr -13-10-21

Euogfarnau Troseddol[269] yw sicrhau bod PA yn cydbwyso ei rhwymedigaethau cyfreithiol (fel y nodir yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd)) â'i dyletswydd i leihau perygl i ddiogelwch ei myfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Nod y polisi yw ceisio sicrhau bod y Brifysgol yn delio ag euogfarnau troseddol gyda phroses deg, resymol ac eglur, ac nad yw euogfarn yn golygu bod ymgeisydd yn cael ei wrthod yn awtomatig. Nid yw'r diwygiadau'n golygu unrhyw newid yn y polisi diwygiedig, maent yn sicrhau esboniad mwy cynhwysfawr nag a fynegwyd cyn hynny, o'r polisi a'r weithdrefn a ddefnyddir gan PA wrth ymdrin ag ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol perthnasol heb eu disbyddu.

219. Rheolir derbyniadau PA trwy systemau derbyn myfyrwyr electronig mewnol sy'n derbyn data ymgeiswyr ac yn gadael i'r aelodau staff sydd â'r awdurdod priodol weld gwybodaeth angenrheidiol am yr ymgeisydd, prosesu penderfyniadau a symud ceisiadau ymlaen trwy wahanol gamau'r broses dderbyn. Mae angen awdurdod i gael mynediad i systemau AStRA ac APEX, a chaniatâd ar gyfer y lefel/meysydd mynediad perthnasol, ac ar ôl cael caniatâd, mae'r wybodaeth ar gael trwy gyfrifiaduron personol ar y campws neu o bell trwy gysylltiad VPN.

220. Darperir hyfforddiant a chymorth pwrpasol unigol neu adrannol i diwtoriaid/detholwyr derbyniadau academaidd newydd, neu i'r rhai sy'n dychwelyd i'r rôl ar ôl cyfnod o absenoldeb. Mae tîm Derbyniadau'r Gofrestrfa yn cadw cysylltiad agos â staff yn yr adrannau academaidd y mae eu rôl yn cynnwys gwaith sy'n ymwneud â derbyniadau ac yn trefnu gweithdai/hyfforddiant anffurfiol unigol yn ôl yr angen, yn ogystal â rhoi cyngor a chymorth parhaus ar ymholiadau penodol ymgeiswyr ac unrhyw ymholiadau neu bryderon cyffredinol yn ymwneud â derbyniadau.

221. Cynhelir sesiynau hyfforddi ffurfiol sy'n canolbwyntio ar weithgareddau derbyn penodol, megis cadarnhau a chlirio[270], ac maent wedi eu cynllunio i ateb anghenion staff sy'n newydd i'r gwaith a'r rhai sy'n brofiadol ac sydd angen hyfforddiant ategol yn unig. Mae'n orfodol i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn fod yn bresennol, a gwneir cofnod o'r mynychwyr.

222. Cynhelir sesiynau hyfforddi a briffio eraill yn ôl yr angen ar gyfer timau o bob rhan o PA, yn enwedig o'r adran Marchnata a Denu Myfyrwyr. Mae enghreifftiau yn ystod 2021 yn cynnwys sesiynau i'r tîm Cyfleoedd Byd-eang ar arfer gorau wrth asesu ceisiadau myfyrwyr (i gefnogi eu gwaith gyda'r myfyrwyr cyfnewid sy'n dod i'r brifysgol) ac asesu cymwysterau rhyngwladol, y Tîm Denu Myfyrwyr

[269] 153 Polisi-a-Gweithdrefn-Euogfarnau

[270] 154 Cyflwyniad Hyfforddiant Clirio-2021

a Datblygu Rhyngwladol (gan gynnwys swyddogion denu myfyrwyr a leolir dramor) ar waith ac ehangder cylch gwaith Swyddfa Derbyn Myfyrwyr y Gofrestrfa, a sesiwn friffio i'r Tîm Marchnata a Denu Myfyrwyr ar Dderbyn Myfyrwyr Ôl-gymwysterau fel rhan o ymarfer ymgynghori'r Adran Addysg.

223. Mae materion cysylltiedig â 'Derbyniadau' i'w gweld yn rheolaidd ar agenda Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr PA. Mae’r fforwm hwn yn rhoi cyfle misol i staff Derbyn Myfyrwyr y Gofrestrfa Academaidd gyfarwyddo staff y gwasanaethau academaidd a phroffesiynol sy’n rhan o weithgareddau cysylltiedig â derbyniadau ar faterion cyfredol a materion sydd ar y gweill, megis cynlluniau ar gyfer Clirio a Chadarnhau, neu gyflwyno cymwysterau newydd megis lefelau T.[271] [272] Er bod yr agenda hon yn ymwneud yn bennaf â materion israddedig, mae cyfle i gyflwyno materion Uwchraddedig hefyd yn y fforwm hwn. Derbynnir cofnodion y Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr gan y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr[273] [274] [275].

224. Ochr yn ochr â Pholisi Diogelu PA, cyflwynwyd datganiad polisi a phroses cynhwysfawr ar gyfer derbyn myfyrwyr o dan 18 oed[276] [277] i’r Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata ym mis Mehefin 2020. Digwyddodd y gwaith hwn o ganlyniad i ystyriaeth a thrafodaethau hir rhwng y Gofrestrfa Academaidd, Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, a'r adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd. Mae’n rhoi arweiniad clir i ymgeiswyr, eu rhieni/gwarcheidwaid, a staff PA ar y prosesau, y gofynion, a’r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â derbyn myfyriwr o dan 18 oed. Yn unol â chais aelodau’r Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata, wrth aros am nifer o argymhellion gan gynnwys cyfeirio'r gwaith i gael ei ystyried gan Grŵp Diogelu PA, rhoddodd y Cadeirydd gymeradwyaeth weithredol i’r polisi, ac fe'i rhoddwyd ar waith ar ddechrau cylch derbyn myfyrwyr 2020/21.

225. Rydym wedi symud yn raddol at brosesau derbyn di-bapur ar bob lefel astudio ers yr Adolygiad Gwella Ansawdd diwethaf, sy'n golygu gwell diogelwch data ac effeithlonrwydd. Nid oes ffeiliau

[271] 155 Trosolwg o Gymwysterau Lefelau-T

[272] 156 Cofnodion Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr 23-03-21

[273] 157 Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata - Cofnodion Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr -19-05-21

[274] 158 Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata - Cofnodion Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr - 15-06-21

[275] 159 Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata - Cofnodion Grŵp Gweithredu Denu Myfyrwyr -15-07-21

[276] 160 Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata - Derbyn Myfyrwyr o dan 18 oed -10-06-20

[277] 161 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 10.27-Atodiad-2-Dan-18-Polisi Derbyn

papur/argraffedig ar gyfer ymgeiswyr yn y Swyddfa Dderbyn bellach ac mae'r holl gofnodion erbyn hyn yn electronig ac yn cael eu cadw ar system dderbyn ddiogel sy'n gofyn bod yn rhaid i unrhyw ddefnyddiwr gael ei caniatâd a chael ei wirio. Mae ymgeiswyr yn gwneud cais am bob un o'r cyrsiau ar-lein, naill ai trwy UCAS neu trwy ein pyrth ymgeisio mewnol (ac eithrio cyrsiau byr mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, a'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (PCET) a gynigir fel masnachfraint gyda Choleg Cambria, am resymau technegol rydym yn ceisio eu datrys wrth symud yn ein blaenau).

## Ehangu Cyfranogiad

226. Mae'r Brifysgol yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'i hymrwymiad i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac i'r nod o chwalu'r rhwystrau i Addysg Uwch. Un mesur nodedig yw y rhaglen sydd wedi'i hen sefydlu, ein Prifysgol Haf[278] y byddwn yn ei chynnal eto ar y campws yn 2022, ar ôl i gyfyngiadau Covid ei hatal. Mae hon yn rhaglen breswyl o ddarlithoedd, ymchwil a chyflwyniadau, yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol dros gyfnod o bythefnos i tua 80 o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â meini prawf ehangu mynediad, gan ganolbwyntio ar y myfyrwyr sy'n dod o gefndir gofal, o ardaloedd LQ 1 a 2 ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru, neu fyfyrwyr o ysgolion sy'n anfon ychydig iawn o ddisgyblion i PA yn draddodiadol, y rhai sydd wedi colli cyfnodau ysgol, y rhai sydd "y cyntaf yn y teulu" i fynd i brifysgol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r myfyrwyr hynny). Mae myfyrwyr yn elwa o gynnig is buddiol i lwybr dilyniant yn Aberystwyth os byddant yn llwyddo ym mhob un o'r modiwlau, ar y cyd ag unrhyw ragofynion priodol. Ers 2012, mae tua 83% o fyfyrwyr sydd wedi cwblhau Prifysgol Haf Aberystwyth yn llwyddiannus wedi mynd ymlaen i Addysg Uwch neu brentisiaethau lefel uwch.

227. Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd yn aelod o Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru[279], prosiect a ariennir gan CCAUC er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc 10 i 16 oed, ac oedolion 21 oed a hŷn nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau Addysg Uwch, o ardaloedd sydd o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Y nod yw ehangu mynediad drwy gynyddu nifer y grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach o ardaloedd mwyaf difreintiedig Gogledd a Chanolbarth Cymru, na fyddent wedi ystyried Addysg Uwch fel arall.

228. Disgrifir y mentrau hyn a mentrau eraill yn ein Cynlluniau Ffioedd Myfyrwyr[280] a gyflwynir yn flynyddol i CCAUC, sy'n cefnogi myfyrwyr mewn dwy ffordd:

---

[278] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/srwp/reaching-wider/summer-university/

[279] https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/srwp/reaching-wider/summer-university/

[280] https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/student-fees/

- Trwy weithgareddau sydd wedi'u hanelu at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch ac y bwriedir iddynt ehangu cyfranogiad a gwella cyfraddau cadw myfyrwyr.

- Trwy weithgareddau sydd ar gael i bob myfyriwr ond lle rhoddir sylw ychwanegol i anghenion penodol myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, er mwyn sicrhau bod yr holl rwystrau posib i addysg uwch yn cael eu chwalu. Pwysleisir y manteision posib i fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Cynhelir gweithgareddau hefyd y mae'n fwy tebygol y bydd myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn eu mynychu, er eu bod ar gael i bob myfyriwr (e.e. gweithgareddau ein gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr).

229. Fel rhan o'n gwaith ar wella ein Cynlluniau Ffioedd Myfyrwyr a sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu hanelu'n well at y myfyrwyr a fydd yn elwa fwyaf arnynt, rydym yn buddsoddi mewn prosiect gwella data a gynhelir yn 2021-22:

- Treiddio i'r setiau data sydd ar gael er mwyn monitro grwpiau ehangu cyfranogiad i roi darlun cliriach i ni o'n perfformiad dros y pum mlynedd diwethaf fel bod modd i ni osod targedau cadarn ar gyfer y dyfodol.

- Gweithio i ddeall llwybrau cynnydd grwpiau ehangu cyfranogiad yn well a'u holrain er mwyn sicrhau bod gennym ni well data ar daith y myfyriwr o'r cais i raddio, a thu hwnt. Bydd hyn yn fodd i ni gael mwy o wybodaeth am unrhyw fylchau yng nghyrhaeddiad myfyrwyr a darlun cliriach o ble dylid rhoi cymorth ychwanegol yn y dyfodol.

- Yn ogystal â hyn, rydym yn adnewyddu ein Strategaeth Ehangu Cyfranogiad. Mae'r Cynllun Ffioedd Myfyrwyr hwn wedi'i ddrafftio ochr yn ochr â datblygiad yn y ddau faes a nodir uchod ac, ar y cyd â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng ein holl gynlluniau ehangu cyfranogiad.

## Pryderon, Cwynion ac Apeliadau

230. Mae ein gweithdrefnau apeliadau[281] a chwynion[282] wedi ei hadolygu'n ddiweddar yng ngoleuni canllawiau SDA. Apeliadau academaidd yw pan fydd myfyriwr yn ceisio adolygiad o benderfyniad corff academaidd ar gynnydd, asesiad neu ddyfarniad. Caiff myfyrwyr gyflwyno apeliadau eu hunain, neu benodi cynrychiolydd i weithredu ar eu rhan. Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr sydd angen

[281] 162 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 12 Apeliadau Academaidd

[282] 163 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 14 Cwynion

cyngor bod croeso iddynt gysylltu â staff y Gofrestrfa Academaidd neu ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr.

231. Nodir yn glir pob rheswm dros apelio, a rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r effaith ar eu perfformiad gyda'r apêl. Mae angen i fyfyrwyr egluro pam nad oedd modd iddynt roi gwybod i'r corff oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol am y rheswm hwnnw. Ceir gwneud apeliadau o fewn cyfnod penodol ac ni ellir eu hystyried ar ôl hynny, heb dystiolaeth glir nad oedd modd gweithredu o fewn y cyfnod penodol. Darperir ffurflenni ar gyfer apeliadau a gyflwynir i'r Gofrestrfa Academaidd. Os cyflwynir rheswm dilys dros apelio, gofynnir i'r Adran berthnasol wirio'r ffeithiau. Bydd yr achos yn cael ei ystyried gan Banel Apeliadau Academaidd sy'n cynnwys pedwar aelod, gan ystyried cydbwysedd rhwng y rhywiau lle bo modd. Yn ogystal â DIG yn cadeirio'r Panel, byddai aelod arall o'r staff academaidd, yn ogystal â Phennaeth neu Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd a chynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr ar y panel.

232. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i ymddangos gerbron y Panel ac mae rhyddid iddynt ddod â rhywun o'u dewis yn gwmni. Darperir canllawiau ar gyfer cynnal yr apêl. Ar ddiwedd y cyfarfod, rhoddir gwybod i'r myfyriwr sut y bydd yn cael gwybod am benderfyniad y panel. Bydd yn cael ei ddarparu gan ysgrifennydd y Panel, yn ysgrifenedig, o fewn pum diwrnod gwaith i'r penderfyniad. Ein nod yw datrys apeliadau o fewn chwe wythnos waith. Os yw'n ymddangos y bydd oedi wrth ymateb, bydd y myfyriwr yn cael gwybod y rheswm am hynny, ac yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

233. Gall myfyrwyr nad ydynt yn fodlon â chanlyniad yr apêl ofyn am Adolygiad Terfynol[283] a rhoddir gwybod iddynt sut i ddefnyddio'r weithdrefn hon.

234. Caiff y myfyrwyr gyflwyno adborth ar unrhyw faterion sy’n peri pryder iddynt mewn amrywiaeth eang o ffyrdd; trwy strwythur cynrychioli myfyrwyr neu ‘Rho Wybod Nawr’ er enghraifft, ond dylai systemau effeithiol a theg o ymdrin â chwynion fod ar gael i'r myfyrwyr hefyd a dylent deimlo bod modd iddynt wneud cwyn gan wybod y bydd ymchwiliad teg yn cael ei gynnal. Cwyn yw 'mynegiant o anfodlonrwydd gan un neu fwy o fyfyrwyr ynghylch gweithred neu ddiffyg gweithredu gan y brifysgol, neu am safon y gwasanaeth a ddarperir gan y brifysgol neu ar ei rhan'.

235. Mae cwynion yn ymwneud ag ystod eang o bynciau a ddisgrifir yn y LlAA, sydd hefyd yn nodi materion megis cwestiynu barn academaidd nad ydynt yn gymwys. Disgwylir i fyfyrwyr geisio

[283]164 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 13 Adolygiad Terfynol

datrys y mater yn anffurfiol i ddechrau trwy ei godi'n uniongyrchol gyda'r unigolyn(ion) dan sylw, er efallai na fydd hyn bob amser yn bosib. Diogelir cyfrinachedd cyn belled ag y bo modd. Os yw'r gŵyn yn cynnwys trosedd sydd wedi'i chyflawni, mae gennym yr hawl i ddwyn y mater i sylw'r heddlu.

236. Os na chaiff y gŵyn ei datrys drwy ddull datrysiad cynnar, caiff y myfyriwr gyflwyno ffurflen cwynion ffurfiol. Dylai'r ffurflen ddisgrifio natur y gŵyn, tystiolaeth ategol, a nodi'r canlyniad y mae'r myfyriwr yn dymuno ei gael. Ar ôl penderfynu bod y gŵyn yn gymwys, mae staff y Gofrestrfa Academaidd yn trefnu'r aelod perthnasol o staff i ymchwilio, naill ai drwy gyfweld, neu drwy gasglu tystiolaeth bellach gan y rhai dan sylw, gan gynnwys yr achwynydd pe bai'r aelod staff penodedig yn gofyn am gyfarfod. Yna rhaid darparu Ffurflen Ymchwilio a llythyr i'r achwynydd, gyda gwybodaeth am yr ymchwiliad a'i gasgliadau. Dylid datrys cwynion o fewn chwe wythnos waith. Os yw'n ymddangos y bydd oedi cyn ymateb, bydd y myfyriwr yn cael gwybod y rheswm am hynny, ac yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

237. Bydd hysbysiad ffurfiol o'r canlyniad yn dod gan y Gofrestrfa Academaidd a fydd hefyd yn hysbysu'r myfyriwr am yr Adolygiad Terfynol sydd ar gael os yw'n dal yn anfodlon gyda'r penderfyniad a bod ganddo resymau cymwys dros hynny.

238. Ar ôl cam yr Adolygiad Terfynol, mae'n bosib y bydd modd i fyfyrwyr godi cwyn yn erbyn y Brifysgol gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a byddant yn cael gwybod am hyn yn eu llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

239. Mae nifer, lefel ac ystod apeliadau a chwynion academaidd yn cael eu monitro gan y Gofrestrfa Academaidd, sy'n adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd Academaidd[284] [285] a all wneud argymhellion priodol ar gyfer newid. Mae nifer y cwynion ffurfiol wedi codi i 13 ym mlwyddyn galendr 2020, cynnydd o'r wyth yn 2019 a'r pedwar yn 2018. O'r cwynion ffurfiol a gofnodwyd yn 2020, cafodd un ei chadarnhau; cafodd pump o'r cwynion eu cadarnhau'n rhannol; ni chadarnhawyd pump arall, cafodd un ei hatal ar gais y myfyriwr; a chafodd un ei datrys. Adroddir ar natur y cwynion i'r Bwrdd Academaidd ac yn y datganiad sicrwydd blynyddol i'r Cyngor.

240. Yn ystod 2020, derbyniwyd 63 o apeliadau academaidd, o'i gymharu â 78 yn y flwyddyn flaenorol,

[284] 056 Adroddiad i'r Bwrdd Academaidd - Cwynion, Apeliadau ac Adolygiadau Terfynol 2019-2020

[285] 055 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd Academaidd - Tystiolaeth Monitro Systematig 25-02-21

oedd yn awgrymu bod y mesurau i liniaru'r effaith negyddol ar ddysgu ac asesu academaidd oherwydd y pandemig wedi cael derbyniad da. Roedd mwyafrif yr apeliadau yn seiliedig ar amgylchiadau esgusodol eithriadol. Roedd swm llai o'r apeliadau yn cyfeirio at ddiffygion neu afreoleidd-dra mewn asesiadau neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor, neu dystiolaeth o ragfarn, neu asesiad annigonol.

241. Cynghorir y myfyrwyr sy'n dal yn anfodlon â chanlyniad gweithdrefn fewnol PA y gallant ystyried cyflwyno cwyn i'r SDA, os yw'n gymwys. Dyblodd nifer yr achosion a gyflwynwyd i'r SDA yn 2021 gyda chwe achos o'r fath, o gymharu â thri y flwyddyn yn y ddwy flynedd flaenorol. O'r cwynion hyn, dyfarnwyd bod dwy o'r cwynion Heb Gyfiawnhad, cafodd un ei Chyfiawnhau'n Rhannol, mae dwy yn disgwyl canlyniad a chyfeiriwyd un yn ôl i gael ei hystyried ymhellach yn fewnol.

## Cynllunio a Datblygu Cyrsiau

242. Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo cynlluniau a modiwlau wedi eu newid rhywfaint ers yr adolygiad diwethaf. Arolygir y prosesau hyn gan y Bwrdd Academaidd, Pwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau a'r Pwyllgor Cynllunio Portffolio, ac fe'u cyhoeddir yn Adran 2 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd[286]. Wrth gynllunio a datblygu, rhaid ystyried disgrifiadau lefel QAA, datganiadau meincnodi pwnc a Meincnodau QAA perthnasol eraill, yn ogystal â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'r ymgynghori a wneir gyda myfyrwyr, ac ymgynghori allanol gydag arholwyr allanol, arbenigwyr pwnc, cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol neu fyrddau cynghori eraill, yn digwydd yn gynnar yn natblygiad y cynllun.

243. Mae'r LlAA yn rhoi arweiniad manwl ar gymeradwyo modiwlau. Y cyfadrannau sy'n gyfrifol am gymeradwyo modiwlau newydd a modiwlau sydd wedi'u hailstrwythuro, mân newidiadau i fodiwlau ac am atal a dileu modiwlau. Gwneir cynigion ar-lein erbyn hyn gan ddefnyddio system Rheoli Modiwlau APEX. Bydd y Gyfadran yn trefnu i aelod o staff academaidd annibynnol graffu'r cynnig cyn i'r modiwl gael ei ystyried gan bwyllgor y Gyfadran briodol[287]. Yn dilyn cymeradwyaeth y Gyfadran, bydd y Swyddfa Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn cael gwybod am y newidiadau a fydd yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata modiwlau fel y fersiwn terfynol o'r modiwl. Mae'r holl fodiwlau newydd a'r rhai sydd wedi'u hailstrwythuro yn cael eu cymeradwyo gan y Cyfadrannau a chaiff y

---

[286] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/dev-review/

[287] 165 Tystiolaeth o Graffu ar Fodiwlau -Detholiad o Gofnodion Pwyllgor Materion Academaidd Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd 01-21.

wybodaeth ei diweddaru ar y gronfa ddata modiwlau[288] a chronfa ddata chynlluniau[289] ar gyfer y sesiwn academaidd ganlynol erbyn diwedd tymor y gwanwyn.

244. Caiff mân newidiadau hefyd eu prosesu gan ddefnyddio system Rheoli Modiwlau APEX ond nid oes angen adolygydd mewnol ar eu cyfer, er enghraifft newid teitl, newidiadau bach i'r cynnwys, newidiadau ym mhwysoliad asesiad os nad yw hyn yn effeithio ar ganlyniadau dysgu, a newidiadau i semester. Rhaid dilyn y broses gymeradwyo lawn os oes newidiadau sylweddol i gynnwys modiwl, i'r canlyniadau dysgu neu'r asesiad.

245. Fel rhan o'r broses gymeradwyo, mae'r Gyfadran sy'n gyfrifol am yr addysgu yn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ganddi er mwyn cyflwyno'r modiwl.

246. Bellach mae dau lwybr cymeradwyo ar gyfer cynlluniau astudio newydd a chynlluniau sydd wedi'u hailstrwythuro. Defnyddir y llwybr cymeradwyo 'Gweithredol'[290] ar gyfer cynigion yr ystyrir eu bod yn golygu newid sylweddol, yn ddatblygiad mewn maes newydd o'n darpariaeth, a datblygiadau y mae iddynt oblygiadau o ran adnoddau neu oblygiadau ar lefel y Brifysgol y mae angen eu cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol. Cyflwynir achos busnes gan yr adran i Weithrediaeth y Brifysgol i'w ystyried, a chyflwynir Ffurflen Datblygu Cynllun 1.1 (SDF 1.1) i'r Pwyllgor Cynllunio Portffolio. Bydd y PCP a Gweithrediaeth y Brifysgol yn ystyried y cynigion o safbwynt strategaeth, dichonoldeb busnes gan gynnwys costau, risgiau (gan gynnwys y risg i enw da), niferoedd myfyrwyr ac ystyriaethau ymarferol a byddant yn penderfynu a ddylai'r cynigion fynd ymlaen i gael eu hystyried o safbwynt academaidd gan y Panel sefydlog Cymeradwyo Cynlluniau (1: Enghraifft o lwybr cymeradwyo 'Gweithredol' - cynnig cynllun MSc Peirianneg Sbectrwm Radio: dogfen gynnig, cofnodion y panel sefydlog Cymeradwyo Cynlluniau a PCP[291] [292] [293] a 2: enghraifft o ddigwyddiad dilysu allanol Nyrsio – Digwyddiad cymeradwyo ar y cyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/PA[294]).

[288] https://www.aber.ac.uk/cy/modules/

[289] https://www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/

[290] 166 Siart llif Llwybr Cymeradwyo Gweithredol a ffurflen datblygu cynllun templed

[291] 167 Cynnig cynllun MSc Peirianneg Sbectrwm Radio

[292] 168 MSc Peirianneg Sbectrwm Radio Detholiad o Gymeradwyaeth y Pwyllgor Cynllunio Portffolio 13.01.21

[293] 169 MSc Peirianneg Sbectrwm Radio - Cofnodion Panel Cymeradwyo'r Cynllun

[294] 170 Ymweliad Cymeradwyo ar y cyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - Cofnodion

247. Pan roddir cymeradwyaeth i symud ymlaen i gam nesaf y broses gymeradwyo gan y PCP a Grŵp Gweithredol y Brifysgol, bydd y Panel Cymeradwyo Cynlluniau'n cynnal ystyriaeth fanwl o'r cynnwys academaidd, cynllun a chyflwyniad y maes llafur, profiad y myfyriwr, adnoddau dysgu, trefniadau cymorth a gweinyddu, ac a ddylid cymeradwyo'r cynnig yn ffurfiol (gweler y dyddiadau yma: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/dev-review/) . Dim ond ar sail sicrhau ansawdd y bydd y Panel Cymeradwyo Cynlluniau'n gwrthod cynnig.

248. Mae'r Panel Cymeradwyo Cynlluniau yn cynnwys staff academaidd sy'n annibynnol ar y rhai sy'n gwneud y cynigion, cynrychiolydd myfyrwyr, ac aelod staff o Dîm Sicrhau Ansawdd y Gofrestrfa Academaidd. Fe'i darperir gyda ffurflen SDF1.2 a'r gwaith papur sy'n weddill ar gyfer y cynnig gan gynnwys manyleb(au) y Rhaglen, gan gynnwys canlyniadau dysgu'r cynllun/modiwl wedi'u mapio ar sail asesiad (SDF9); tystiolaeth o ymgynghori allanol; tystiolaeth o ymgynghori â myfyrwyr/cyn-fyfyrwyr presennol; ffurflenni cymeradwyo modiwlau newydd/diwygiedig, os yw'n briodol, neu ddolenni at fodiwlau presennol. Gofynnir am farn ysgrifenedig aseswr allanol cyn cyfarfod y Panel.

249. Pan fydd y cynnig wedi'i gymeradwyo'n llawn, caiff y cymal 'yn amodol ar gael ei gymeradwyo' ei ddileu a bydd y cynllun ar gael i ymgeiswyr.

250. Defnyddir llwybr cymeradwyo 'Di-Weithrediaeth'[295] ar gyfer cynigion yr ystyrir eu bod yn ddatblygiad o fewn maes sy'n bod eisoes, lle nad oes goblygiadau o ran adnoddau ac felly nid oes angen cymeradwyaeth gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol; gellir cymeradwyo'r rhain ar lefel y Gyfadran ac felly ni fydd angen i'r Panel sefydlog Cymeradwyo Cynlluniau graffu ymhellach arnynt. Bydd yr holl gynigion sy'n dilyn y llwybr di-weithrediaeth yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Portffolio (PCP) a fydd yn penderfynu a ddylai'r cynnig fynd ymlaen i gael ei ystyried yn academaidd gan Banel Cymeradwyo'r Gyfadran, a ddylid ei gyfeirio'n ôl at yr Adran i'w drafod ymhellach ynteu ei wrthod (Enghraifft o lwybr cymeradwyo Di-weithrediaeth – BA Hanes a TESOL, gyda blwyddyn integredig o astudio dramor – cynnig cynllun a chofnodion y panel[296] [297]).

251. Mae Panel Cymeradwyo'r Gyfadran yn cynnwys o leiaf dau o gynrychiolwyr academaidd y Gyfadran nad ydynt wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r cynnig; fel arfer bydd Deon Cyswllt yn aelod o'r Panel. Rhaid i'r Panel hefyd gynnwys cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr a chyswllt Sicrwydd

[295] 171 Siart Llif Cymeradwyaeth Di-weithrediaeth a Thempled Ffurflenni Datblygu Cynlluniau

[296] 172 Cynnig Cynllun - BA Hanes a TESOL, gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor

[297] 173 Cofnodion Panel Cymeradwyo'r Gyfadran - 18.08.21 - BA Hanes a TESOL

Ansawdd y Gofrestrfa Academaidd. Gwahoddir cynrychiolaeth cyfrwng Cymraeg ac aelodau eraill lle bo'n briodol.

252. Dim ond ar ôl cynnal ymgynghoriad llawn o fewn y Gyfadran berthnasol, neu ar draws cyfadrannau lle bo angen, yr ystyrir cynigion i ohirio neu ddileu cynlluniau. Dylai'r adrannau hefyd sicrhau, mewn ymgynghoriad â Deon Cyswllt y Gyfadran (Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg), bod unrhyw effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel y cynllun a'r modiwl yn cael ei ystyried yn ystod y broses hon. Bydd y Deon Cyswllt yn ymgynghori â'r Grŵp Datblygu Cyfrwng Cymraeg cyn i'r cynnig gael ei gyflwyno i PCP. Bydd y PCP yn craffu ar y cynigion i ddileu neu ohirio cynlluniau ac ar oblygiadau'r penderfyniadau hyn yng ngoleuni arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ynglŷn â Chyfraith Defnyddwyr.

253. Fel arfer, disgwylir i gynllun gael ei ddirwyn i ben yn raddol dros gyfnod er mwyn i'r Brifysgol gyflawni ei hymrwymiad i'r myfyrwyr cofrestredig. Fel eithriad, lle bo angen ailstrwythuro ar frys, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau lle mewn man arall i fyfyrwyr sydd eisoes yn y Brifysgol sy'n dymuno cwblhau'r cynllun astudio y cawsant eu derbyn arno. Os bydd rhaglen israddedig yn cael ei dileu hanner ffordd trwy gylch derbyn, bydd confensiynau arferol UCAS yn gweithredu yn achos y myfyrwyr a wnaeth gais am le ar y cwrs hwnnw. Bydd cynigion i ddileu cynlluniau astudio yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio Portffolio, a'r pwyllgor fydd yn gwneud y penderfyniad.

254. Mae'r holl gynlluniau astudio a ddysgir trwy gwrs yn cael eu monitro'n flynyddol o fewn y cyd-destun a osodwyd gan God Ansawdd y Deyrnas Gyfunol. Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am arolygu'r drefn hon. Yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r Brifysgol bod cynlluniau'n cyflawni eu hamcanion, mae'r broses yn ceisio nodi meysydd o arfer da a rhannu'r wybodaeth hon er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Yr adran academaidd sy'n bennaf gyfrifol am fonitro pob cynllun israddedig ac uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs, gan gynnwys cynlluniau rhyddfraint, gan adrodd yn ôl i'r Gyfadran berthnasol. Mae'n bwysig adnabod pryderon sy'n benodol i gynllun arbennig neu'n gyffredin i nifer ohonynt, yna ystyried y materion hynny, adrodd yn ôl amdanynt a chymryd y camau priodol. Mae hyn yn gymwys yn achos pryderon cysylltiedig â modiwlau'r adran ei hun neu fodiwlau adran arall neu bartner-ddarparwr sy'n rhan hanfodol o'r cynllun dan sylw.

255. Caiff y ffurflenni monitro[298] eu llenwi gan gydlynydd y cynllun neu unigolyn cyfatebol. Darperir

[298] 174 Monitro Blynyddol Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs -AMTS1- InterPol

pecynnau data Monitro Blynyddol[299] ar gyfer cynlluniau lle mae'r niferoedd yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae'r cyfadrannau'n derbyn adroddiadau ar y ffurflenni trwy ffurflen AMTS2[300], sy'n adroddiad cyfunol ar lefel y Gyfadran[301]. Eithriad fydd adrodd yn ôl a dylid gwneud sylwadau ar faterion sydd o arwyddocâd arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys llwyddiannau, arfer da a dyfeisgarwch, peryglon i ansawdd a heriau a materion y mae angen eu dwyn i sylw'r Brifysgol. Mae'r datganiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol i'r Cyngor yn rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a'r arferion da a ganfuwyd yn ystod pob ymarfer blynyddol.

256. Mae proses yr Adolygiad Cyfnodol[302] yn cynnwys cynnal proses i ail-ddilysu’r ddarpariaeth yn gyfnodol. Mae hwn yn werthusiad a gynhelir bob pump i chwe blynedd, gan Dîm Adolygu sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd, o effeithiolrwydd rheoli, dysgu, addysgu a gwella a gweithdrefnau sicrhau ansawdd a monitro perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol. Mae'r adolygiad yn ymdrin â chynlluniau a modiwlau israddedig ac uwchraddedig; darpariaeth ymchwil uwchraddedig; darpariaeth gydweithrediadol; systemau adborth; trefn gydymffurfio â phrosesau sicrhau ansawdd; datblygu staff a hyfforddiant (gweler yr enghraifft o Adolygiad yr Adran Gyfrifiadureg[303] [304]).

257. Mae'r adrannau'n gwerthuso eu hunain yn erbyn cyfres o ddatganiadau cysylltiedig ag ansawdd a safonau addysgu a dysgu, gan ddefnyddio templed hunanwerthuso. Mae’r datganiadau’n ymdrin â’r meysydd canlynol: cynlluniau academaidd, addysgu a dysgu, asesu ac adborth, myfyrwyr ymchwil, cyfranogiad a phrofiad myfyrwyr, datblygiad staff academaidd, darpariaeth gydweithredol ac arholwyr allanol. Mae'r adran hefyd yn nodi camau gweithredu ar gyfer gwella ansawdd ac yn nodi'r camau y mae angen iddi eu cymryd i wella ansawdd a/neu wella perfformiad. Anogir cynrychiolwyr myfyrwyr i gymryd rhan gyflawn ym mharatoadau'r adran ar gyfer yr archwiliad. Gall cynrychiolwyr myfyrwyr gyflwyno'u dogfen hunanwerthuso eu hunain fel atodiad i gyflwyniad yr adran.

---

[299] 175 Monitro Blynyddol Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs - pecyn data enghreifftiol AMTS - InterPol

[300] 176 Monitro Blynyddol Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs - Ffurflen Adroddiad AMTS 2

[301] 177 Detholiad o Bwyllgor Materion Academaidd Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ar AMTS-014-11-20

[302] 178 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2.9 Adolygiad Adrannol Cyfnodol

[303] 179 Adolygiad yr Adran - Cyfrifiadureg – Dogfen Hunanarfarnu

[304] 180 Adolygiad yr Adran – Adolygiad a Chynllun Gweithredu Cyfrifiadureg CBGFf

258. Cadeirir y tîm fel arfer gan Ddirprwy Is-Ganghellor (Dirprwy Is-G Dysgu ac Addysgu neu Ddirprwy Is-G Cysylltiol y Gyfadran) a bydd hefyd yn cynnwys Deon Cysylltiol, Pennaeth Adran, Asesydd Academaidd Allanol (arbenigwr pwnc academaidd ac, os yw'n briodol, arbenigwr o ddiwydiant), y Cofrestrydd Academaidd neu ei gynrychiolydd a chynrychiolydd myfyrwyr. Mae'n ystyried dogfen hunanwerthuso, cofnodion pwyllgor perthnasol a'r holl ddogfennaeth arall sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn adran ac yn cyfarfod â staff adrannol allweddol a chynrychiolwyr myfyrwyr. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cael ei hail-ddilysu.

259. Mae'r Tîm yn ystyried ystod eang o faterion sy'n ymwneud â rheoli dysgu ac addysgu, y manylir arnynt yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae’r rhain yn cynnwys safonau addysgu a dysgu mewn modiwlau, priodoldeb dulliau asesu, dilyniant a chyflawniad myfyrwyr, cynrychiolaeth myfyrwyr, adnoddau dysgu, Llawlyfrau Myfyrwyr a gwybodaeth arall a ddarperir i fyfyrwyr, addysgu cyfrwng Cymraeg, lleoliadau neu brofiad gwaith, cynlluniau cyfnewid, a chymorth, hyfforddiant, arolygu a monitro myfyrwyr ymchwil.

260. Mae hefyd yn ystyried yr adborth a ddaw gan arholwyr allanol, Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio, Gwerthusiadau myfyrwyr o Fodiwlau a Chynlluniau, 'Rho Wybod Nawr', Monitro Blynyddol Cynlluniau trwy Gwrs a data megis canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

261. O ran cydymffurfio, mae'r Adolygiad yn edrych ar sut mae'r adrannau'n ymgysylltu â Rheoliadau'r Brifysgol a'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, a mentrau allweddol fel Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol.

262. Mae’r adolygiad hefyd, yn unol â’r Cyngor a Chanllawiau yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU, yn ystyried a yw cynlluniau astudio'n gyfoes ac yn ddilys, yng ngoleuni'r wybodaeth sy'n datblygu yn y ddisgyblaeth ac unrhyw newidiadau cronnus yn ystod y cyfnod ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo'n wreiddiol / ers yr adolygiad blaenorol. Mae'n bosib y bydd y cynlluniau'n cael eu hail-ddilysu'n ddiamod neu mae'n bosib y bydd yr adolygiad yn gofyn bod newidiadau'n cael eu gwneud neu fod cynlluniau'n cael eu gohirio neu eu dileu.

263. Ar ôl yr ymweliad, caiff adroddiad ei baratoi gan Ysgrifennydd y Panel a fydd yn amlygu meysydd o arfer da ac yn cyflwyno argymhellion i'r adran, y gyfadran a'r Brifysgol. Mae'n rhaid i'r adrannau ymateb i'r materion a nodir mewn perthynas ag ail-ddilysu cynlluniau o fewn cyfnod penodedig, a adolygir gan y Cadeirydd. Yn ogystal, rhaid i'r adran gyflwyno Cynllun Gweithredu o fewn tri mis i

gyhoeddi'r adroddiad, yn nodi sut y bwriedir rhoi argymhellion y Panel Adolygu ar waith a rhoi adroddiadau cynnydd i'r Gyfadran ar yr argymhellion a nodir yn y Cynllun Gweithredu[305].

264. Fel rhan o'i gyfrifoldeb am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, y Bwrdd Academaidd sy'n bennaf gyfrifol am reoli'r holl waith adolygu, dilysu ac achredu allanol sy'n ymwneud â chynlluniau astudio drwy gwrs ar lefel israddedig ac uwchraddedig. Mae'n cadw cofrestr o'r holl gynlluniau a achredir gan Gyrff PSR sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol[306]. Yr adrannau sy'n dal yn gyfrifol am gysylltu â'r Cyrff PSR ynglŷn ag achrediadau cychwynnol a rheoli'r cynlluniau achrededig yn eu meysydd pwnc. Mae adroddiadau'r cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol yn rhoi adborth allanol pwysig ynghylch ansawdd a safonau cynlluniau a disgwylir i adrannau eu hystyried yn drwyadl fel rhan o Fonitro Blynyddol Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs (gweler adran 6 y ffurflen AMTS1).

265. Rhaid i adrannau gadarnhau a yw'n fwriad ganddynt wneud cais am achrediad i gynlluniau newydd fel rhan o'r Drefn Cymeradwyo Cynlluniau. Hysbysir y Bwrdd Academaidd o ganlyniad pob ymarfer achredu er mwyn sicrhau y gellir rhoi sylw i unrhyw wendidau a nodwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol, bod yr adrannau wedi ymateb i unrhyw faterion a nodwyd gan gyrff PSR, a bod unrhyw arfer da yn cael ei ledaenu'n ehangach o fewn y Brifysgol. Bydd y Bwrdd Academaidd yn dilyn ac yn monitro'r camau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau Cyrff PSR, ac efallai y byddant yn mynnu bod adrannau'n paratoi cynlluniau gweithredu mewnol i ymateb i'r adroddiadau.

266. Mae pandemig Covid wedi effeithio ar y cylch adolygu Adrannol. Cynhaliwyd adolygiadau mewn tair adran yn hanner olaf 2019 (Cyfrifiadureg, Mathemateg a Seicoleg) ond cafodd yr adolygiadau a drefnwyd ar gyfer sesiwn academaidd 2020-21 (Addysg, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ac Astudiaethau Gwybodaeth) eu gohirio oherwydd llwyth gwaith ychwanegol sylweddol y staff yn ymdopi ag effaith y pandemig. Er bod yr effaith honno’n cael ei theimlo o hyd, penderfynwyd ailddechrau adolygiadau yn y sesiwn hon a chynhaliwyd adolygiad cadarnhaol iawn o'r Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Fe'i cynhaliwyd ar-lein am y tro cyntaf, yn hydref 2021 (mae’r adroddiad wedi’i ddrafftio ond nid yw wedi’i ystyried eto gan y Bwrdd Academaidd). Mae adolygiadau o'r adrannau Addysg ac Astudiaethau Gwybodaeth yn cael eu trefnu ar gyfer 2022.

## Dysgu ac Addysgu

[305] 181 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd Academaidd yn ystyried Adolygiadau'r Adran

[306] 182 Enghraifft Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol o Gofrestr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol ar gyfer Bwrdd Academaidd-21-22

267. Mae Dysgu ac Addysgu yn un o amcanion craidd Cynllun Strategol y Brifysgol. Ymhlith ein hamcanion mae meithrin dysgu ac addysgu blaengar (gan gynnwys dysgu hyblyg) a gydnabyddir yn y sector fel meincnod o arfer gorau yn y Gymraeg a'r Saesneg; ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd ar draws ein hamrywiaeth o raglenni[307] [308] [309] [310] [311]profiadau rhyngwladol a sgiliau trosglwyddadwy eraill; a gwella profiad myfyrwyr a chydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i gadw llais y myfyrwyr yn ganolog i'n gweithgaredd.

268. Mae gennym Strategaeth Dysgu ac Addysgu[312], a Strategaeth Cyflogadwyedd[313] er mwyn cyflawni hyn. Yn ystod 2019-20, adolygwyd a datblygwyd y Strategaeth Dysgu ac Addysgu fel Strategaeth Rhagoriaeth Addysg PA 2019-22[314] [315], a oedd yn anelu'n benodol at hyrwyddo dysgu gweithredol ymhlith myfyrwyr. Mae effaith pandemig Covid-19 wedi tarfu'n sylweddol ar weithrediad y strategaeth hon. Fodd bynnag, llwyddodd rhai meysydd i wthio'r strategaeth yn ei blaen, megis maes iechyd meddwl myfyrwyr, y maes cyflogadwyedd a meysydd dysgu gweithredol fel rhan o'r gwaith o addasu i ddysgu cyfunol. Ym mis Hydref 2021, rydym wedi bod yn asesu cynnydd y Strategaeth Dysgu ac Addysgu ar gyfer yr adrifiad nesaf yn 2022. Roedd angen addasu unrhyw agweddau ar y strategaeth hefyd i amgylchedd Covid, gyda'r dull dysgu ar-lein a chyfunol yn cael ei ddefnyddio i ddechrau yn 2020-21, a'i ddatblygu ymhellach ar gyfer 2021-22. Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon trwy Holiaduron Gwerthuso Modiwlau ac adborth arall gan fyfyrwyr. Mae meysydd eraill wedi parhau â'u ffocws, ond o fewn cyd-destun newydd Covid-19. Aeth yr Adran Ystadau a'r Adran Gwasanaethau Gwybodaeth ati i roi newidiadau ar waith fel bod y Campws yn 'barod am Covid' yn 2021-22[316], ac ar yr un pryd, datblygwyd cyfleusterau addysgu a chyfrifiadurol newydd; Mae'r gwaith Cyfoethogi Darpariaeth Tiwtoriaid Personol[317] wedi'i addasu i

---

[307] 183 Papur Pwyllgor Materion Academaidd Cyfadran yr Amgylchedd a Gwyddorau Bywyd - Ymgorffori Cyflogadwyedd yn y Cwricwlwm

[308] 184 Gweithgor Cyflogadwyedd Cyfadran yr Amgylchedd a Gwyddorau Bywyd

[309] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers/sourcing-work-experience/

[310] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers/sourcing-work-experience/finding-work-experience/

[311] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers/sourcing-work-experience/volunteering/

[312] https://www.aber.ac.uk/cy/academic/lt-strategy-2019-2022/

[313] 185 Strategaeth Cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth 2018-2023

[314] https://www.aber.ac.uk/cy/academic/lt-strategy-2019-2022/apex-strategy/

[315] https://www.aber.ac.uk/cy/academic/lt-strategy-2019-2022/apex-action-plan/

[316] https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/

[317] https://www.aber.ac.uk/cy/academic/lt-strategy-2019-2022/apex-action-plan/#personal-tutor-enhancement

fodloni gofynion amgylchedd Covid-19, gyda llawer o fyfyrwyr yn profi cyfnodau o hunan-ynysu ac yn gorfod bod heb y rhwydweithiau cyfeillgarwch sefydledig arferol; ac addasodd y gwasanaeth Gyrfaoedd[318] ei dactegau a'i gynlluniau er mwyn darparu sgiliau cyflogadwyedd mewn ffyrdd newydd a dyfeisgar.

269. Mae rhai meysydd wedi parhau â'u gwaith er gwaethaf y pandemig. Mae'r Broses Cynefino Staff[319] [320] wedi cynllunio cyfres o gyflwyniadau ar-lein i faterion amrywiol ar gyfer staff newydd, ac mae maes Datblygiad Iechyd Meddwl y Staff a'r Myfyrwyr[321] wedi mynd ati i lunio Cynllun Gweithredu a rhoi'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Myfyrwyr a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 ar waith. Mae'r Prosesau Gwerthuso Modiwlau wedi gwneud addasiadau er mwyn cyflwyno gweithdrefnau Holiaduron Gwerthuso Modiwlau, Rho Wybod Nawr a Dy Lais ar Waith mewn amgylchiadau gwaith gwahanol. Gwnaed gwelliannau digidol sylweddol a datblygiadau i ddysgu digidol y myfyrwyr hefyd, sy’n rhan o'r amcanion cyffredinol yn y cyfnod ar ôl Covid o ailsgilio myfyrwyr ar gyfer byd gwaith mwy digidol. Bydd adroddiadau ar yr holl waith hwn yn cael eu cyflwyno i’r Bwrdd Academaidd ym mis Mawrth 2022.

270. Defnyddir amrywiaeth o fesurau meintiol i fesur llwyddiant y strategaeth, gan gynnwys:

a. Gwelliannau yn sgorau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a'r broses Gwerthuso Modiwlau

b. Gwelliannau yn arolwg y Gwasanaethau Gwybodaeth[322]

c. Gwelliannau mewn cyflogaeth ar lefel gradd neu astudiaethau pellach[323]

d. Gwelliannau yng nghyfradd cadw myfyrwyr o'r naill flwyddyn i'r nesaf

e. Gwelliannau yng nghyfraddau graddau Anrhydedd Da'r Brifysgol

f. Cynnydd ym modlonrwydd myfyrwyr uwchraddedig

---

[318] https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers/central-events/

[319] https://www.aber.ac.uk/cy/academic/lt-strategy-2019-2022/apex-action-plan/#staff-induction-process

[320] https://www.aber.ac.uk/cy/hr/staff-induction/first-weeks/

[321] https://www.aber.ac.uk/cy/academic/lt-strategy-2019-2022/apex-action-plan/#staff-and-student-mental-health-development

[322] 186 Pwyllgor Gwella Academaidd - Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth

[323] 187 Adroddiad y Pwyllgor Gweithredol ar Ganlyniadau Graddedigion Mehefin 2020

g. Sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer y dyfodol

271. Mae'r LlAA yn rhoi dolenni i gyfres o bolisïau ar ddysgu ac addysgu, gan gynnwys e-gyflwyno[324], isafswm presenoldeb gofynnol Blackboard[325], polisi cipio darlithoedd[326], adborth ac asesu[327], ac arsylwi addysgu gan gymheiriaid[328]. Mae gan yr UDDA rôl ganolog yn llawer o'r meysydd hyn, fel y gwelir o'i adroddiad i'r PGA ym mis Hydref 2021[329]. Enghraifft o waith UDDA gyda myfyrwyr yw cyfraniad Llysgenhadon Dysgu Myfyrwyr[330]. Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Llywio Sgiliau Digidol yn ddiweddar ac wedi penodi Swyddog Sgiliau Digidol i arwain yr agenda hwn, gan adrodd i'r PGA[331]. Caiff gwybodaeth am fodiwlau cyfredol[332], strwythurau cynlluniau astudio[333] a manylion rhaglenni[334] ei chyhoeddi ar-lein.

## Graddau Ymchwil

272. Mae gwybodaeth i fyfyrwyr, staff ac arholwyr allanol wedi'i chynnwys yn y LlAA[335], yn ogystal â ffurflenni a gweithdrefnau perthnasol. Mae'r rheoliadau ar gyfer pob gradd ymchwil hefyd yn rhan o'r LlAA, lle ceir cyfres o reoliadau ar gyfer pob gradd a rheoliadau ar gyfer cyflwyno ac arholi graddau ymchwil[336]. Dogfennau allweddol eraill yw'r Canllawiau i Fyfyrwyr Ymchwil ar Gyrsiau

324 https://www.aber.ac.uk/cy/academic/e-submission/

325 188 Isafswm Presenoldeb Gofynnol Blackboard-2022-1

326 https://www.aber.ac.uk/cy/is/regulations/lecture-capture-policy/

327 189 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.2 Polisi a Gweithdrefnau Asesu

328 https://www.aber.ac.uk/cy/lteu/teaching/pot/

329 190 Pwyllgor Gwella Academaidd- Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu-Adroddiad

330 191 Pwyllgor Gwella Academaidd -Crynodeb o Brosiect Llysgenhadon Dysgu Myfyrwyr -05-10-20

331 192 Pwyllgor Gwella Academaidd -Tudalen Glawr Sgiliau Digidol

332 https://www.aber.ac.uk/cy/modules/

333 https://www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/

334 https://www.aber.ac.uk/cy/programme-specs/index.html

335 https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/res-degrees/

336 https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/#academic-regulations

Gradd Uwch[337] a'r Llawlyfr Arolygwyr[338], sydd i'w gweld ar wefan Ysgol y Graddedigion. Mae'r cod yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac mae'r Llawlyfr Arolygwyr yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd; ym mis Medi 2021 yn fwyaf diweddar. Mae'r cod ymarfer yn manylu ar gyfrifoldebau'r Brifysgol, myfyrwyr ymchwil ac arolygwyr ac yn disgrifio'r amgylchedd ar gyfer ymchwil, a ddylai fod yn gefnogol ac yn gynhwysol i bob myfyriwr ymchwil.

273. Mae gan bob myfyriwr dîm arolygu, gydag arbenigedd sy'n berthnasol i'r prosiect, gan gynnwys prif arolygydd. Cynigir gweithdai hyfforddiant sylfaenol rheolaidd gan Ysgol y Graddedigion ar gyfer arolygwyr, ac mae cyfres estynedig o sesiynau wedi'u datblygu sy'n gyson â Fframwaith Ymarfer Goruchwyliol Da [339] UKCGE a byddant yn cael eu cynnal dros ddau ddiwrnod ym mis Ebrill 2022. Mae PA wrthi'n trafod gyda darparwyr eraill o Gymru, drwy'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch y cyfeiriwyd ati eisoes, ddulliau cydweithredol o wella'r cymorth sydd ar gael i arolygwyr.

274. Mae Ysgol y Graddedigion, ar y cyd â'r UDDA, yn cynnig cyfres eang o fodiwlau hyfforddiant ymchwil[340] yn ogystal â chyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad proffesiynol[341]. Yn ogystal, bydd cyfleoedd hyfforddi a datblygu eraill ar gael i fyfyrwyr a ariennir drwy bartneriaethau hyfforddi UKRI, KESS2 neu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Ysgol y Graddedigion yn cynnal cyfres reolaidd o weithdai i fyfyrwyr gael paratoi ar gyfer viva[342]. Trwy weithgor arall y Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch, rydym yn asesu'r posibiliadau ar gyfer cydweithredu ar hyfforddiant i fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.

275. Mae'n arfer hirsefydlog ym Mhrifysgol Aberystwyth bod gan bob viva a gynhelir i fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig gadeirydd annibynnol, y mae'n rhaid iddo/iddi fynychu gweithdy[343] a gynhelir gan Ysgol y Graddedigion. Mae rheoliadau a meini prawf dyfarniadau wedi'u gwirio yn erbyn datganiad FfCAU a'r datganiad Nodweddion Gradd Doethurol. Un maes yr ydym yn ystyried ein dull o weithredu arno ar hyn o bryd yw achosion lle mae myfyrwyr yn cael canlyniad pasio gyda chwe mis i wneud cywiriadau. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi canfod, mewn rhai achosion, nad yw'r

---

[337] 193 Canllawiau i Fyfyrwyr Ymchwil ar Gyrsiau Gradd Uwch-21.22

[338] 194 Llawlyfr ar gyfer Arolygwyr Uwchraddedigion Ymchwil

[339] https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/supervisory-framework/

[340] https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/central-research/

[341] https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/

[342] https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/graduate-workshops/

[343] 195 Gweithdai Cadeirydd Viva _ Ysgol y Graddedigion , Prifysgol Aberystwyth

cywiriadau wedi'u gwneud yn foddhaol.

276. Rydym yn ymwybodol ers peth amser bod llawer o’n prosesau allweddol yn y maes ymchwil uwchraddedig yn dal i gael eu gwneud â llaw ac ar bapur (er ein bod wedi defnyddio dogfennau electronig yn ystod y pandemig), gan gynnwys monitro cynnydd blynyddol, ceisiadau am estyniad a’r broses asesu. Rydym yn gwerthfawrogi bod y prosesau’n feichus ac yn aneffeithlon oherwydd hyn, a gall hefyd fod anodd dilyn a sicrhau bod prosesau’n gyflawn. Rydym felly, fel llawer o brifysgolion eraill, wedi prynu meddalwedd arbenigol newydd, a ddarperir gan Skillsforge, ar gyfer rheoli ymchwil uwchraddedig. Rydym ar hyn o bryd yn broses o roi'r feddalwedd ar waith.

277. Un ffordd y gobeithiwn elwa o'r feddalwedd yw y bydd mwy o eglurder ynghylch gofynion y prosesau amrywiol hyn. Dylai hefyd arwain at broses gasglu gwybodaeth a llofnodion llawer mwy esmwyth, gyda ffurflenni'n cael eu llenwi o gofnod y myfyriwr; bydd yn esmwytho gweithio gyda phartneriaid ymchwil trawsddisgyblaethol ac allanol; yn symleiddio'r gwaith o archifo dogfennau; yn cynhyrchu e-byst yn awtomatig i fyfyrwyr/staff i'w hatgoffa o dasgau a chadarnhau bod tasgau wedi'u cwblhau a chymeradwyo canlyniadau; a bydd yn golygu mai un ffynhonnell ddata a ddefnyddir gan yr holl staff yn hytrach na chronfeydd data/taenlenni adrannol, a dyblygu data. Gyda'r feddalwedd, daw swyddogaeth adrodd ragorol y byddwn yn ei defnyddio i nodi unrhyw brosesau anghyflawn neu dagfeydd y gellir ymchwilio iddynt a'u cywiro. Rhagwelwn y bydd y broses flynyddol o fonitro cynnydd ac arholiadau, yn enwedig, yn cael eu diffinio'n llawer cliriach. Gobeithiwn y bydd rhai o nodweddion y feddalwedd yn weithredol yn ystod misoedd cyntaf 2022 ac y bydd wedi ei gosod yn llawn yn ystod y flwyddyn honno.

278. O ran myfyrwyr ymchwil uwchraddedig sy'n addysgu, rydym wedi cymryd nifer o gamau i hyrwyddo tegwch yn y maes hwn ac i gefnogi ein myfyrwyr, gan gynnwys cymeradwyo fersiwn o Siarter Cyflogaeth Uwchraddedig UCM/Undeb Prifysgolion a Cholegau, sy'n nodi'r egwyddorion a ddylai fod yn berthnasol wrth benodi, talu a chefnogi myfyrwyr uwchraddedig sy'n rhan o waith addysgu. Mae gwaith i’w wneud o hyd yn Aberystwyth ac ar draws y sector i sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn cael eu hyfforddi a’u cefnogi, ond ers rhai blynyddoedd rydym wedi cynnal rhaglen i uwchraddedigion sy’n addysgu ac sy'n dymuno datblygu eu sgiliau yn ogystal â cheisio achrediad Cymrawd yr Academi Addysg Uwch – rhaglen AUMA[344], sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn i'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae ein meddalwedd newydd hefyd yn caniatáu cofnodi hyfforddiant a disgwyliwn y bydd hyn yn fodd i ni gadw gwell cyfrif bod myfyrwyr sy'n addysgu wedi derbyn yr

[344] https://www.aber.ac.uk/cy/lteu/tpau/

hyfforddiant priodol. Ar hyn o bryd rydym yn cymryd rhan mewn prosiect a gomisiynwyd gan CCAUC i adolygu ein polisi a'n arfer mewn perthynas â chefnogi myfyrwyr uwchraddedig sy'n addysgu.

*Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o bolisïau ac arferion presennol y maes hwn yn sefydliadau addysg uwch Cymru. Bydd yn arwain at adolygiad ysgrifenedig a gyhoeddir yn ddigidol sy'n asesu'r sefyllfa yng Nghymru* ac *yn cynnig asesiad cymharol gyda sampl o sefydliadau eraill ar draws Prydain a'r byd. Bydd yn rhoi argymhellion i sefydliadau, ac yn amlinellu arferion da.*

Llythyr oddi wrth CCAUC i'r IG, 29 Medi 2021

279. Yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolwyr myfyrwyr, rydym ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gydag adrannau a myfyrwyr i geisio adnabod y tasgau y dylid ac na ddylid eu neilltuo i uwchraddedigion fel rhan o'u cyfrifoldebau addysgu neu gyfrifoldebau labordy cyffredinol, fel bod staff a myfyrwyr yn glir ynglŷn â'r hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan ein myfyrwyr uwchraddedig.

## Asesu

280. Mae Adran 3 o'r LlAA[345] yn disgrifio'n fanwl lu o bolisïau ar asesu, gan gynnwys yr egwyddorion sy'n berthnasol i asesu ac adborth. Caiff canlyniadau dysgu'r cynlluniau a'r modiwlau i gyd eu cyhoeddi ac mae'r canllawiau'n ymdrin â maint, ystod a natur yr asesiad er mwyn profi cyflawniad y canlyniadau dysgu. Gofynnir i adrannau beidio â gor-asesu myfyrwyr; mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn dechrau ei ystyried yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed yn sgil Covid a bydd y PMACau yn ystyried y sesiwn hon wrth osod asesiadau ar gyfer modiwlau wrth symud ymlaen ar ôl newidiadau Covid.

281. Mae cyfadrannau ac adrannau, drwy ymgynghori â'u Harholwyr Allanol, yn pennu safonau marcio sy'n briodol i'w disgyblaeth a rhaid sefydlu meini prawf asesu penodol ar gyfer gwahanol ddulliau asesu. Bydd y safoni[346] yn golygu o leiaf samplu gan ail farciwr mewnol neu bennu isafswm o ran canran y gwaith i'w asesu gyda phwyslais arbennig ar farciau methu a marciau ffiniol. Mewn llawer o achosion bydd y Cyfadrannau'n marcio pob elfen asesu arwyddocaol ddwywaith. Yn achos modiwlau sy'n cyfrannu at y radd derfynol, mae Arholwyr Allanol yn sicrhau bod safonau marcio'n cael eu monitro ar lefel ychwanegol. Mae manylion yn y LlAA am y gwahanol ddulliau posib o safoni.

[345] https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/

[346] 196 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.5 Gweithdrefnau marcio a safoni

282. Dylid anfon adborth o fewn 15 diwrnod gwaith neu roi eglurhad[347]. Mae nifer o egwyddorion y dylid eu harfer er mwyn rhoi adborth effeithiol, gan gynnwys y dylai fod yn eglur, er mwyn i'r myfyrwyr allu ei ddeall a'i gysylltu â'r meini prawf asesu a dylai helpu myfyrwyr i weld eu cryfderau a ble mae angen iddynt wella.

283. Caiff unrhyw fyfyriwr, p'un ai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith asesu'r modiwl dan sylw, ddewis cyflwyno sgriptiau arholiadau a gwaith cwrs i'w asesu yn Gymraeg neu Saesneg, (gweler LlAA3.2 paragraffau 27 a 28 Polisi dwyieithrwydd ar gyfer asesiadau) (ac eithrio asesiadau lle mae asesu iaith yn rhan o ganlyniadau dysgu'r modiwl hwnnw). Bydd myfyrwyr sy'n dilyn modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu harholi yn yr iaith honno; mae gan fyfyrwyr sy'n dilyn modiwlau trwy gyfrwng y Saesneg yr hawl i gael eu hasesu yn Gymraeg. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu polisi ar gyfieithu asesiadau gyda'r nod o sicrhau uniondeb y broses (h.y. nad yw myfyrwyr yn cael mantais nac anfantais annheg o ran marcio gwaith wedi'i gyfieithu).

284. Mae pob arholiad yn ddarostyngedig i Weithdrefn Marcio Dienw'r Brifysgol, a bydd ymgeiswyr yn aros yn ddienw hyd nes y cynhelir y Bwrdd Arholi Cyfadrannol/Adrannol. Bryd hynny, caiff argymhellion y Panelau Amgylchiadau Arbennig Cyfadrannol/Adrannol eu hystyried hefyd er mwyn rhoi sylw i amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau arbennig eraill y rhoddodd myfyrwyr wybod amdanynt o dan weithdrefn Amgylchiadau Arbennig y Brifysgol: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/name-193260-en.html

Mae polisi tebyg yn berthnasol i waith cwrs ysgrifenedig, yn amodol ar eithriadau a gymeradwyir gan Gyfadrannau lle nad yw'n ymarferol nac yn ddymunol i'r myfyrwyr aros yn ddienw.

285. Mae'r LlAA hefyd yn trafod ymddygiad academaidd da a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag unrhyw honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol (YAA)[348] [349] . Mae gweithdrefn benodol ar gyfer ymdrin ag achosion o'r fath ar wahanol lefelau, o Gadeirydd y Bwrdd Arholi i baneli lefel y Brifysgol, pan fo'r achosion yn rhai difrifol. Pennir unrhyw gosbau yn unol â'r system gosbi ar sail pwyntiau. Mewn aseiniadau gwaith cwrs yn unig, lle bo'n briodol, caiff Paneli neu Gadeiryddion Byrddau Arholi gyfeirio myfyrwyr at gwrs sgiliau astudio a ddarperir gan y Ganolfan Saesneg Rhyngwladol.

---

[347] 197 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.2 Polisi a Gweithdrefnau Asesu

[348] 198 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.6 Canllaw a phroses Ymddygiad Academaidd

[349] 199 Llawlyfr Ansawdd Academaidd Rhan B 02 . Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

286. Yn ystod 2019-20, ymchwiliwyd i 178 amheuaeth o ymddygiad academaidd annerbyniol, o'i gymharu â 188 yn 2018-19, a chadarnhawyd 164 o achosion (159 yn 2018-19)[350]. Mae'r ffigurau'n cynnwys cyfanswm o bum achos yn ymwneud ag arholiadau ffurfiol, gostyngiad sylweddol ar flynyddoedd blaenorol gan nad oedd arholiadau ffurfiol ar y campws o gwbl yn semester dau, nac yng nghyfnod yr arholiadau atodol oherwydd Covid-19.

287. Yn 2020, llofnododd y Brifysgol Siarter Uniondeb Academaidd newydd a gymeradwywyd gan QAA. Prif amcanion y Siarter yw hyrwyddo uniondeb academaidd ac annog SAUau i ddatblygu egwyddorion cyffredin er mwyn gweithredu yn erbyn camymddwyn academaidd. Mae'r egwyddorion allweddol a amlinellir yn y Siarter yn cyd-fynd yn agos â pholisïau a gweithdrefnau presennol PA sy'n ymwneud ag arfer academaidd annerbyniol. Fel rhan o hyn, sefydlwyd rôl Swyddog Uniondeb Academaidd hefyd ar gyfer y Brifysgol gyfan[351]. Gan weithio gyda chydweithwyr yn y Gofrestrfa Academaidd, mae deiliad y swydd yn arwain ar faterion uniondeb academaidd ac yn goruchwylio materion twyllo ar gontract yn benodol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith ar y cyd â'r UM, ar godi ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr (a staff) o berygl ymwneud â thwyllo ar gontract; adolygu'r rheoliadau YAA yng nghyd-destun ymchwilio i amheuon o dwyllo ar gontract; hyfforddiant staff ar ganfod twyllo ar gontract, strategaethau ar gyfer ymchwiliadau a chynnal paneli YAA. Gan weithio gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth, mae cyfeiriadau at y risgiau cysylltiedig â thwyllo ar gontract hefyd wedi'u hychwanegu at y canllawiau cynefino ar-lein.

288. Bydd Byrddau Arholi yn ystyried y canlyniadau ac yn gwneud argymhellion ynglŷn ag ymgeiswyr ar gynlluniau sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol. Ym mhob achos, bydd marciau a ddyfernir sy'n cyfrif tuag at ddosbarth gradd neu asesiad ar gyfer dyfarniad yn amodol ar gadarnhad gan yr arholwr/arholwyr allanol. Mae'r Brifysgol yn gweithredu system byrddau arholi dwy haen er mwyn sicrhau bod confensiynau'r arholiadau'n cael eu gweithredu'n gyson a bod pawb yn cael ei drin yn gyfartal o ran Amgylchiadau Arbennig. Y cyfadrannau sy'n gyfrifol am gynnal arholiadau ac asesiadau yn eu hadrannau, gan ddilyn y canllawiau a sefydlwyd ar lefel y Brifysgol ac a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd[352]. Yna bydd Bwrdd Arholi'r Senedd yn ystyried ac yn cadarnhau holl ganlyniadau'r cynlluniau a ddysgir trwy gwrs. Bydd Adolygydd Allanol, sy'n aelod profiadol o staff

[350] 200 Adroddiad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol 2019-20 ar gyfer y Bwrdd Academaidd, Chwefror 21

[351] 201 Detholiad o Gofnodion y Bwrdd Academaidd o 07-2020 a 09-2020 yn ymwneud ag YAA

[352] 202 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.7 Arholiadau a Byrddau Arholi

Cofrestrfa Prifysgol arall, yn goruchwylio gwaith Bwrdd Arholi'r Senedd sy'n cael ei gadeirio gan Ddirprwy Is-Ganghellor.

289. Fel cam y bu'n rhaid ei gymryd oherwydd pandemig Covid, caiff y Byrddau Arholi Adrannol a Bwrdd Arholi'r Senedd bellach eu cynnal yn rhithiol (ar-lein) gydag MS Teams. Mae hyn yn cynnwys yr holl fyrddau trwy gwrs, gan gynnwys y bwrdd hyfforddiant ymchwil. Os oes rheswm da, bydd modd mynychu'r Byrddau Arholi wyneb yn wyneb er enghraifft, os bydd angen i'r Arholwr Allanol deithio i Aberystwyth beth bynnag, e.e. i adolygu samplau o waith nad oes modd cael gafael arnynt yn rhwydd ar-lein, i arsylwi perfformiadau byw neu arddangosfeydd celf, neu am fod prinder amser marcio a safoni yn atal samplau o sgriptiau arholiadau rhag cael eu hanfon at Arholwr Allanol cyn i'r Bwrdd Arholi gyfarfod.

## Dysgu Seiliedig ar Waith

290. Rydym wedi adolygu a diweddaru'r adran berthnasol o'n Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn ddiweddar, adran 9.8[353], ar ddysgu seiliedig ar waith (DSW): dysgu sydd fel arfer yn cael ei gyflawni drwy waith â thâl neu heb dâl, y gellir ei asesu ar lefel addysg uwch ac sy'n cyfrannu at ddyfarnu credyd Prifysgol Aberystwyth (PA). Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin â lleoliadau gwaith. Mae'r rhan hon o'r LlAA yn ymwneud â chynlluniau astudio a modiwlau sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith. Y nod wrth gynnwys DSW yn rhan o gynllun neu fodiwl yw rhoi profiadau ystyrlon i fyfyrwyr mewn lleoliadau fydd yn rhoi hwb i wella eu cyfleoedd gyrfa; mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda chyflogwyr.

291. Mae'r adran hon o LlAA yn ceisio:

a. sefydlu dull cymesur o reoli dysgu seiliedig ar waith trwy Gytundeb Ffurfiol.
b. Sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau darpariaeth ddysgu seiliedig ar waith o ansawdd uchel sy'n sicrhau profiad y myfyriwr ac yn bodloni'r canlyniadau dysgu ar lefel y cynllun neu'r modiwl.
c. Egluro cyfrifoldebau a hawliau'r cyflogwr, y Brifysgol a'r myfyriwr pan fydd myfyriwr ar leoliad gwaith.

292. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r prosesau cymeradwyo ac adolygu sy'n sicrhau ansawdd, safonau a phrofiad y myfyriwr, gan gynnwys gwneud yn siŵr y bydd y myfyriwr mewn amgylchedd diogel, ac

[353] 203 Llawlyfr Ansawdd Academaidd 9.8 Dysgu Seiliedig ar Waith a Lleoliadau Myfyrwyr

edrych ar gyfrifoldeb y staff, y myfyrwyr a'r darparwyr. Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer monitro cynnydd myfyrwyr. Mae gan y Cyfadrannau hefyd gyfrifoldeb i sicrhau bod y myfyrwyr wedi cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith gyda rhaglen cyn-leoliad, a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u hasesu'n briodol gyda chanlyniadau dysgu clir.

293. Mae Gweithgor wedi bod yn cyfarfod yn ystod 2021 i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â lleoliadau sydd wedi achosi pryder yn ystod y pandemig[354] [355] [356]. Mae'r materion yn cynnwys sicrhau bod cofnodion cywir, hygyrch yn cael eu cadw o'r holl leoliadau fel ein bod, mewn unrhyw argyfwng, yn gwbl ymwybodol o bob lleoliad gwaith a bod modd i ni gysylltu â'r myfyrwyr. Mae'r Grŵp hefyd yn edrych ar wahaniaethau rhwng prosesau cymeradwyo lleoliadau gwahanol Gyfadrannau. Y nod yw dod i sefyllfa lle gellir cynhyrchu un adroddiad sy'n enwi unrhyw fyfyrwyr sy'n gweithio / astudio oddi ar y campws neu du allan i'w hadran. Yn 2021-22, bydd Polisi Lleoliadau Drafft yn llywio'r gweithrediadau a bydd y lleoliadau'n cael eu cofnodi ar ein cronfa ddata, Target Connect. Mae atebion tymor hwy yn dal i gael eu hystyried.

## Casgliad

294. Ers cynnal Adolygiad Addysg Uwch (Cymru) yn 2016, mae Prifysgol Aberystwyth wedi gweld newid sylweddol, wedi cymryd nifer o gamau ymlaen ac wedi profi rhai llwyddiannau sylweddol. Dechreuodd ein Is-ganghellor newydd, yr Athro Elizabeth Treasure, yn ei swydd ym mis Ebrill 2017. Bryd hynny, roedd gofyn i'r Brifysgol wneud arbedion cylchol o £11.4m dros ddwy flynedd drwy'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Arweiniodd hyn at ailstrwythuro llawer o feysydd y Brifysgol gan gynnwys y Grŵp Gweithredol, graddau uwch adrannau'r gwasanaethau proffesiynol, adrannau a Chyfadrannau sy'n cefnogi gweinyddiaeth academaidd, a chreu'r tair Cyfadran i ddisodli'r Athrofeydd. Erbyn diwedd 2018, roedd y Weithrediaeth, y Cyfadrannau a'r Gofrestrfa Academaidd newydd yn weithredol a dechreuodd y cyfnod anochel o addasu wrth i'r strwythurau newydd hyn gael eu sefydlu.

295. O fewn deunaw mis arall, cafwyd ysgytiad llawer mwy nad oedd modd i neb ei ragweld ac a

[354] 204 Cofnodion y Bwrdd Academaidd, Diweddariad ar Ddysgu Seiliedig ar Waith 17-08-21

[355] 205 Cyfarfod Lleoliadau - 04-11-21

[356] 206 Cyfarfod Lleoliadau - 09-12-21

ddisgrifiwyd yn ddieithriad fel un digynsail ei effaith ar bob agwedd ar fywyd ac ar gymdeithas. Roedd pandemig Covid yn her i weithrediad prifysgolion yn ogystal â bywydau'r staff a'r myfyrwyr. Roedd yn rhaid i ni ymateb yn gyflym, mewn amgylchiadau o ansicrwydd parhaus, er mwyn newid ein ffodd o addysgu, asesu a chefnogi myfyrwyr. Bu'n rhaid gohirio rhai o ddatblygiadau arfaethedig eraill ein Strategaeth Dysgu ac Addysgu er mwyn canolbwyntio ar ddiwygiadau i ddulliau addysgu ac asesu yn ogystal â rheoliadau asesu, ar ddiwedd sesiwn 2019-20 ac yna eto drwy 2020-21. Gwnaethpwyd pob ymdrech i gynnig cymaint â phosib o addysgu wyneb yn wyneb o fis Medi 2020 ymlaen, yn gyson â gweithrediadau diogel. Ar gyfer sesiwn 2021-22, yn unol â'r cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i AU er mwyn gweithredu mor normal â phosib, aethom ati i gynllunio ar y sail y dylai'r holl addysgu mewn grwpiau bach (seminarau, dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a thiwtorialau) ddigwydd wyneb yn wyneb. Credwn ein bod wedi cynnal yr un faint o addysgu wyneb yn wyneb ag unrhyw ddarparwr arall trwy gydol y pandemig, a llawer mwy na'r mwyafrif.

296. Does dim dwywaith bod pandemig Covid wedi rhoi pwysau aruthrol ar y staff a'r myfyrwyr ar bob lefel, ac mae'n dal i wneud hynny. Roedd gofyn gwaith cynllunio ac ymdrech sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r anhawster o addasu systemau profedig ar frys i amgylchiadau newydd. Golygai fod y staff a'r myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth agos i feddwl am atebion mewn egwyddor ac yn ymarferol. Nid oedd popeth yn berffaith. Roedd yn anochel y byddem ni'n colli rhai cyfleoedd dysgu, megis teithiau maes, oherwydd y pandemig, ac roedd yn anodd cael gafael ar adnoddau ar brydiau. Cychwynnwyd ystod o wasanaethau llyfrgell newydd gan gynnwys benthyca clicio a chasglu, benthyciadau trwy'r post a cheisiadau unigol am ddigideiddio penodau (ochr yn ochr â'r rhai oedd yn cael eu darparu fel arfer ar gyfer rhestrau darllen modiwlau). Roedd y gefnogaeth a roddwyd i'r myfyrwyr, gan y gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn ogystal ag Undeb y Myfyrwyr, yn allweddol. Credwn ein bod wedi gallu diogelu'r safonau, gyda llai o chwyddiant graddau nag oedd yn nodweddiadol yn y sector, a darparu addysg yn y ffordd fwyaf effeithiol yr oedd yr amgylchiadau'n ei ganiatáu. Ni welwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion na'r apeliadau a gadarnhawyd, a chawsom gefnogaeth arholwyr allanol ar gyfer camau gweithredu ar lefel adrannol a lefel y Brifysgol. Roedd ein partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr yn allweddol i hynny, er mwyn sicrhau bod yr atebion a gynigiwyd yn rhoi ystyriaeth lawn i bryderon y myfyrwyr, a gwelwyd y bartneriaeth honno'n cryfhau er gwaethaf yr heriau.

297. Yn gyffredinol, rydym yn gweld ein partneriaeth gydag UM a'r mecanweithiau ar gyfer gwrando ar ac ymateb i lais y myfyrwyr, yn un o gryfderau sylweddol ein system. Mae Dy Lais ar Waith, sy'n cynnwys gwasanaeth Rho Wybod Nawr a Holiaduron Gwerthuso Modiwlau, ynghyd â system cynrychiolwyr academaidd a'r myfyrwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau allweddol, yn hyrwyddo

gweithio mewn partneriaeth ac yn hyrwyddo adborth myfyrwyr y gweithredir arno ac sy'n arwain at newid.

298. Fel prifysgolion eraill, mae'r heriau hyn a'r atebion y daethpwyd o hyd iddynt wedi ein hysgogi i feddwl am y dyfodol. Gallai'r atebion dros dro o ddisodli arholiadau traddodiadol ddod yn newidiadau parhaol, gan fod y staff wedi ystyried a oes manteision sy'n werth eu cadw i'r dulliau amgen o asesu cyflawniad canlyniadau dysgu, ac a allai'r dulliau hyn arwain at asesu mwy cynhwysol. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o benderfynu, drwy Bwyllgorau Materion Academaidd ein Cyfadrannau, ar y trefniadau asesu wrth symud ymlaen.

299. Rydym wedi parhau i ddatblygu a diweddaru ein Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Ystyriwn fod y Llawlyfr yn elfen gref yn ein system, lle casglir polisi, gweithdrefnau a dogfennaeth sicrhau ansawdd ynghyd mewn un man, ynghyd â rheolau a rheoliadau ar gyfer dyfarniadau. Mae lle i wella bob amser ac mae diweddariadau rheolaidd yn cael eu nodi yn y ddogfen bob blwyddyn ond mae'n llawer haws i staff ddod o hyd i'r wybodaeth, y ffurflenni a'r dolenni sydd eu hangen arnynt erbyn hyn. Mae'r Llawlyfr yn ganolog i'n proses sicrhau ansawdd. Mae'r strwythur newydd ar gyfer pwyllgorau sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd ac ymlaen i'r Senedd wedi bod yn llwyddiannus hefyd o ran symleiddio busnes, gyda'r PMACau mewn sefyllfa i roi sylw i fusnes lleol a chyfeirio materion ar lefel y Brifysgol i'r Bwrdd Academaidd.

300. Er gwaethaf Covid, mae datblygiadau newydd wedi parhau. O ran partneriaethau, ein nod o hyd yw datblygu niferoedd bychan o bartneriaethau o ansawdd uchel. Gan adeiladu ar y cysylltiadau presennol â Brickfields Asia College, roeddem wedi datblygu darpariaeth rhyddfraint i lefel gradd. Rydym bellach yn gorffen dysgu'r ddarpariaeth, ar ôl penderfynu peidio ag adnewyddu'r cytundeb. Codwyd pryderon gan ein staff ein hunain ac arholwyr allanol ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth, ac er i ni wnaed ymdrech sylweddol i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael profiad boddhaol a chyfatebol, nid oedd gennym hyder llawn yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym wedi dysgu o'r profiad hwn ac rydym yn hyderus ein bod wedi datblygu darpariaeth bartneriaeth o ansawdd uchel yn yr Ysgol Filfeddygol newydd, sy'n cynnig cynlluniau gradd milfeddygol yng Nghymru am y tro cyntaf, a'r MA Addysg (Cymru). Yn enwedig o ran y radd ar y cyd gyda'r RVC, rhoddwyd gofal mawr i sefydlu'r bartneriaeth yn effeithiol. Wrth gyflwyno Nyrsio rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid o'r bwrdd iechyd lleol a Chyngor Sir Ceredigion er mwyn cyfrannu at flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

301. Mae ehangu'r portffolio israddedig gyda chyflwyniad blynyddoedd sylfaen (lefel 3) i lawer mwy o

gynlluniau wedi bod yn hollbwysig er mwyn denu myfyrwyr ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr na fyddent o bosib wedi ymuno â chyrsiau lefel Prifysgol fel arall. Rydym yn ymwybodol o'r angen i barhau i adolygu cyfraddau cadw myfyrwyr a chynnydd ar gyfer y datblygiadau newydd hyn, a nodi nifer y myfyrwyr sy'n ail-wneud blwyddyn, ond hyd yn hyn rydym wedi gweld llawer o fyfyrwyr yn symud ymlaen i lefel 4 y credwn eu bod yn barod am astudiaethau gradd.

302. Un o'r meysydd yr ydym yn ceisio gwella ei ddarpariaeth ar hyn o bryd yw ein rheolaeth o ddysgu seiliedig ar waith a lleoliadau, lle'r ydym yn ceisio gweithio'n fwy cyson a chadw gwell cofnodion, er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael eu cefnogi'n llwyr, gan gynnwys mewn unrhyw achos o argyfwng. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes sy'n gofyn ymdrech ddwys i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu.

303. Bwriad cyflwyno'r feddalwedd rheoli Ymchwil Uwchraddedig yw mynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar brosesau llaw a phapur a dod â mwy o eglurder a chyfathrebu i drefniadau monitro ac arholi. Bydd yn golygu bod modd cofnodi cyfarfodydd rhwng myfyrwyr ac arolygwyr, yn ogystal â llifoedd gwaith ar gyfer newid arolygwr a theitl traethawd estynedig. Bydd yn symlach i fyfyrwyr a staff lenwi dogfennau sydd wedi'u llenwi â data'r myfyrwyr ymlaen llaw, gyda llwybr archwilio clir ac archif dogfennau. Dylai wella ansawdd y data gan y bydd myfyrwyr yn rhyngweithio mwy â'u cofnodion.

304. Gellir cofnodi hyfforddiant hefyd ar y feddalwedd a dylai hyn ein helpu i gadw cyfrif o'r hyfforddiant a wneir gan fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig sydd â chyfrifoldebau addysgu. Bydd yn ffordd i ni geisio sicrhau bod pawb sy'n addysgu wedi cael eu paratoi cystal ag y bo modd. Mae rhaglen AUMA yn gyfle gwych i'r rhai sydd eisiau cymryd rhan, ond mae angen inni sicrhau bod bob myfyriwr ymchwil uwchraddedig sy'n addysgu yn cael sylfaen gadarn. Byddwn yn ymateb i ganlyniadau prosiect presennol CCAUC/AdvanceHE.

305. Rydym hefyd yn awyddus i ddatblygu'r defnydd hwn o ddata sy'n sicrhau a gwella ansawdd i fod yn ddull mwy systematig a strategol, ac adeiladu ar y ffyrdd niferus y defnyddiwn ddata yn ein prosesau ar hyn o bryd. Rydym yn dilyn datblygiadau QAA yn y maes hwn.

306. Drwy greu'r Pwyllgor Cynllunio Portffolio, rydym wedi gwneud newidiadau bychan i'r ffordd y caiff y portffolio ei arolygu, gan gynnwys dileu cynlluniau a rheoli'r portffolio cyfrwng Cymraeg. Gobeithiwn y bydd y cam hwn yn rhoi mwy o gyfeiriad strategol i'r gwaith cynllunio portffolio.

307. Mae adolygiad allanol o PA wedi ei gynnal ers 1992, drwy geisiadau llwyddiannus am bwerau dyfarnu graddau Ymchwil a Ddysgir trwy Gwrs yn 2005-06, ac Adolygiad Addysg Uwch: Cymru yn 2016. Rydym yn ymgysylltu â'r byd allanol drwy'r QAA a'i fframwaith ansawdd, rydym yn paratoi adroddiadau blynyddol manwl i'r Cyngor, ac mae gennym agenda ar gyfer gwella systemau ansawdd a gwella'r ddarpariaeth. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â’r panel adolygu.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| AAU | Academi Addysg Uwch |
| AB | Addysg Bellach |
| AD | Adnoddau Dynol |
| ADB | Achredu Dysgu Blaenorol |
| ADRh | Amgylchedd Dysgu Rhithiol |
| Aladdin | System fewnol sy’n gadael i diwtoriaid personol weld manylion eu myfyrwyr |
| AMTS | Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs (*Annual Monitoring of Taught Schemes*) |
| APEX | Strategaeth Rhagoriaeth Addysg Aberystwyth (*Aberystwyth Pedagogical Excellence Strategy*) |
| AStRA | System cofnodion myfyrwyr PA (*Aberystwyth Students Record and Admissions*) |
| AU | Addysg Uwch |
| AUMA | Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth |
| BA | Baglor yn y Celfyddydau (*Bachelor of Arts*) |
| BAC | Brickfields Asia College |
| BBSRC | Y Cyngor Ymchwil Biotechneg a Gwyddorau Biolegol (*Biotechnology and Biological Sciences Research Council)* |
| BSc | Baglor yn y Gwyddorau (*Bachelor of Science*) |
| BVSc | Baglor mewn Gwyddor Filfeddygol (*Bachelor of Veterinary Science*) |
| CA | Cofrestrfa Academaidd |
| CBGFf | Cyfadran Busnes a’r Gwyddorau Ffisegol |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| CCC | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| CPP | Cloriannu Perfformiad Partner |
| DAg | Doethuriaeth Broffesiynol mewn Amaethyddiaeth |
| DC | Deon Cyswllt |
| DCDA | Deoniaid Cyswllt ar gyfer Dysgu ac Addysgu |
| DIG | Dirprwy Is-Ganghellor |
| DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |

| | |
|---|---|
| DProf | Gradd Ddoethurol trwy Arholiad a Thraethawd Estynedig neu Bortffolio |
| DSA | Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (*Disabled Students' Allowance)* |
| DSW | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| ESG | Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (*European Standards and Guidance*) |
| ESTYN | Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| | |
| FdA | Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau (*Foundation Degree in Arts)* |
| FdSc | Gradd Sylfaen mewn Gwyddoniaeth (*Foundation Degree in Science)* |
| GG | Gwasanaethau Gwybodaeth |
| GWELLA | Rhaglen ddysgu CCAUC a gyfoethogir gan dechnoleg |
| | |
| HGM | Holiadur Gwerthuso Myfyrwyr |
| | |
| IBERS | Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (*Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences*) |
| IG | Is-Ganghellor |
| | |
| JISC | Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (*Joint Information Systems Committee*) |
| | |
| KESS2 | Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (*Knowledge Economy Skills Scholarship*) |
| | |
| LlAA | Llawlyfr Ansawdd Academaidd |
| | |
| MBA | Gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (*Master's in Business Administration*) |
| MC | Memorandwm Cytundeb |
| MMgt | Gradd Meistr mewn Rheolaeth (*Master's in Management*) |
| MPhil | Gradd Meistr mewn Athroniaeth (*Master of Philosophy*) |
| MQA | *Malaysian Quality Assurance Agency* |
| MRes | Gradd Meistr Ymchwil |
| MSc | Gradd Meistr yn y Gwyddorau |
| | |
| PA | Prifysgol Aberystwyth |
| PC | Prifysgol Cymru |
| PCE | Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (*Professional Certificate in Education*) |
| PCP | Pwyllgor Cynllunio Portffolio |
| PDA | Pwyllgor Datblygiad Academaidd |

| | |
|---|---|
| PGA | Pwyllgor Gwella Academaidd |
| PMAC | Pwyllgor Materion Academaidd Cyfadran |
| | |
| PRES | *Postgraduate Research Experience Survey* |
| PTES | *Postgraduate Taught Experience Survey* |
| PYG | Pennaeth Ysgol y Graddedigion |
| | |
| QAA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (*Quality Assurance Agency for Higher Education*) |
| | |
| RVC | Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (*Royal Veterinary College*) |
| | |
| SDA | Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol |
| SDF | Ffurflen Datblygu Cynllun (*Scheme Development Form)* |
| SPA | Swyddfa Partneriaethau Academaidd |
| TAR | Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig |
| TUAAU | Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch |
| THE Awards | Gwobrau Addysg Uwch y Times (*Times Higher Education Awards)* |
| UCAS | Gwasanaeth Derbyniadau i Brifysgolion a Cholegau (*Universities and Colleges Admissions System)* |
| UCM | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr |
| UDDA | Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu |
| UKCGE | Cyngor y DU ar gyfer Addysg Raddedig (*UK Council for Graduate Education*) |
| UKRI | Ymchwil ac Arloesi yn y DU (*UK Research and Innovation*) |
| UKSCQA | Cyngor Sefydlog y DU ar gyfer Sicrwydd Ansawdd (*UK Standing Committee for Quality Assurance)* |
| UM | Undeb y Myfyrwyr |
| UMAber | Undeb Myfyrwyr Aberystwyth |
| UMCA | Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth |
| VPN | Rhwydwaith Personol Rhithiol (*Virtual Private Network*) |